Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
45/2025
DYDDIAD CYHOEDDI:
06/06/2025

Newidiadau i enwau lleoedd yng Nghymru: ymchwil ar dueddiadau cyfredol

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83715-390-9

Newidiadau i enwau lleoedd yng Nghymru: ymchwil ar dueddiadau cyfredol

Awduron: Osian Elias, Kathryn Jones ac Iolo Jones

Adroddiad Ymchwil Llawn: Elias, O.; Jones, K. a Jones, I. (2024). Newidiadau i enwau lleoedd yng Nghymru: ymchwil ar dueddiadau cyfredol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 45/2025.
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/newidiadau-i-enwau-lleoedd-yng-nghymru-ymchwil-ar-dueddiadau-cyfredol

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r:
Adran Ymchwil
Cadw
Adeilad Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ
Ffôn: 0300 062 5147
E-bost: ymchwil.cadw@llyw.cymru

Cynnwys

Rhestr tablau....5
Rhestr ffigurau....7
Geirfa 8
1. Cyflwyniad....10
Nodau ac amcanion yr ymchwil....12
2. Methodoleg....15
Cam 1: Deall y dirwedd bresennol....15
Cam 2: Casglu data enwau lleoedd – golwg ar Gymru gyfan....17
Cam 3: Enwau lleoedd a newid i enwau lleoedd mewn cymunedau penodol....22
Dadansoddi data....28
Diogelu data ac ystyriaethau moesegol....30
Cyfyngiadau a heriau....30
3. Y cyd-destun deddfwriaethol a pholisi....33
Cyd-destun deddfwriaethol....33
Cyd-destun polisi....37
Yr angen am ymchwil ar dueddiadau cyfredol mewn newidiadau i enwau lleoedd yng Nghymru....38
4. Adolygiad llenyddiaeth....40
Enwi lleoedd, deddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol....40
Enwau lleoedd, hunaniaeth a grym....41
Y dirwedd ieithyddol ac enwau lleoedd yng Nghymru....42
Cyfryngau cymdeithasol ac enwau lleoedd....43
Crynodeb o ganfyddiadau allweddol....44
5. Enwau eiddo yng Nghymru: tueddiadau cyfredol yn ôl data ALlau....46
Enwi eiddo....47
Ailenwi eiddo....52
Enwi strydoedd....55
Data enwi lleoedd a newid enwau ALlau a gasglwyd yn 2015....55

Crynodeb o ganfyddiadau allweddol 56
6. Dulliau ALlau o enwi ac ailenwi eiddo a strydoedd 58
Annog ymgeiswyr i ailystyried newidiadau i enwau eiddo ac ymatebion yr ALlau i enwi ac ailenwi enwau eiddo hanesyddol 58
Rôl Swyddogion ERhS 60
Ymatebion i enwi lleoedd a newidiadau i enwau lleoedd yn y dyfodol 63
7. Arolwg enwau tai digidol Cadw 67
Iaith enw presennol y cartref 67
Arallenwi 68
Arallenwi ffurfiol ac anffurfiol 69
Tai a enwyd gan y preswylydd presennol 70
Rhesymau dros ddewis yr enw presennol 71
Ystyr enw'r tŷ 74
Newidiadau i enwau tai 75
Crynodeb o ganfyddiadau allweddol 77
8. Mapio enwau lleoedd 79
Yr Arolwg Ordnans (OS) ac enwau lleoedd 79
Mapiau eraill ac enwau lleoedd 83
Crynodeb o ganfyddiadau allweddol 85
9. Trafodaethau am newid enw lle ar gyfryngau cymdeithasol: astudiaeth achos 87
Astudiaeth achos 87
Crynodeb o ganfyddiadau'r astudiaethau achos 90
10. Ymchwiliad i enwau eiddo a newidiadau i enwau eiddo, ac agweddau at enwau eiddo a newidiadau i enwau mewn ardaloedd penodol 92
Tirwedd ieithyddol 92
Agweddau at, a chanfyddiadau o enwau strydoedd ac eiddo a newidiadau i enwau 96
Newidiadau i enwau eiddo dros amser 99
Ymchwilio i batrwm newidiadau i enwau eiddo mewn ardaloedd eraill 102

Ymchwilio i batrwm newidiadau i enwau eiddo mewn ardaloedd ychwanegol yng Ngwynedd 103
Crynodeb o ganfyddiadau allweddol 105
11. Ystyriaethau thematig mewn perthynas ag enwi lleoedd a newidiadau i enwau lleoedd yng Nghymru 107
Defnydd tir a newidiadau economaidd-gymdeithasol 107
Enwau lleoedd Cymraeg 109
Enwau hanesyddol 111
Datblygiad 112
Crynodeb o ganfyddiadau allweddol 113
12. Casgliadau 114
Llyfryddiaeth 123
Atodiadau 133
Atodiad A: Data enwi lleoedd a newidiadau i enwau gan ALlau (2015) 134
Atodiad B: Rhestr o sefydliadau sy'n rhanddeiliaid a holwyd 137
Atodiad C: Y canllaw trafod a ddefnyddiwyd ar gyfer cynnal cyfweliadau ansoddol lled-strwythuredig gyda sefydliadau allweddol sy'n rhanddeiliaid 138
Atodiad D: Templed ar gyfer casglu data ceisiadau am enwi a newid enwau eiddo a strydoedd gan ALlau 140
Atodiad E: Canllaw trafod ar gyfer Swyddogion ERhS ALlau 143
Atodiad F: Rhestr o ALlau a holwyd 145
Atodiad G: Rhest o'r ALlau a ddarparodd ddata ar geisiadau enwi ac ailenwi eiddo a strydoedd 146
Atodiad H: Ymatebion ALlau i'r cais am ddata ar geisiadau enwi ac ailenwi eiddo a strydoedd a dderbyniwyd gan ALlau 147
Atodiad I: Data a dderbyniwyd gan ALlau ar geisiadau am enwi eiddo fesul ALl 151
Atodiad J: Data a dderbyniwyd ar gyfer ailenwi eiddo domestig fesul ALl 154
Atodiad K: Data ceisiadau enwi strydoedd a dderbyniwyd gan ALlau 156
Atodiad L: Data ALlau ar geisiadau i ailenwi eiddo arall 159
Atodiad M: Cwestiynau arolwg enwau tai digidol Cadw 160

Atodiad N: Canllawiau'r Arolwg Tirwedd Ieithyddol ar gyfer gwaith maes 167
Atodiad O: Data astudiaeth Tirwedd Ieithyddol 169
Atodiad P: Data AddressBase Premium 174

Rhestr tablau

Tabl 2.1: Nifer y dyddiau gwaith maes, eiddo a phobl a holwyd ym mhob ardal 23
Tabl 5.1: Crynodeb o'r data a dderbyniwyd ar geisiadau i enwi eiddo lle mae'r enw a gymeradwywyd o ffynhonnell hanesyddol 51
Tabl 6.1: Crynodeb o'r data a dderbyniwyd ar geisiadau lle cafodd yr ymgeisydd ei annog i ailystyried cais enwi 58
Tabl 7.1: Rhesymau dros ddewis enw tŷ 71
Tabl 7.2: Ymatebion i'r cwestiwn arolwg ar ystyr enw'r tŷ 74
Tabl 9.1: Crynodeb o'r ymatebion i'r ail bôl piniwn ar gyfryngau cymdeithasol ar ailenwi The Dragon’s Back 88
Tabl 10.1: Nifer yr eiddo a enwir a restrir ar Booking.com yn ôl ardal ac iaith 95
Tabl 10.2: Crynodeb o ddata newid enw eiddo AddressBase Premium fesul ardal yn ôl enwau busnes a phreswyl 100
Tabl H1: Ymatebion ALlau i’r cais am ddata ar geisiadau enwi ac ailenwi eiddo a strydoedd a dderbyniwyd gan ALlau 147
Tabl I1: Data a dderbyniwyd gan ALlau ar geisiadau am enwi eiddo fesul ALl 151
Tabl J1: Data a dderbyniwyd ar gyfer ailenwi eiddo domestig fesul ALl 154
Tabl K1: Data ceisiadau enwi strydoedd a dderbyniwyd gan ALlau 156
Tabl L1: Dadansoddiad o ddata newid enwau eiddo arall 159
Tabl O1: Crynodeb o ddata astudiaeth tirwedd ieithyddol 169
Tabl O2: Crynodeb o iaith enwau eiddo fesul ardal 170
Tabl O3: Crynodeb o arallenwi eiddo fesul ardal 171
Tabl O4: Crynodeb o'r eiddo a enwir fesul ardal 172
Tabl P1: Data AddressBase Premium yn dangos newid iaith y newidiadau i enwau eiddo preswyl fesul ardal 174
Tabl P2: Data AddressBase Premium yn dangos newid iaith y newidiadau i enwau eiddo busnes fesul ardal 176
Tabl P3: Data AddressBase Premium yn dangos newid iaith y newidiadau i enwau eiddo preswyl fesul ardal ar gyfer ardaloedd ychwanegol 177
Tabl P4: Data AddressBase Premium yn dangos newid iaith y newidiadau i enwau eiddo busnes fesul ardal ar gyfer ardaloedd ychwanegol 179

Tabl P5: Data AddressBase Premium yn dangos newid iaith y newidiadau i enwau eiddo preswyl fesul ardal ar gyfer ardaloedd ychwanegol yng Ngwynedd 181
Tabl P6: Data AddressBase Premium yn dangos newid iaith y newidiadau i enwau eiddo busnes fesul ardal ar gyfer ardaloedd ychwanegol yng Ngwynedd 183

Rhestr ffigurau

Ffigur 2.1: Sgrinlun o arolwg enwau tai digidol Cadw a rannwyd ar dudalen Facebook Cadw 20
Ffigur 2.2: Arolwg enwau tai digidol Cadw: nifer yr ymatebion yn ôl ALl 21
Ffigur 2.3: Lleoliad 24 o ardaloedd a ddadansoddwyd drwy AddressBase Premium 28
Ffigur 5.1: Nifer y ceisiadau am enwi eiddo yn ôl iaith ac ALl, Ebrill 2018 i Mawrth 2019 i Ebrill 2022 i Mawrth 2023 49
Ffigur 5.2: Nifer y ceisiadau am enwi eiddo yn ôl iaith enw'r eiddo a gymeradwywyd fesul blwyddyn ariannol 50
Ffigur 5.3: Nifer y ceisiadau am ailenwi eiddo domestig drwy newid iaith 52
Ffigur 5.4: Ceisiadau am ailenwi eiddo domestig fesul blwyddyn ariannol, Ebrill 2019 i Mawrth 2023, wedi'u dadansoddi yn ôl newid iaith yr ailenwi 54
Ffigur 5.5: Enwau eiddo (enwau blaenorol ac enwau a gymeradwywyd) yn ôl newid iaith enw 55
Ffigur 7.1: Siart sy'n dangos iaith enw presennol y cartref - Cymru gyfan a'r ardaloedd penodol 68
Ffigur 7.2: Siart yn dangos ateb i gwestiwn arolwg: "A oes gan eich cartref rif hefyd, e.e. 1 Stryd y Castell neu Fflat 2?" 69
Ffigur 7.3: Siart yn dangos atebion i gwestiwn arolwg: "Fel arfer, pan fyddwch chi'n chwilio am eich cyfeiriad ar-lein... a yw canlyniadau'r chwilio yn cynnwys enw eich cartref neu'r rhifyn unig?" 70
Ffigur 7.4: Siart sy'n dangos iaith enw presennol y tŷ ac os y'i dewiswyd ai peidio gan y meddiannydd presennol 71
Ffigur 7.5: Siart yn dangos iaith enw blaenorol tŷ 76
Ffigur 7.6: Siart yn dangos newid iaith enw tŷ 76
Ffigur 10.1: Iaith enwau eiddo yn ôl enwi/arallenwi ac ardal 94
Ffigur O1: Siart yn dangos dadansoddiad manwl o iaith enwau eiddo fesul ardal 173

Geirfa

GSR

Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth

ALl

Awdurdod Lleol (yn cynnwys cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol)

RhELlHC

Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru

OS

Arolwg Ordnans

CBHC

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Swyddog ERhS

Swyddog Enwi a Rhifo Strydoedd

Polisi ERhS

Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd

CELLC

Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru

Tŷ

Unrhyw annedd breswyl, gan gynnwys tai, fflatiau/rhandai, byngalos, bythynnod ac ati.

Enw ffurfiol

Enw sy'n nodi eiddo at ddibenion dosbarthu post, y gwasanaethau brys a swyddogaethau gweinyddol amrywiol. Rhoddir enwau ffurfiol fel arfer i eiddo heb rif ac mae angen caniatâd awdurdod lleol i'w newid. Ychwanegir enwau ffurfiol o bryd i'w gilydd at eiddo wedi'u rhifo.

Enw anffurfiol

Enw a roddir i eiddo nad yw'n ffurfio rhan o'i gyfeiriad post a gofnodwyd. Gellir ychwanegu enwau anffurfiol a'u tynnu o eiddo heb ganiatâd gan awdurdodau lleol.

Arallenw (Alias name)

Enw eiddo neu fusnes sy'n cael ei ychwanegu at gyfeiriad sydd eisoes wedi'i enwi neu ei rifo. Gall arallenwau fod yn enwau anffurfiol neu ffurfiol.

Enw blaenorol

Enw eiddo ffurfiol a fu'n destun cais ailenwi ffurfiol.

Enw a gymeradwywyd

Enw newydd sy'n deillio o gais i newid enw ffurfiol eiddo.

1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau ymchwil i ddeall y tueddiadau presennol mewn newidiadau i enwau lleoedd yng Nghymru. Fe'i comisiynwyd i lywio opsiynau polisi i ddiogelu a hyrwyddo enwau lleoedd hanesyddol yn well. Cynhaliwyd yr ymchwil hon gan IAITH ar ran Llywodraeth Cymru yn ystod Mawrth 2023 hyd at fis Mehefin 2024 gydag elfennau ychwanegol yn cael eu cynnal gan asiantaeth ymchwil arall a chan Cadw.

1.2 Mae'r ymchwil hon yn archwilio'r categorïau canlynol o enwau lleoedd:

- enwau eiddo – gan gynnwys tai, ffermydd, ac adeiladau eraill
- enwau busnes
- datblygiadau ac enwau strydoedd cysylltiedig.

1.3 Nid yw'r ymchwil hon yn ystyried enwau aneddiadau (er enghraifft, trefi, pentrefi a dinasoedd) na newidiadau i enwau aneddiadau. Mae'r rhain wedi'u safoni gan Gomisiynydd y Gymraeg ac maent yn enwau sefydledig nad ydynt yn aml yn destun newid (Llywodraeth Cymru 2022a).

1.4 Mae statws enwau lleoedd yn amrywiol mewn cofnodion swyddogol. Mae rhai enwau'n rhan o gyfeiriadau swyddogol a ddelir gan Awdurdodau Lleol (ALlau), GeoPlace (y ffynhonnell wybodaeth ganolog ar gyfer holl gyfeiriadau ac enwau strydoedd y DU) a chronfa ddata cyfeiriadau y Post Brenhinol (GeoPlace, 2016).

1.5 Efallai na fydd enwau lleoedd eraill yn rhan o gyfeiriadau swyddogol, er y gallant fod yn adnabyddus (ar lafar, efallai, neu fel rhan o'r dafodiaith leol) ar lefel leol neu i grwpiau daearyddol neu grwpiau â buddiant. Gall yr enwau hyn gynnwys enwau nodweddion tirweddol, neu enwau sydd wedi'u cynrychioli'n gorfforol ar blaciau neu blatiau enwau neu wedi'u hymgorffori yng ngwead adeilad (yn enwedig ar strydoedd wedi'u rhifo).

1.6 Mae cofnodion anffurfiol helaeth o enwau lleoedd (a all gynnwys cyfeiriadau swyddogol) yn bodoli. Mae'r rhain yn cynnwys mapiau papur a digidol (e.e. Map Enwau Lleol Cyngor Gwynedd), casgliadau o enwau lleoedd (e.e. Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru), casgliadau o enwau lleoedd o ffynonellau torfol (e.e. Slow Ways), cofnodion masnachol o enwau lleoedd (e.e. fel y ceir ar restrau llety

gwyliau), gwrthrychau ac arteffactau ffisegol, a chofnodion o enwau lleoedd mewn llenyddiaeth. [1] [2] [3]

1.7 Yn achos enwau sy'n rhan o gyfeiriadau swyddogol, mae'r canllawiau statudol, Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru: Llunio a Defnyddio a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru o dan y pwerau yn adran 196 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ystyried Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru (RhELlHC) wrth ymdrin â cheisiadau i ailenwi eiddo.

1.8 Mae'n ddigon posibl y bydd enwau nad ydynt yn rhan o gyfeiriadau swyddogol, hyd yn oed pan fydd ganddynt hanes hir, yn agored i'w newid oherwydd nad oes angen proses ffurfiol i ddisodli enw anffurfiol hirsefydlog. Yn syml, gellir rhoi enw newydd ar dŷ wedi'i rifo neu gellir ychwanegu enw busnes at gyfeiriad sy'n bodoli eisoes.

1.9 Nod yr ymchwil hon yw rhoi gwell dealltwriaeth i Lywodraeth Cymru o'r newidiadau o ran enwau lleoedd Cymraeg drwy archwilio newidiadau ffurfiol ac anffurfiol i enwau lleoedd yn ogystal â'r rhesymau y tu ôl iddynt. Bydd yr ymchwil hon yn creu sylfaen dystiolaeth gadarn i helpu i nodi opsiynau sydd ar gael ar gyfer diogelu enwau lleoedd Cymraeg os a ble y canfyddir eu bod dan bwysau i newid.

1.10 Mae'r ymchwil hon yn cyffwrdd â rhai enghreifftiau o newidiadau i enwau sy'n cynnwys enwau tirweddol. Fodd bynnag, nid oedd yr ymchwil hon yn cynnwys archwiliad manwl o enwau tirweddol, ac nid oedd ychwaith yn archwilio'r berthynas rhwng enwau lleoedd a fathwyd gan gymdeithasau a chwmnïau sy'n ymwneud â thwristiaeth a gweithgareddau awyr agored a normaleiddio'r enwau hynny yn y gymuned leol ac ar-lein. Mae'r rhain yn feysydd a allai fod yn ganolbwynt i ymchwil ychwanegol, fel yr amlinellir ym mhennod 12.

[1] Mae Cyngor Gwynedd wedi datblygu Map Enwau Lleol Gwynedd i gofnodi enwau lleoedd Cymraeg 'sydd yn rhan o hanes a thafodiaith leol, ac na wnaiff byth ymddangos ar fap swyddogol' (Cyngor Gwynedd, 2023).
[2] Nod Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru yw hyrwyddo ymwybyddiaeth, astudiaeth a dealltwriaeth o enwau lleoedd Cymru. Er mwyn cyflawni ei nodau, mae'r Gymdeithas, ymhlith amrywiaeth o weithgareddau, yn cefnogi unigolion a grwpiau i gofnodi enwau lleoedd ac yn cyhoeddi cylchlythyr ynghylch enwau lleoedd Cymru.
[3] Mae Slow Ways yn 'fenter i greu rhwydwaith cenedlaethol o lwybrau cerdded sy'n cysylltu holl drefi a dinasoedd Prydain Fawr yn ogystal â miloedd o bentrefi' (Slow Ways, 2023; Nation Cymru, 2023).

Nodau ac amcanion yr ymchwil

1.11 Nodau'r astudiaeth hon yw:

- nodi ble, sut a pham mae newid enwau eiddo yn digwydd; faint o enwau sy'n newid neu sydd wedi newid yn ddiweddar, a natur fanwl y newidiadau hyn
- deall gweithdrefnau a pholisïau cyfredol ALlau ar gyfer ceisiadau am newidiadau i enwau eiddo ac enwi datblygiadau a strydoedd newydd, ac ystyried effeithiolrwydd polisïau o'r fath
- cael gwell dealltwriaeth o pam y bydd rhai perchnogion busnes yn mabwysiadu enwau newydd yn hytrach nag enwau eiddo presennol yn Gymraeg, neu'n ychwanegu enwau busnes ochr yn ochr ag enwau eiddo presennol.

1.12 Amcanion penodol yr ymchwil hon yw:

- cynnal arolwg llenyddiaeth i ddeall y ffactorau sy'n gysylltiedig â newidiadau i enwau lleoedd cymunedol, a deall y cyd-destun ehangach y mae'r ymchwil hon yn digwydd ynddo
- deall polisïau a chamau gweithredu ALlau ar gyfer mynd i'r afael â cheisiadau newid enwau eiddo ac ystyried effeithiolrwydd polisïau o'r fath
- casglu a dadansoddi data gan ALlau Cymru ar enwi ac ailenwi strydoedd ac eiddo dros y pum mlynedd diwethaf i ganfod tueddiadau posibl mewn newidiadau i enwau lleoedd
- ymchwilio i enwau eiddo ac agweddau at enwau eiddo a newidiadau i enwau mewn ardaloedd penodol
- cynnal asesiad ymchwil mewn lleoliadau penodol o'r newidiadau ffurfiol i eiddo a busnesau dros y pum mlynedd diwethaf, ac archwilio'r cymhellion ar gyfer newidiadau
- deall y trothwy i fapiau'r Arolwg Ordnans (OS) a mapiau digidol newid yr enwau sy'n ymddangos ar fapiau swyddogol, a sut mae'r data'n cael ei gasglu i gyflawni hyn.

1.13 Cyflwynir yr adroddiad hwn mewn deuddeg pennod fel a ganlyn:

- Pennod 1: cyflwyno'r adroddiad

- Pennod 2: amlinellu methodoleg yr astudiaeth
- Pennod 3: nodi'r cyd-destun deddfwriaethol a pholisi a'r angen am yr ymchwil hon
- Pennod 4: cyflwyno mewnwelediadau allweddol o'r llenyddiaeth ymchwil academaidd sy'n cyd-destunoli enwi lleoedd a newidiadau i enwau lleoedd yng Nghymru
- Pennod 5: cyflwyno'r tueddiadau presennol o ran enwi eiddo yng Nghymru, yn seiliedig ar ddadansoddiad o ddata ALlau ar geisiadau ar gyfer enwi ac ailenwi a chyfweliadau gyda swyddogion ALlau
- Pennod 6: ymchwilio i bolisïau ac arferion enwi a rhifo strydoedd (ERhS) ALlau fel y maent yn berthnasol i eiddo a strydoedd, ac ystyried effeithiolrwydd polisïau o'r fath
- Pennod 7: cyflwyno canfyddiadau arolwg enwau tai digidol Cadw, sy'n archwilio patrymau enwi tai ac arallenwi, a'r cymhellion dros ddewis a newid enwau tai
- Pennod 8: esbonio'r trothwy a ddefnyddir gan yr OS a mapiau digidol i newid yr enwau sy'n ymddangos ar fapiau, a sut mae'r data i gyflawni hyn yn cael ei gasglu
- Pennod 9: cyflwyno enghraifft o astudiaeth achos o'r cyfryngau cymdeithasol i ddangos sut mae amrywiaeth o ffactorau yn gallu dylanwadu ar newid i enw lle, ac ymateb pobl i'r newid
- Pennod 10: cyflwyno'r ymchwiliad i enwau eiddo a newidiadau i enwau eiddo, ac i agweddau at enwau eiddo a newidiadau i enwau, mewn ardaloedd penodol
- Pennod 11: cyflwyno'r themâu allweddol a nodwyd yn y data ymchwil sy'n taflu goleuni ar y cymhellion ar gyfer enwi lleoedd a newidiadau i enwau lleoedd yng Nghymru a'r ymateb i hynny
- Pennod 12: crynhoi'r canfyddiadau ymchwil a chasgliadau.

Mae gwybodaeth ychwanegol wedi'i nodi mewn atodiadau:

- Atodiad A: data ALlau ar enwi lleoedd a newidiadau i enwau a gasglwyd yn 2015 i lywio polisi mewn perthynas â Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016

- Atodiad B: rhestr o'r sefydliadau sy’n rhanddeiliaid a holwyd
- Atodiad C: y canllaw trafod a ddefnyddiwyd ar gyfer cynnal cyfweliadau ansoddol lled-strwythuredig gyda sefydliadau allweddol sy’n rhanddeiliaid
- Atodiad D: y templed a ddefnyddir i gasglu ceisiadau am enwi eiddo a strydoedd a newid enw a dderbyniwyd gan ALlau
- Atodiad E: y canllaw trafod a ddefnyddiwyd i gynnal cyfweliadau ansoddol lled-strwythuredig gyda Swyddogion ERhS ALlau
- Atodiad F: rhestr o'r ALlau a holwyd
- Atodiad G: rhestru'r ALlau a ddarparodd ddata ar geisiadau enwi ac ailenwi eiddo a strydoedd
- Atodiad H: trosolwg o ymatebion ALlau i’r cais am ddata ar geisiadau enwi ac ailenwi eiddo a strydoedd a dderbyniwyd gan ALlau
- Atodiad I: data ALlau ar geisiadau i enwi eiddo
- Atodiad J: data ALlau ar geisiadau i ailenwi eiddo domestig
- Atodiad K: data ALlau ar geisiadau enwi strydoedd
- Atodiad L: data ALlau ar geisiadau i ailenwi eiddo arall
- Atodiad M: cwestiynau arolwg enwau tai digidol Cadw
- Atodiad N: canllawiau’r arolwg tirwedd ieithyddol ar gyfer gwaith maes
- Atodiad O: data yr astudiaeth o’r dirwedd ieithyddol
- Atodiad P: data AddressBase Premium.

2. Methodoleg

2.1 Mae'r bennod hon yn disgrifio'r dulliau ymchwil a fabwysiadwyd yn yr astudiaeth amlddisgyblaethol hon. Cynhaliwyd yr ymchwil mewn tri cham:

- Cam 1: Deall y dirwedd bresennol
- Cam 2: Casglu data enwau lleoedd – golwg ar Gymru gyfan
- Cam 3: Enwau lleoedd a newid i enwau lleoedd mewn cymunedau penodol.

Cam 1: Deall y dirwedd bresennol

Llenyddiaeth academaidd a chyd-destun polisi

2.2 Cynhaliwyd adolygiad o lenyddiaeth academaidd i ddeall y ffactorau sy'n gysylltiedig â newidiadau i enwau lleoedd a'r cyd-destun ehangach y mae'r ymchwil hon yn digwydd ynddo. Roedd y llenyddiaeth a gynhwyswyd yn yr adolygiad yn seiliedig ar fewnbwn arbenigol ac yn cynnwys ymchwil o doponymeg feirniadol. Roedd hefyd yn tynnu ar waith o feysydd academaidd eraill megis daearyddiaeth ddynol, sosioieithyddiaeth, ac astudiaethau twristiaeth.

2.3 Roedd ymchwil pen desg hefyd yn cynnwys dadansoddiad o ddogfennau polisi a strategol perthnasol, gan gynnwys: deddfwriaeth allweddol, polisïau a chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru, Cod Ymarfer Geoplace, Adroddiad pum mlynedd cyntaf CBHC ar y Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol, a Pholisïau Enwi a Rhifo Strydoedd ALlau.

2.4 Mae'r Llyfryddiaeth yn rhestru'r ymchwil academaidd a adolygwyd ynghyd â'r ddeddfwriaeth, y polisïau a'r dogfennau strategol a ddadansoddwyd fel rhan o'r ymchwil pen desg.

Data enwi lleoedd a newidiadau i enwau ALlau (2015)

2.5 Cynhaliwyd adolygiad o ddata ALlau ar enwi lleoedd a newidiadau i enwau a gasglwyd yn 2015. Casglwyd y data hwn er mwyn llywio'r ystyriaeth o opsiynau wrth ddatblygu'r polisi a arweiniodd at welliant Llywodraeth Cymru i Fil yr Amgylchedd

Hanesyddol (Cymru) a oedd yn darparu ar gyfer rhestr statudol o enwau lleoedd hanesyddol.[4] Cynhyrchir y data hwn yn Atodiad A.

Astudiaeth achos i'r ymateb ar y cyfryngau cymdeithasol i newid enw lle

2.6 Cynhaliwyd ymchwil pen desg i ystyried astudiaeth achos o ymatebion ar y cyfryngau cymdeithasol i enghraifft newid enw lle, er mwyn helpu i ddeall sut mae'r mater yn cael ei weld mewn cymunedau digidol. Yr astudiaeth achos a ddewiswyd oedd ailenwi tafarn o 'Dragon's Back' i 'Dinas Castle Inn'. Dewiswyd yr enghraifft hon oherwydd bod y newid yn cynnwys:

- enw hanesyddol,
- enwau busnes,
- newid o enw Saesneg i enw Cymraeg a Saesneg cymysg, ac
- enw sefydliad o arwyddocâd cymunedol.

Dadansoddwyd data o bostiadau ac ymatebion ar y cyfryngau cymdeithasol yn ystod 2022, gan ddangos ymatebion i newid enw lle o fewn cymuned ddigidol a ddiffiniwyd yn ddaearyddol. Roedd y postiadau a'r ymatebion ar y cyfryngau cymdeithasol a ddadansoddwyd yn cyfeirio at wahanol enwau sy'n berthnasol i'r drafodaeth. I lywio'r dadansoddiad, ymchwiliwyd i'r enwau hyn gan ddefnyddio'r RhELlHC.

Cyfweliadau â sefydliadau allweddol sy'n rhanddeiliaid

2.7 Cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig gyda sefydliadau allweddol sy'n rhanddeiliaid (gweler y rhestr yn Atodiad B). Pwrpas y cyfweliadau oedd canfod beth yw dealltwriaeth rhanddeiliaid o faterion cyfredol yng nghyswllt newidiadau i enwau lleoedd, casglu gwybodaeth am unrhyw waith perthnasol y maent yn ei wneud, a chasglu enghreifftiau o dystiolaeth ar gyfer newid enwau lleoedd (Atodiad C). Cynhaliwyd wyth cyfweliad rhwng 11 Gorffennaf 2023 a 25 Medi 2023. Cafodd y cyfweliadau eu recordio a'u trawsgrifio gan ddefnyddio Microsoft Teams.

[4] Daeth hyn i rym fel Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016. O ganlyniad, sefydlwyd y Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru gan CBHC yn 2017.

Enghreifftiau o fapio enwau lleoedd ac enwau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau awyr agored

2.8 Roedd yr ymchwil pen desg hefyd yn cynnwys casglu gwybodaeth am enghreifftiau o fapio sy'n coladu enwau lleoedd lleol neu enwau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau awyr agored. Nodwyd pedair enghraifft o'r fath trwy gyfweliadau â rhanddeiliaid ac ymchwil pen desg. Roedd y rhain yn cynnwys Map Enwau Lleol Cyngor Gwynedd (2023), Mapio Cymru, Slow Ways, ac enwi segmentau ar Strava.

Polisi ac arferion enwau lleoedd yr Arolwg Ordnans (OS)

2.9 Ymchwiliwyd i bolisi ac arferion yr OS o safbwynt enwau lleoedd ac enwau lleoedd Cymraeg drwy gynnal cyfweliad cwmpasu cychwynnol, adolygu Polisi Enwau (2022) a Pholisi Enwau Cymraeg (2018) yr OS, a chyfweld â staff OS allweddol mewn un cyfweliad grŵp.[5] Cynhaliwyd a recordiwyd cyfweliadau gan ddefnyddio Microsoft Teams ar 24 Gorffennaf 2023 a 16 Awst 2023.[6]

Cam 2: Casglu data enwau lleoedd – golwg ar Gymru gyfan

2.10 Y prif ddull a fabwysiadwyd i gael golwg ar newidiadau i enwau lleoedd ledled Cymru oedd gofyn i bob un o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru am gofnod wedi'i anonymeiddio o'u data enwi ac ailenwi eiddo a strydoedd. Yn ogystal, ac i gael gwybodaeth am enwau eiddo domestig, dewisiadau ailenwi ac enwi, cynhaliwyd arolwg digidol ledled Cymru gan Cadw.

Ceisiadau i ALlau am enwi ac ailenwi eiddo a strydoedd

2.11 Gan adeiladu ar y dull a ddefnyddiwyd i gasglu data enwi ac ailenwi eiddo a strydoedd yr ALl yn 2015, crëwyd templed cynhyrchu data ar gyfer ALlau i ddarparu data ar gyfer y cyfnod Ebrill 2018 i Mawrth2019 hyd at Ebrill 2022 i Mawrth 2023 (Atodiad D). Roedd y data y gofynnwyd amdano am geisiadau enwi ac ailenwi eiddo a strydoedd a dderbyniwyd gan ALlau yn cynnwys gwybodaeth am:

- y math o eiddo

[5] Penderfynwyd na ddylid cynnwys ffocws tebyg ar fapiau digidol eraill (megis Google Maps a Bing Maps) oherwydd cyfyngiadau o ran adnoddau a rôl yr OS fel asiantaeth mapio genedlaethol Prydain Fawr.
[6] Ers cwblhau'r gwaith ymchwil hon, diweddarwyd Polisi Enwau Cymraeg yr OS ym mis Chwefror 2024.

- enwau eiddo (enwau blaenorol ac enwau a gymeradwywyd)[7]
- lleoliad yr eiddo sy'n destun y cais ailenwi
- iaith enw'r eiddo (enw blaenorol ac enw a gymeradwywyd)
- enwau hanesyddol, ac ymatebion i geisiadau (gan gynnwys lle cyfeiriwyd at yr RhELlHC).

2.12 Cysylltwyd â phob un o'r 22 Awdurdod Lleol drwy restr gyswllt o Swyddogion ERhS yng Nghymru a ddarparwyd gan rwydwaith GeoPlace Cymru. Gofynnwyd i ALlau ddarparu data am geisiadau enwi ac ailenwi eiddo a strydoedd a chymryd rhan mewn cyfweliadau dilynol.

2.13 Ymatebodd 17 o'r 22 Awdurdod Lleol i'r cais am ddata am geisiadau enwi ac ailenwi eiddo a strydoedd a gawsant (gweler Atodiad E). Darparwyd data gan Awdurdodau Lleol ym mhob rhan o Gymru, yn cynrychioli awdurdodau gwledig a threfol gyda dwysedd uwch ac is o ran poblogaeth a nifer y siaradwyr Cymraeg (mae data ALlau wedi'i gynnwys yn Atodiadau F i J).

2.14 Cynhaliwyd 16 o gyfweliadau gyda chyfanswm o 18 swyddog ERhS yn yr 16 o ALlau a restrir yn Atodiad K.[8] Cafodd swyddogion ERhS ALlau ym mhob rhan o Gymru eu cyfweld. Roedd yr ALlau yn cynnwys awdurdodau gwledig a threfol gyda dwysedd uwch ac is o ran poblogaeth a nifer y siaradwyr Cymraeg, yn ôl y Cyfrifiad Poblogaeth a gynhelir pob deng mlynedd. Ystyrir hyn yn sampl gynrychioliadol a dibynadwy o swyddogion ERhS yr ALlau, y gellir tynnu mewnwelediadau dibynadwy ohoni.

2.15 Cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig (Atodiad L) gyda Swyddogion ERhS (gan gynnwys Ceidwaid Cyfeiriadau a Cheidwaid Strydoedd) i helpu i ddeall:

- polisïau ERhS yr ALl a'u gweithrediad
- canfyddiadau Swyddogion ERhS o'u rôl a'u heffeithiolrwydd eu hunain
- tystiolaeth arall o newidiadau i enwau lleoedd.

[7] Ar gyfer y data enwau eiddo ac iaith enwau eiddo, mae 'blaenorol' yn cyfeirio at enw ffurfiol yr eiddo a oedd yn destun cais i newid enw ffurfiol yr eiddo. Mae 'cymeradwywyd' yn cyfeirio at yr enw newydd sydd wedi'i gymeradwyo fel rhan o'r cais i newid enw ffurfiol yr eiddo. Er enghraifft, lle cyflwynir cais ailenwi eiddo i ailenwi 'Ye Old School House' fel 'Bwthyn yr Athro', cyfeirir at 'Ye Old School House' yn y data a'r dadansoddiad fel yr enw a oedd yn bodoli'n flaenorol a chyfeirir at 'Bwthyn yr Athro' fel yr enw a gymeradwywyd.
[8] Rhoddodd un ALl ymateb ysgrifenedig i gwestiynau'r cyfweliad yn lle cyfweliad.

2.16 Cynhaliwyd wyth cyfweliad rhwng 14 Awst 2023 a 26 Hydref 2023. Cafodd y cyfweliadau eu recordio a'u trawsgrifio gan ddefnyddio Microsoft Teams. Yn ogystal â chynnal cyfweliadau, gwnaed ymchwil pen desg i adolygu polisïau ERhS ALlau i helpu i ddeall polisïau ac ymagweddau awdurdodau lleol at enwi ac ailenwi eiddo a strydoedd.

2.17 Dadansoddwyd data meintiol yr ALlau ar geisiadau enwi ac ailenwi eiddo a strydoedd ar wahân ac mewn cymhariaeth â'r data a ddychwelwyd gan Awdurdodau Lleol eraill. Roedd y dadansoddiad yn canolbwyntio ar ble mae newidiadau'n digwydd, sut mae enwau wedi newid dros amser, a natur fanwl y newidiadau hyn. Roedd y data meintiol wedi'i godio gan yr ALlau a ddarparodd y data. Hefyd, darparodd awdurdodau lleol ddata ansoddol ar enwau blaenorol ac enwau a gymeradwywyd. Roedd fformat y data hwn yn caniatáu dadansoddiad pellach a manylach gan y tîm ymchwil o'r newidiadau i enwau eiddo o ganlyniad i geisiadau ailenwi ffurfiol. Roedd hyn yn cynnwys nodi a oedd yr enw yn arallenw — enw a ychwanegwyd at enw ffurfiol neu gyfeiriad wedi'i rifo a oedd eisoes yn bodoli — neu'n enw Saesneg neu Gymraeg, mewn iaith arall neu'n enw iaith gymysg. Roedd y dadansoddiad mwy gronynnog hwn o enwau eiddo (enwau blaenorol ac enwau a gymeradwywyd) gan y tîm ymchwil yn caniatáu cysondeb o ran codio a dadansoddi data enwau eiddo ar draws ALlau.

2.18 Dadansoddwyd trawsgrifiadau'r cyfweliadau a'r dystiolaeth ddogfennol arall a gasglwyd yn thematig o dan benawdau sy'n deillio o nodau ac amcanion yr ymchwil ac o ganllawiau pynciau'r cyfweliad. Yn ogystal â'r dadansoddiad thematig, ystyriodd y dadansoddiad unrhyw wahaniaethau yn ôl ALl, o fewn cyfyngiadau'r data a dderbyniwyd. Roedd y dadansoddiad hefyd yn cynnwys adolygu tystiolaeth ddogfennol arall a gynhyrchwyd yn ystod yr ymchwil, gan gynnwys deunyddiau cyfathrebu â Swyddogion ERhS, adroddiadau a gynhyrchwyd gan Swyddogion ERhS, a dogfennaeth a dderbyniwyd gan randdeiliaid.

Arolwg enwau tai digidol Cadw

2.19 Cynhaliwyd arolwg enwau tai byr gydag wyth cwestiwn (Atodiad M) i gael cipolwg ar gymhellion pobl wrth enwi neu ailenwi eu tai.

Ffigur 2.1: Sgrinlun o arolwg enwau tai digidol Cadw a rannwyd ar dudalen Facebook Cadw



2.20 Rhannwyd yr arolwg ar dudalen Facebook Cadw (Ffigur 2.1) am dair wythnos ym mis Chwefror 2024. Rhoddwyd hwb i'r postiadau cyfryngau cymdeithasol i gynyddu cyrhaeddiad ac ymgysylltiad mor agos â phosibl at y saith ardal tirwedd ieithyddol (gweler 2.22 am ragor o fanylion) er mwyn cael mewnwelediad ychwanegol i'r cymhellion y tu ôl i ddewis yr enwau sy'n weladwy yn yr ardaloedd hynny.

2.21 Denodd y postiadau dros 300 o sylwadau ac arweiniodd at 3,269 o arolygon yn cael eu cwblhau ledled Cymru (Ffigur 2.2); roedd 2,499 o ymatebion yn Saesneg a 770 yn Gymraeg.

Ffigur 2.2: Arolwg enwau tai digidol Cadw: nifer yr ymatebion yn ôl ALl



Cam 3: Enwau lleoedd a newid i enwau lleoedd mewn cymunedau penodol

Astudiaeth o'r dirwedd ieithyddol mewn saith ardal

2.22 Er mwyn cipio enwau eiddo preswyl a busnes mewn ardaloedd penodol, cynhaliwyd arolwg ansoddol o'r dirwedd ieithyddol.[9] Roedd y tu hwnt i gwmpas yr ymchwil bresennol i gynnal astudiaeth o'r dirwedd ieithyddol ar draws Cymru gyfan. Dewiswyd saith ardal i gynrychioli gwahanol fathau o leoedd ledled y wlad. Yr ardaloedd oedd:

- Y Fenni
- Abersoch
- Cei Connah
- Llanberis
- Llanidloes
- Arberth
- Yr Eglwys Newydd, Caerdydd

2.23 Dewiswyd yr ardaloedd hyn i gynnwys enghreifftiau o ardaloedd trefol, gwledig ac arfordirol mewn mannau ledled Cymru sydd â phroffiliau cymdeithasol gwahanol a chyfrannau gwahanol o siaradwyr Cymraeg, yn ôl Cyfrifiad Poblogaeth 2021. Nodir y rhesymeg dros gynnwys pob ardal islaw.

- Y Fenni: De-ddwyrain Cymru, tref farchnad bwysig mewn ardal ôl-ddiwydiannol, mae cynlluniau i ehangu ysgol cyfrwng Cymraeg yn awgrymu bod yr ardal yn newid, 9.9% yn siaradwyr Cymraeg[10]
- Abersoch: Gogledd-orllewin Cymru, arfordirol, cyrchfan i dwristiaid, nifer uchel o ail gartrefi, canran uchel (57%) o siaradwyr Cymraeg
- Cei Connah: Gogledd-ddwyrain Cymru, tref ôl-ddiwydiannol gyda threftadaeth ddiwydiannol, nid yw'n gyrchfan i dwristiaid, yn agos at y ffin â Lloegr, 8.2% o siaradwyr Cymraeg
- Llanberis: Gogledd-orllewin Cymru, tref wledig fewndirol, canran uchel o siaradwyr Cymraeg (69.6%), cyrchfan i dwristiaid ond yn bennaf ymwelwyr dydd, gyda threftadaeth ddiwydiannol

[9] Gweler Shohamy a Gorter (2008) am enghreifftiau o ymchwil arall i dirweddau ieithyddol.
[10] % o siaradwyr Cymraeg yn ôl data Cyfrifiad Poblogaeth 2021

- Llanidloes: Canolbarth Cymru, treftadaeth ddiwydiannol, tref wledig, fawr ddim twristiaeth, 14.9% yn siaradwyr Cymraeg
- Arberth: De-orllewin Cymru, mae data ALlau (Pennod 5) yn nodi mai Sir Benfro sydd â'r nifer uchaf o newidiadau ffurfiol i enwau tai, ffin rhwng rhannau Cymraeg a Saesneg eu hiaith o Sir Benfro, boneddigeiddio lleol, 21.1% yn siaradwyr Cymraeg
- Yr Eglwys Newydd: De Cymru, gynt yn bentref ar wahân i'r gogledd i Gaerdydd ond bellach yn faestref i'r ddinas, disgwylir y bydd yma fwy o eiddo wedi'i enwi na rhai maestrefi cyfagos oherwydd tai mwy a thai sengl, 18.3% yn siaradwyr Cymraeg

2.24 At ddibenion casglu data, diffiniwyd ffin pob ardal gan ddefnyddio'r amlinelliad a ddangosir yn Google Maps. Bu dau aelod o'r tîm ymchwil yn casglu data ym mhob ardal. Gwnaed hyn drwy gerdded neu yrru ar hyd cymaint o'r strydoedd a'r ffyrdd â phosibl yn ystod yr amser a ddyrannwyd ar gyfer y gwaith maes. Cofnodwyd cyfanswm o 7,631 o enwau eiddo. Mae Tabl 2.1 yn nodi nifer yr eiddo a gofnodwyd ar gyfer pob ardal.

Tabl 2.1: Nifer y dyddiau gwaith maes, eiddo a phobl a holwyd ym mhob ardal

Ardal	Dyddiau gwaith maes	Nifer yr eiddo	Nifer y bobl a holwyd
Y Fenni	2	1235	25
Abersoch	1	332	11
Cei Connah	2	1738	32
Llanberis	1	617	9
Llanidloes	1	1054	2
Arberth	1	1063	1
Yr Eglwys Newydd	2	1592	24
Cyfanswm	10	7,631	104

2.25 Defnyddiodd y parau ymchwil daenlen Excel i gofnodi'r wybodaeth ganlynol ar gyfer pob eiddo:

- math o eiddo - busnes neu ddomestig (Teras, Sengl, Tŷ pâr, Byngalo, Arall e.e. fflatiau)
- enw'r stryd
- iaith enw'r stryd (Cymraeg, Saesneg, Cymysg, Arall)[11]
- rhif yr eiddo
- enw'r eiddo
- iaith enw'r eiddo (Cymraeg, Saesneg, Cymysg, Arall)
- eiddo arall (e.e. eglwys, capel, ysgol)
- enw arall yr eiddo

2.26 Ym mhob ardal, cynhaliwyd cyfweliadau stryd anffurfiol[12] gyda phobl yn cerdded heibio, pobl yn sefyll neu'n sgwrsio â chymdogion y tu allan i'w heiddo, a pherchnogion busnes a gweithwyr. Cynhaliwyd cyfanswm o 104 o gyfweliadau. Mae Tabl 2.1 yn dangos nifer y bobl a gafodd eu cyfweld ym mhob ardal.

2.27 Yn y cyfweliadau, gofynnwyd i'r cyfranogwyr:

- am yr enwau maen nhw'n sylwi bod pobl yn eu defnyddio ar gyfer eu cartrefi a'u busnesau yn eu cymuned
- os oeddent wedi sylwi ar unrhyw beth am y mathau o enwau sydd gan gartrefi a busnesau e.e. a ydynt yn hanesyddol i'r ardal, wedi'u henwi ar ôl pobl, lleoedd, daearyddiaeth, enwau yn Gymraeg neu Saesneg
- os oeddent wedi sylwi ar unrhyw newidiadau yn enwau cartrefi a busnesau dros y cyfnod roeddent wedi byw / gweithio yn yr ardal.

2.28 Roedd y cyfweliadau stryd anffurfiol yn dilyn cyfres o gwestiynau trafod (Atodiad N) ac fe'u cynhaliwyd yn Gymraeg, Saesneg neu'r ddwy iaith, yn dibynnu ar yr iaith a ddefnyddiwyd gan y cyfwelai. Yn syth ar ôl y cyfweliad, cafodd crynodeb o'r

[11] Dosbarthwyd enw fel un Cymysg os oedd ganddo elfen Saesneg a Chymraeg, e.e. Derwen Avenue neu Derwen Cottage. Roedd enwau a ddosbarthwyd fel Arall yn cynnwys enwau nad oeddent yn cael eu hadnabod fel rhai Cymraeg, Saesneg neu Gymysg.
[12] Gweler Barriball a While (1994) am drafodaeth ar y defnydd o gyfweliadau stryd anffurfiol fel methodoleg.

cyfweliad ei recordio mewn fformat sain gan y cyfwelydd gan ddefnyddio ap ar eu ffonau symudol. Gwnaed copi ysgrifenedig o'r cyfweliadau a gwiriwyd data enwau strydoedd ac eiddo am gywirdeb a chysondeb. Ychwanegodd y gweithwyr maes arsylwadau a ffotograffau atodol i'r cyfweliadau ysgrifenedig.

2.29 Cafodd y dull cychwynnol o gasglu data ei dreialu yn Abersoch gan ddau aelod o Cadw/Llywodraeth Cymru. Cwblhawyd ymarferion casglu data dilynol gan dîm ymchwil IAITH gyda mân newidiadau i'r protocol ymchwil i hwyluso'r broses o gofnodi data yn y fan a'r lle gan ddefnyddio templed Excel ar ddyfeisiau electronig yr ymchwilwyr. Gweithredwyd y protocol diwygiedig yn gyntaf yn Llanberis ac yna ei ailadrodd yn yr ardaloedd dilynol. Sicrhawyd cywirdeb a chysondeb wrth gofnodi data yn y templed Excel trwy friffio'r tîm cyn iddynt gynnal y gwaith maes, gwiriadau ar y safle yn ystod y gwaith maes, a gwiriadau yn dilyn y gwaith maes gan ddadansoddwr data'r prosiect.

2.30 Dadansoddwyd y data enwau eiddo meintiol yn ôl ardal a'i gymharu â'r data tirwedd ieithyddol a gynhyrchwyd ar gyfer yr ardaloedd eraill. Roedd y dadansoddiad yn ffocysu ar iaith enwau lleoedd a chanfod patrymau mewn perthynas ag arallenwau (lle roedd eiddo gyda rhif hefyd yn dangos enw). Cafodd cofnodion y cyfweliadau ansoddol a'r arsylwadau gwaith maes eu codio'n thematig (cf. Braun a Clarke 2006) mewn perthynas â'r cwestiynau ymchwil, a nodwyd themâu a phynciau allweddol ar draws y data.

Data AddressBase Premium

2.31 Roedd yr arolwg tirwedd ieithyddol yn cofnodi'r enwau sydd i'w gweld ar eiddo domestig a busnes ar hyn o bryd. I ymchwilio i ba raddau y mae enwau eiddo wedi newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf, defnyddiwyd data AddressBase Premium gan Cadw i ddadansoddi newidiadau i enwau ledled Cymru ers 2007.

2.32 Mae'r cynnyrch OS AddressBase Premium yn rhoi'r darlun manylaf o gyfeiriad a'i gylch bywyd ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban a chaiff ei ddiweddaru bob chwe wythnos. Mae'r cynnyrch yn cynnwys cyfeiriadau Rhestr Tir ac Eiddo Lleol Awdurdodau Lleol, OS a'r Post Brenhinol. Mae hyn yn cynnwys cyfeiriadau amgen ar gyfer cofnodion cyfredol lle maent ar gael, gan nodi amrywiadau ar y cyfeiriadau swyddogol. Mae hefyd yn cynnwys cyfeiriadau dros dro (datblygiadau cynllunio

arfaethedig), a gwybodaeth hanesyddol (eiddo nad yw'n bodoli mwyach, er enghraifft eiddo sydd wedi'i ddymchwel) lle mae ar gael. Gan ddefnyddio'r Cyfeirnodau Eiddo Unigryw (UPRN) yn y data Rhestr Tir ac Eiddo Lleol, mae Cadw wedi gallu nodi'r holl ddata sy'n gysylltiedig ag eiddo penodol (preswylfa neu fusnes) ac olrhain unrhyw newidiadau i'r enw cynradd neu eilaidd ers 2007 (2009 ar gyfer rhai siroedd).

2.33 Roedd y rhan fwyaf o ALlau wedi cofnodi data yn AddressBase Premium mewn modd cyson a oedd yn caniatáu dadansoddi gan ddefnyddio methodoleg unffurf. Roedd ychydig o ALlau wedi defnyddio confensiynau data gwahanol, a oedd yn ei gwneud yn amhosibl perfformio dadansoddiad Cymru gyfan. Felly defnyddiwyd data AddressBase Premium i ddadansoddi newidiadau i enwau eiddo domestig a busnes mewn cymunedau, trefi a chodau post penodol.

2.34 I ddechrau, dadansoddwyd data AddressBase Premium fel tystiolaeth ategol ar gyfer y saith lleoliad arolwg tirwedd ieithyddol (Rhifau 1-7 ar y map yn Ffigur 2.3). Nid yw'r ardaloedd a gwmpesir gan setiau data AddressBase Premium, ALlau a Thirwedd Ieithyddol yn cyfateb ac ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol. Yn hytrach, nod y data hwn oedd ychwanegu haen ychwanegol o ddata at y data gweledol a gasglwyd ar gyfer y lleoliadau hyn trwy gynnwys yr holl enwau a roddwyd i'r preswylfeydd a'r busnesau ers 2007, a'r dyddiadau y newidiwyd yr enwau. Roedd hyn yn cynnwys adeiladau gyda rhif yn ychwanegol at yr enw, a'r rhai heb hynny. Dilëwyd data ar gyfer eiddo fel adeiladau newydd lle nad oedd newid enw o'r sampl, ac hefyd unrhyw gofnod nad oedd yn ymwneud ag adeilad, fel peiriannau ATM, meysydd parcio a mastiau telathrebu. Er bod yr arolwg tirwedd ieithyddol wedi cymryd cipolwg ar yr enwau gweledol o fewn pob cymuned ar y pryd, a'r cyfweliadau wedi cipio tymheredd, agweddau a chanfyddiadau'r rhai yn y gymuned, mae data AddressBase Premium yn edrych yn ôl dros y 15 i 17 mlynedd diwethaf i asesu pryd, sut a pha mor aml y mae enwau wedi newid yn ystod y cyfnod hwnnw.

2.35 Wrth ddadansoddi'r data ar gyfer Abersoch a Llanberis yng Ngwynedd, daeth yn amlwg bod patrymau newid enwau yn wahanol rhwng y ddwy ardal yma, er bod y ddau le yn drefi o faint tebyg a bod ganddynt economi sy'n seiliedig ar dwristiaeth a gweithgareddau awyr agored. I ymchwilio i ddata newid enw yn fanylach yn y sir,

dadansoddwyd data AddressBase Premium ar gyfer y deg ardal ychwanegol ganlynol yng Ngwynedd (Rhifau 8 i 17 ar y map yn Ffigur 2.3):

- Aberdyfi
- Blaenau Ffestiniog
- Dolgellau
- Morfa Bychan
- Morfa Nefyn
- Nefyn
- Porthmadog
- Trawsfynydd
- Tywyn
- Y Felinheli

2.36 Dadansoddwyd data AddressBase Premium hefyd ar gyfer saith ardal arall ar draws Cymru (Rhifau 18 - 24 ar y map yn Ffigur 2.3):

- Rhydaman
- Dinbych
- Llandrindod
- Llangollen
- Treorci
- Wrecsam a Llandegla-yn-Iâl
- Ystradgynlais

2.37 Nod y dadansoddiad ychwanegol hwn oedd cael gwell darlun o unrhyw wahaniaeth rhanbarthol o ran enwi eiddo a newid enwau drwy gasglu data o ystod o wahanol gymunedau mewn lleoliadau amrywiol a gwasgaredig ledled Cymru.

Ffigur 2.3: Lleoliad 24 o ardaloedd a ddadansoddwyd drwy ddata AddressBase Premium

1. Y Fenni
2. Abersoch
3. Cei Connah
4. Llanberis
5. Llanidloes
6. Arberth
7. Yr Eglwys Newydd
8. Aberdyfi
9. Blaenau Ffestiniog
10. Dolgellau
11. Morfa Bychan
12. Morfa Nefyn
13. Nefyn
14. Porthmadog
15. Trawsfynydd
16. Tywyn
17. Y Felinheli
18. Rhydaman
19. Dinbych
20. Llandrindod
21. Llangollen
22. Treorci
23. Wrecsam a Llandegla-yn-Iâl
24. Ystradgynlais

Dadansoddi data

2.38 Cafodd data AddressBase Premium ei gategoreiddio fel busnes neu breswyl a'i neilltuo i un o dri chyfnod (2007 i 2014, 2015 i 2019, a 2020 i 2024). Crëwyd rhestr

o 17 cod a oedd yn cynnwys cyfuniadau o newidiadau 'i' ac 'o' y mathau canlynol o enwau eiddo:

- Cymraeg
- Saesneg
- Cymysg (Cymraeg a Saesneg)
- Arall[13]

2.39 Cafodd yr eitemau data hefyd eu categoreiddio fel 'newid i Gymraeg', 'dim newid' neu 'newid o Gymraeg'. Mae 'newid i Gymraeg' yn newid enw lle mabwysiadwyd y Gymraeg, naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol, lle nad oedd wedi bod o'r blaen. 'Dim newid' yw lle mae'r iaith yn aros yr un fath neu lle nad oes unrhyw effaith ar ennill neu golli enwau Cymraeg, er enghraifft, newid o iaith heblaw'r Gymraeg i Saesneg neu lle mae enw Cymraeg wedi newid i enw Cymraeg gwahanol. 'Newid o Gymraeg' yw lle mae enw Cymraeg wedi ei golli neu ei Seisnigeiddio, er enghraifft, mewn newid o enw Cymraeg i enw Saesneg neu enw Cymraeg a Saesneg cymysg (e.e. newid o Derw Goed i Derw Goed Farmhouse).

Data cyfeiriadau Booking.com

2.40 Cynhaliwyd dadansoddiad ychwanegol o'r dirwedd ieithyddol mewn saith ardal astudiaeth drwy ymchwilio i weld a fyddai data cyfeiriadau Booking.com yn datgelu enwi eiddo ffurfiol ac anffurfiol mewn perthynas â llety twristiaeth.

2.41 Defnyddiwyd API (rhyngwyneb rhaglennu cymwysiadau) i echdynnu a pharu data eiddo o booking.com gyda'r eiddo cyfatebol yn OS Places. Yna cafodd hyn ei wirio gan staff Cadw i sicrhau bod y data yn ymwneud â'r un eiddo. Cwblhawyd y broses hon gan staff Cadw i roi sicrwydd bod yr holl gyfeiriadau cyfatebol yn gywir.

2.42 Nodwyd cyfanswm o 301 o gyfeiriadau o'r saith ardal astudiaeth tirwedd ieithyddol ar Booking.com, a'u cyfateb i'r data AddressBase Premium cyfatebol er mwyn cymharu enwau. Yna dadansoddwyd y data gan berson i weld a oedd yr enw a restrir ar booking.com yr un fath â'r enw a restrir ar AddressBase Premium, neu a roddwyd enw i eiddo gyda rhif ar AddressBase Premium.

[13] Dosbarthwyd enw fel un Cymysg os oedd ganddo elfen Saesneg a Chymraeg, e.e. Derwen Avenue neu Derwen Cottage. Roedd enwau a ddosbarthwyd fel Arall yn cynnwys enwau nad oeddent yn cael eu hadnabod fel rhai Cymraeg, Saesneg neu Gymysg.

Diogelu data ac ystyriaethau moesegol

2.43 Cwblhawyd yr ymchwil yn unol ag egwyddorion Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth (GSR). Derbyniodd y cyfranogwyr hysbysiad preifatrwydd a thaflen wybodaeth ddwyieithog a oedd yn esbonio nodau ac amcanion yr ymchwil, a'u cyfraniad i'r astudiaeth. Eglurwyd eu bod yn cyfrannu at yr ymchwil yn wirfoddol.

Cyfyngiadau a heriau

2.44 Er bod y dystiolaeth o'r dull cymysg hwn yn casglu data sy'n cyfrannu at ddarlun o'r hyn sy'n digwydd mewn perthynas ag enwau lleoedd a newidiadau i enwau lleoedd yng Nghymru yn gyffredinol ac mewn ardaloedd penodol, ni honnir ei fod yn cynrychioli darlun cynhwysfawr. Mae rhai cyfyngiadau hefyd yn gysylltiedig â'r dulliau casglu data a ddefnyddir yn yr astudiaeth hon, ac mae angen eu hystyried mewn perthynas â chanfyddiadau'r ymchwil. Mae'r cyfyngiadau a'r heriau hyn yn cael eu hamlygu isod.

2.45 Roedd bwriad i gynnal y cyfweliadau gyda Swyddogion ERhS ar ôl casglu a dechrau dadansoddi'r data a dderbyniwyd gan ALlau ar geisiadau i enwi ac ailenwi eiddo a strydoedd. Roedd newidiadau i amserlen yr ymchwil, a'r heriau wrth dderbyn ymatebion amserol i'r data y gofynnwyd amdano gan ALlau, yn golygu bod y cyfweliadau â Swyddogion ERhS, yn hytrach, yn cael eu cynnal fel oedd yn gyfleus i ALlau. O ganlyniad, prin oedd cyfle yn y cyfweliadau i drafod y data a gyflwynwyd gan ALlau. Fodd bynnag, roedd y cyfweliadau yn caniatáu trafodaeth ar ddealltwriaeth y Swyddogion ERhS o gyd-destun enwi ac ailenwi lleoedd o fewn eu ALl a'u harferion cysylltiedig.

2.46 Mae'r data ar geisiadau enwi ac ailenwi eiddo a strydoedd a dderbynnir gan ALlau yn amrywiol, gyda rhai ALlau yn methu â dychwelyd data ar gyfer yr holl feysydd y gofynnwyd amdanynt a/neu am bob cyfnod o amser y gofynnwyd amdano (gweler Atodiad H). Pan oedd y data a ddychwelwyd yn anghyflawn neu mewn fformat arall, ailfformatiwyd y data yn ôl yr angen a'i ddefnyddio lle bo hynny'n bosibl. Fel y nodwyd ym mharagraff 2.17, roedd y data ceisiadau enwi ac ailenwi meintiol a ddarparwyd gan ALlau wedi cael ei godio gan yr ALlau gan ddefnyddio tri chod (Cymraeg, Saesneg, arall). Nid oedd y lefel hon o godio yn galluogi nodi enw eiddo a oedd yn cynnwys elfennau Cymraeg a Saesneg, neu y gallai ôl-ddodiaid neu

arallenwau fod wedi effeithio ar gysondeb y data meintiol hwn gan yr ALl. Cafodd y data ansoddol gan ALlau ar enwau blaenorol ac enwau a gymeradwywyd ei godio gan y tîm ymchwil, ac roedd hyn yn caniatáu codio a dadansoddi data gronynnog yn fwy manwl. Fodd bynnag, ni ddychwelodd pob ALl y data meintiol ac ansoddol y gofynnwyd amdano (gweler Atodiad H) ac, o ganlyniad, mae gwahaniaethau rhwng y data enwau eiddo meintiol ac ansoddol.

2.47 Cafodd arolwg enwau tai digidol Cadw ei rannu'n ddigidol drwy dudalen Facebook Cadw. Roedd ymatebwyr yr arolwg wedi gwneud hynny o'u gwirfodd. Ni fydd sampl yr arolwg yn gynrychioliadol o ddeiliaid tai yng Nghymru. Er bod maint cyffredinol y sampl yn fawr, roedd y setiau data ar gyfer saith ardal yr astudiaeth tirwedd ieithyddol yn fach. Yn achos dwy ardal, Yr Eglwys Newydd a Chei Connah, roedd nifer yr ymatebwyr yn rhy fach i'w cynnwys yn y dadansoddiad. Gwnaed dadansoddiad sentiment ar y sylwadau i bostiadau Facebook, a ddatgelodd duedd fach tuag at y rhai ag enwau Cymraeg, gan awgrymu y gallai hyn fod yn wir hefyd am y rhai a ddewisodd gwblhau'r arolwg.

2.48 Cynhaliwyd y gwaith maes tirwedd ieithyddol yn ystod mis Mawrth 2024. Roedd tywydd garw (glaw trwm, gwynt ac oerfel) a diffyg golau dydd yn effeithio ar nifer yr eiddo a gofnodwyd mewn rhai ardaloedd. Fodd bynnag, cofnodwyd enwau cyfran uchel o'r eiddo a bernir bod y data a gasglwyd yn gynrychioliadol o bob ardal. Yn Llanidloes ac Arberth, roedd nifer y cyfweliadau a gynhaliwyd yn is oherwydd prinder pobl allan mewn tywydd garw ac amharodrwydd gan ymwelwyr ar wyliau i gael eu cyfweld. Ar wahân i Lanidloes ac Arberth, cyrhaeddwyd pwynt dirlawnder cyfweliadau (sy'n golygu nad oes unrhyw wybodaeth newydd yn cael ei chasglu) (Glaser a Strauss,1967) ym mhob ardal. Yn seiliedig ar hyn, barnwyd bod y cyfweliadau a gynhaliwyd yn darparu'r mewnwelediad sydd ei angen i fynd i'r afael â'r cwestiynau ymchwil.

2.49 At ei gilydd, roedd data AddressBase Premium ar gyfer y rhan fwyaf o siroedd Cymru yn gadarn ac yn ddibynadwy. Fodd bynnag, roedd anghysondebau o ran prosesau cofnodi data rhai ALlau yn golygu nad oedd modd defnyddio eu gwybodaeth ac felly roedd gwneud dadansoddiad Cymru gyfan o newidiadau i enwau lleoedd yn amhosib.

2.50 Cafodd data AddressBase Premium ei holi yn ôl ardal. Roedd ardaloedd yn amrywio'n sylweddol o ran maint. Ar y lefel hon, roedd nifer y cyfeiriadau yr effeithiwyd arnynt gan newidiadau enw ym mhob ardal yn eithriadol o isel fel arfer - o dan ddeg neu o dan bump eiddo. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd gweld unrhyw batrymau o fewn ardaloedd ac o'u cymharu ag ardaloedd eraill. Er mwyn sicrhau cywirdeb data, aethpwyd ati i baru a dadansoddi enwau eiddo Booking.com gydag enwau AddressBase Premium â llaw. Roedd hyn yn cyfyngu ar nifer yr ardaloedd (24) y gellid eu dadansoddi gyda'r adnoddau oedd ar gael.

3. Y cyd-destun deddfwriaethol a pholisi

3.1 Mae'r bennod hon yn nodi'r cyd-destun deddfwriaethol a pholisi cyfredol sy'n berthnasol wrth ystyried tueddiadau mewn enwi lleoedd a newidiadau i enwau lleoedd yng Nghymru. Yn benodol, mae'r cyfreithiau a'r polisïau y cyfeirir atynt yma yn diffinio cyfrifoldebau statudol ALlau mewn perthynas ag enwi lleoedd, enwau lleoedd hanesyddol a'r Gymraeg. Mae polisïau ac arferion ERhS yr ALlau yn cael eu hymchwilio ymhellach ym Mhennod 6. Mae'r bennod hon hefyd yn diffinio'r bwlch tystiolaeth y mae'r ymchwil hon yn ceisio mynd i'r afael ag ef.

Cyd-destun deddfwriaethol

3.2 Mae'r adran hon yn cyfeirio at y datblygiadau allweddol mewn deddfwriaeth sy'n pennu pwerau a pholisïau statudol mewn perthynas ag enwau lleoedd.

3.3 Mae pedwar prif ddarn o ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i enwi a rhifo strydoedd (GeoPlace 2016). Dyma nhw:

- Deddf Iechyd y Cyhoedd 1925: Adrannau 17,18 a 19 (ar gyfer enwi strydoedd a phlatiau enw)
- Deddf Diwygio Deddfau Iechyd y Cyhoedd 1907: Adran 21 (i newid enwau strydoedd)
- Deddf Cymalau Gwella Trefi 1847: Adrannau 64 a 65 (ar gyfer rhifo eiddo)
- Deddf Iechyd y Cyhoedd 1875: Adran 4 (ar gyfer diffinio strydoedd).

3.4 Mae'r 'gyfraith ar ERhS yng Nghymru a Lloegr yn gymhleth', gyda sawl cynllun deddfwriaethol sydd ag 'elfen sylweddol o groesi llwybrau'. Mae hyn yn cael ei 'gymhlethu ymhellach gan Ddeddfau Lleol[14] a all fod yn berthnasol yn lle un o'r cynlluniau[15] cenedlaethol' (GeoPlace, 2023a). Ceisiodd Deddf Llywodraeth Leol 1972 gyflwyno trefn drwy ganiatáu i Awdurdodau Lleol ddewis pa gynllun neu

[14] Un enghraifft o Ddeddf Lleol sy'n berthnasol yng Nghymru yw Deddf Gorllewin Morgannwg 1987, sy'n cyflwyno cynllun deddfwriaethol newydd ar gyfer rhifo strydoedd yng Ngorllewin Morgannwg ac yn datgymhwyso'r darpariaethau ar rifo strydoedd yn Neddf 1847. Er gwaethaf diflaniad Gorllewin Morgannwg yn sgil sefydlu'r awdurdodau unedol presennol ym 1996, mae Cyngor Dinas Abertawe a Chyngor Castell-nedd Port Talbot yn parhau i ddibynnu ar y Ddeddf hon ar gyfer pwerau rhifo strydoedd (GeoPlace, 2023a a pholisi ERhS awdurdodau lleol perthnasol).

[15] Yma, mae 'cenedlaethol' yn cyfeirio at Gymru a Lloegr.

gyfuniad o gynlluniau fyddai'n berthnasol. Mae gan gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru gyfrifoldebau a phwerau statudol, o fewn cyd-destun y ddeddfwriaeth hon, ar gyfer rhifo eiddo, enwi strydoedd, newid enwau strydoedd, a chodi arwyddion perthnasol. Bydd y cynlluniau a fabwysiadwyd gan ALl yn llywodraethu'r cyfrifoldebau a'r pwerau amrywiol a byddant yn effeithio ar y prosesau cywir o ran ymgynghori, camau gorfodi ac a ellir codi ffioedd (GeoPlace, 2023a). Mae Cod Ymarfer GeoPlace (2023a) yn amlinellu'r cynlluniau deddfwriaethol sy'n berthnasol i ERhS ac mae'n cynnwys adolygiad o'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer ERhS a gwblhawyd yn 2018.

3.5 Pa bynnag gynllun y mae'r rhan fwyaf o ALlau Cymru yn ei fabwysiadu, byddant yn ymgymryd â'u dyletswyddau enwi a rhifo strydoedd o dan lond llaw o ddarpariaethau sylfaenol sy'n ganrif neu fwy o oed. Dim ond dwy ddarpariaethau ynghylch enwi a rhifo strydoedd sy'n parhau mewn grym yn Neddf Cymalau Gwella Trefi 1847 a dim ond tair (sy'n ymwneud yn unig ag enwi strydoedd) yn Neddf Iechyd y Cyhoedd 1925. Dim ond Cyngor Dinas Abertawe a Chyngor Castell-nedd Port Talbot, sy'n rhifo strydoedd o dan Ddeddf Gorllewin Morgannwg 1987, sydd â phwerau penodol i'w gwneud yn ofynnol i eiddo gael ei adnabod drwy ddulliau heblaw rhif, h.y. enw, ar gais y perchennog neu'r meddiannydd.

3.6 Mae cyfeiriadau swyddogol yn cael eu cofnodi a'u diweddaru yn Rhestr Tir ac Eiddo Lleol a Rhestr Strydoedd Lleol pob ALl. Nid yw ALlau yn gyfrifol am neilltuo cod post; cyfrifoldeb y Post Brenhinol (GeoPlace, 2016) yw hwn. Mae GeoPlace yn darparu crynodeb cynhwysfawr o'r pwerau a'r canllawiau statudol ar gyfer ALlau (2016, Atodiad E).

3.7 Gall Polisïau Enwi a Rhifo Strydoedd (ERhS) a gyhoeddir gan ALlau roi manylion am sut mae'r cyfreithiau hyn yn cael eu trosi i arfer lleol. Pwrpas polisïau ERhS yw amlinellu polisi'r ALl ar gyfer dyrannu, rheoli a defnyddio pob cyfeiriad yn ardal yr ALl, gan gynnwys dyrannu enwau strydoedd, newidiadau i enwau eiddo, ac ychwanegu enwau newydd. Mae dadansoddiad o bolisïau ERhS yn dangos y gall polisïau o'r fath amlinellu prosesau a gweithdrefnau ar gyfer gweithgareddau a all gynnwys:

- enwi neu rifo tŷ

- newid enw tŷ
- ychwanegu enw at eiddo sydd eisoes wedi'i rifo (arallenw)
- datblygiad gydag enw stryd newydd
- addasu eiddo yn fflatiau neu unedau
- diwygio amserlen datblygiad a gyhoeddwyd eisoes
- ailenwi stryd ar gais preswylydd
- enwi ffordd lle nad oes enw yn bodoli
- cadarnhau cyfeiriad swyddogol
- ychwanegu neu newid enw masnachol i safle busnes
- cais i ymchwilio unrhyw anghysondeb o ran cyfeiriad.

3.8 Mae Pennod 6 yn trafod canfyddiadau'r ymchwil sy'n ymwneud â pholisïau ac arferion ERhS ALlau.

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

3.9 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gwneud y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru ac yn sefydlu fframwaith cyfreithiol ar gyfer ei defnyddio a'i hyrwyddo mewn gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r gyfraith hefyd yn sefydlu rôl Comisiynydd y Gymraeg ac yn creu fframwaith cyfreithiol i osod dyletswyddau ar rai sefydliadau i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg.

3.10 Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 yn berthnasol i Weinidogion Cymru, ALlau ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Mae safonau 61, 62 a 63 yn ymwneud ag arddangos arwyddion, gan gynnwys arwyddion stryd. Nid yw'r safonau'n gosod dyletswydd benodol ar gorff (ALl yn yr achos hwn) i gyfieithu enw stryd i'r Gymraeg os nad oes enw stryd Cymraeg wedi'i gofnodi yn unol â Deddf Iechyd y Cyhoedd 1925 (Comisiynydd y Gymraeg, 2020: 72). Fodd bynnag, mae gan ALlau yr hawl i newid enwau strydoedd dwyieithog neu Saesneg y maent yn gyfrifol am eu henwi i'r Gymraeg yn unig. Mae gan ALlau hefyd yr hawl i wrthwynebu cais sy'n cynnig enw stryd newydd nad yw yn y Gymraeg (Comisiynydd y Gymraeg, 2020: 72). Mae'r safonau'n gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol, Gweinidogion Cymru ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol i ddefnyddio'r Gymraeg ar bob arwydd, sy'n cynnwys arwyddion ffyrdd. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid

defnyddio enwau Cymraeg pentrefi, trefi a dinasoedd pan fyddant ar gael, a thrwy hynny sicrhau bod y ffurfiau Cymreig yn cael eu gweld a'u defnyddio.

3.11 Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gyfrifol am gynghori ar ffurfiau safonol enwau lleoedd yng Nghymru ac mae'n darparu gwasanaeth cynghori i sefydliadau ac unigolion ar faterion sy'n ymwneud ag enwau lleoedd (Comisiynydd y Gymraeg, 2023a: 1). Mae'r Comisiynydd wedi cynnull Panel Safoni Enwau Lleoedd i ddarparu cyngor arbenigol mewn perthynas â'i gyfrifoldeb. Wrth gynghori a gwneud argymhellion, mae'r Panel hefyd yn ystyried ystyr, hanes a tharddiad enwau lleoedd, ynghyd â'r defnydd a wneir ohonynt ar hyn o bryd (Comisiynydd y Gymraeg, 2023b).

3.12 Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cynhyrchu Canllawiau Safoni Enwau Lleoedd Cymru ar gyfer enwau aneddiadau Cymraeg (pentrefi, trefi a dinasoedd) a nodweddion tirweddol (llynnoedd, afonydd, mynyddoedd) (Comisiynydd y Gymraeg, 2023a: 1). Fel y soniwyd uchod, nid yw'r astudiaeth hon yn ymchwilio i enwau aneddiadau neu newidiadau i enwau aneddiadau. Fodd bynnag, er nad yw'r canllawiau o reidrwydd yn berthnasol i enwau tai neu adeiladau, 'ceir ynddynt lawer o egwyddorion gwerthfawr y gellid eu cymhwyso wrth drin yr enwau hynny neu wrth fathu enwau ar ddatblygiadau newydd' (Comisiynydd y Gymraeg, 2023a:1).

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

3.13 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw'r ddeddfwriaeth trosfwaol sy'n ymgorffori'r egwyddor o gynaliadwyedd ar gyfer gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru yn y presennol ac yn y dyfodol. Mae'n nodi saith nod llesiant cenedlaethol, gan gynnwys 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Yn unol â'r Ddeddf hon, rhaid i bob Awdurdod Lleol (a chyrff cyhoeddus eraill) osod a chyhoeddi amcanion llesiant sydd wedi'u cynllunio i wneud y mwyaf o'u cyfraniad at gyflawni pob un o'r saith nod llesiant (Llywodraeth Cymru, 2021a: 5-6). Yng Nghynllun Tai Cymunedau Cymraeg Llywodraeth Cymru, cydnabyddir bod enwau lleoedd yn rhan o dreftadaeth ieithyddol a diwylliannol Cymru ac y dylid eu gwarchod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol 'fel rhan o'n

treftadaeth hanesyddol ac fel arwydd gweledol o'n cymunedau byw.' (Llywodraeth Cymru, 2022a: 36).

Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023

3.14 Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynnal a chyhoeddi rhestr o enwau lleoedd hanesyddol yng Nghymru. Mae Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC) yn ymgymryd â'r ddyletswydd hon ar ran Gweinidogion Cymru (Cadw, 2023) drwy gynnal Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru (RhELlHC).

3.15 Nod y Rhestr Enwau (RhELlHC) yw ‘codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o etifeddiaeth gyfoethog enwau lleoedd hanesyddol yng Nghymru ac annog defnydd parhaus o'r elfennau pwysig hyn o dreftadaeth ein cenedl' (CBHC, 2017: dim rhif tudalen). Nid oes diffiniad statudol o beth yw enw 'hanesyddol' (CBHC, 2022: 2). ‘Mae’r enwau lleoedd yn y Rhestr yn adlewyrchu’r amrywiol ffurfiau a sillafiadau sydd wedi cael eu defnyddio o’r Oesoedd Canol hyd heddiw, ac yn aml yn cynnwys elfennau sy’n cyfeirio at adeiladau, pobl a nodweddion archaeolegol neu dopograffigol' ac yn rhoi cipolwg ar ddefnydd tir, archaeoleg, a hanes Cymru (CBHC, 2017: dim rhif tudalen).

3.16 Mae'r canllawiau statudol Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru: Llunio a Defnyddio yn annog Awdurdodau Lleol i 'ddefnyddio enwau lleoedd hanesyddol yn sail ar gyfer enwi strydoedd newydd neu ddatblygiadau eraill pryd bynnag y bo modd. Wrth ystyried cais gan ddatblygwr i enwi lle newydd, dylai’r awdurdod lleol gyfeirio at y rhestr o enwau lleoedd hanesyddol. Os oes enw hanesyddol priodol (er enghraifft, enw sy’n deillio o enw hanesyddol ar gyfer cae neu anheddiad), yna bydd y datblygwr yn cael gwybod hynny ac yn cael ei annog i’w ddefnyddio' (Llywodraeth Cymru, 2017: 18). Dylai Awdurdodau Lleol hefyd ystyried RhELlHC wrth ymdrin â cheisiadau i ailenwi eiddo (Llywodraeth Cymru, 2017: 15). Cyflwynir dadansoddiad o‘r graddau y mae Awdurdodau Lleol yn ystyried RhELlHC ym Mhennod 6.

Cyd-destun polisi

3.17 Mae'r adran hon yn amlinellu'r cyd-destun polisi perthnasol mewn perthynas ag enwi lleoedd a newidiadau i enwau lleoedd yng Nghymru.

Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg

3.18 Cymraeg 2050 yw'r strategaeth genedlaethol gyfredol ar gyfer y Gymraeg y mae Gweinidogion Cymru wedi'i mabwysiadu yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r strategaeth yn gosod targedau o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg a dyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg erbyn 2050. Mae hefyd yn rhoi cyd-destun i'r nod llesiant cenedlaethol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu (Llywodraeth Cymru 2022a: 8). Mae rhaglen waith Cymraeg 2050: 2021 i 2026 yn nodi'r ymrwymiad i 'weithio i warchod enwau lleoedd Cymraeg sy'n rhan annatod o'n treftadaeth' (Llywodraeth Cymru, 2021b: 20). Mae'n rhaid i ALlau ystyried strategaeth Cymraeg 2050 ym mhob agwedd ar eu gwaith llunio polisi ac wrth gyflawni eu swyddogaethau statudol.

Y Rhaglen Lywodraethu 2021 i 2026

3.19 Mae Rhaglen Lywodraethu ddiweddaraf Llywodraeth Cymru yn nodi'r ymrwymiad i weithredu i amddiffyn enwau lleoedd Cymraeg. Atgyfnerthwyd y bwriad hwn yn y Cytundeb Cydweithio rhwng y Llywodraeth a Phlaid Cymru. Nodwyd mai'r ymrwymiad a rennir oedd gweithredu i 'sicrhau bod enwau lleoedd Cymraeg yn yr amgylchedd adeiledig a naturiol yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol' (Llywodraeth Cymru, 2021c: 6). Mae diogelu enwau lleoedd Cymraeg hefyd yn cael sylw yng Nghynllun Tai Cymunedau Cymraeg Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â'r heriau sydd yn wynebu cymunedau Cymraeg gyda dwysedd uwch o ail gartrefi (Llywodraeth Cymru, 2022a:4). Mae'r camau gweithredu yn y Cynllun Tai yn cael eu hailddatgan ym Mholisi Seilwaith Ieithyddol y Gymraeg Llywodraeth Cymru.

Yr angen am ymchwil ar dueddiadau cyfredol mewn newidiadau i enwau lleoedd yng Nghymru

3.20 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf bu galwadau i weithredu i fynd i'r afael â phryder a fynegir yn aml bod yr amgylchedd clywedol a gweledol unigryw y mae pobl yn byw ynddo yng Nghymru yn cael ei fygwth yn sgil newid enwau lleoedd Cymraeg, yn aml i'r Saesneg (Owen, 2018; Jones, 2023). Yn 2014, cyflwynwyd deiseb gan Mynyddoedd Pawb i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, fel yr oedd ar y pryd, yn galw am weithredu i berswadio cyrff a sefydliadau i ddiogelu a pharchu enwau lleoedd

Cymraeg. Yn 2020, galwodd deiseb arall gyda dros 18,000 o lofnodion ar y Senedd i atal pobl rhag newid enwau Cymraeg tai. Yn fwy diweddar, cynhaliodd Cylch yr Iaith ymgyrch ohebu yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddeddfu i'r perwyl hwn (Llywodraeth Cymru, 2022b: 2).

3.21 Yn 2022, cyhoeddodd CBHC ei adolygiad pum mlynedd cyntaf o'r gwaith hyd yma ar yr RhELlHC, Adroddiad ar y Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol. Un o gasgliadau'r adroddiad oedd, er bod y rhestr yn darparu tystiolaeth o newidiadau i'r stoc o enwau hanesyddol, 'mae diffyg data i alluogi dealltwriaeth lawn o gyfradd gyfredol a graddfa'r ffenomen hon ac a yw enwau hanesyddol yn cael eu newid yn amlach ac am resymau gwahanol o gymharu â'r gorffennol' (CBHC, 2022: 1). Roedd yr adroddiad hwn yn 2022 yn un o'r sbardunau ar gyfer yr ymchwil gyfredol sydd wedi'i chomisiynu i nodi ble, sut a pham y mae newidiadau i enwau lleoedd yn digwydd i lywio datblygiad opsiynau polisi yn y dyfodol. Nodir hefyd y bwriad i gynnal yr ymchwil hon yn Y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg (Llywodraeth Cymru, 2022a: 8) ac mae'n cael ei ailddatgan ym Mholisi Seilwaith Ieithyddol y Gymraeg (Llywodraeth Cymru, 2023).

4. Adolygiad llenyddiaeth

4.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno rhai mewnwelediadau allweddol a gafwyd o'r adolygiad llenyddiaeth academaidd, a gynhaliwyd i ddeall y ffactorau sy'n gysylltiedig â newidiadau i enwau lleoedd cymunedol a'r cyd-destun ehangach y mae'r ymchwil hon yn digwydd ynddo.

4.2 Mae gan astudiaethau o enwau lleoedd (toponymeg) gysylltiad hir ag ymchwil mewn ieithyddiaeth, daearyddiaeth, athroniaeth, y gyfraith ac anthropoleg (Wideman a Masuda, 2018) yn ogystal ag archaeoleg. Mae'r adolygiad hwn yn defnyddio'n bennaf ddull o astudio enwau lleoedd o'r enw 'toponymeg feirniadol' sy'n cynnwys ymchwilio i'r cymhellion diwylliannol, economaidd, hanesyddol ac ieithyddol sy'n gysylltiedig â defnyddio a newid enwau lleoedd. Cyfeirir hefyd at waith o feysydd academaidd eraill fel daearyddiaeth ddynol, sosioieithyddiaeth ac astudiaethau twristiaeth. Er bod llawer o'r ymchwil ar enwau lleoedd yng Nghymru ac yn rhyngwladol yn canolbwyntio ar enwau aneddiadau ac arwyddion ffyrdd, mae canfyddiadau a goblygiadau'r ymchwil hon yn berthnasol i'r mathau eraill o enwau lleoedd sy'n ganolbwynt i'r adroddiad hwn.

Enwi lleoedd, deddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol

4.3 Mae'r ddeddfwriaeth a'r polisïau diweddar y cyfeirir atynt ym Mhennod 3 yn enghreifftiau o'r ffordd y mae ystyried enwi lleoedd yn rhan o'r broses o lunio polisi datganoledig yng Nghymru.

4.4 Nid yw camau i ddeddfu a datblygu polisïau sydd wedi'u cynllunio i ddiogelu a hyrwyddo enwau lleoedd ieithoedd lleiafrifiedig yn anghyffredin, yn enwedig mewn perthynas ag aneddiadau ac enwau strydoedd.[16] Yn Aotearoa / Seland Newydd, er enghraifft, roedd Deddf Bwrdd Daearyddol Seland Newydd 1946 yn cydnabod yn gyfreithiol bwysigrwydd enwau lleoedd Māori (Grant a Shaw, 2010). Nodwyd swyddogaethau Bwrdd Daearyddol Seland Newydd (NZGB) yn Neddf NZGB 2008. Roedd y rhain yn cynnwys:

[16] Gellir defnyddio'r term 'iaith leiafrifol' i olygu 'iaith a siaredir gan grŵp lleiafrifol mewn gwlad', ond at ddibenion yr adran hon, fe'i defnyddir yn ystyr gulach o 'iaith a gydnabyddir yn swyddogol a siaredir yn draddodiadol mewn gwlad benodol' (Nyström et al., 2019: 44).

- 'casglu enwau Māori gwreiddiol ac annog eu defnydd ar siartiau a mapiau swyddogol
- gofyn am gyngor gan Te Taura Whiri i te Reo Māori (Comisiwn Iaith Māori) ar orgraff gywir enwau Māori' (Llywodraeth Seland Newydd, 2012: 4)

4.5 Yn yr un modd, yn 1977 ac 1986, cyhoeddodd llywodraeth Gweriniaeth Iwerddon gylchlythyron i awdurdodau lleol (a chanllawiau wedyn yn 1992) yn argymell fod datblygiadau newydd yn defnyddio enwau lleol traddodiadol (Nash, 2017: 142-143).

Enwau lleoedd, hunaniaeth a grym

4.6 Mae ymchwil ar enwau lleoedd yn ystyried sut mae neilltuo enw i le yn ffordd o wahaniaethu un lle oddi wrth un arall, a bod enwau lleoedd yn fwy na marcwyr mewn system o wahaniaeth: maent hefyd yn ffyrdd o wneud rhyw fath o hawliad (Gregory et al., 2011: 541). O ganlyniad, gellir ystyried newidiadau i enwau lleoedd, ac fe ymchwiliwyd i hynny, fel enghreifftiau o ornestau llawn pŵer dros ystyr lleoedd a hunaniaethau cyfunol (Nash, 1999: 457). Felly, mae trafodaethau ynghylch enwau lleoedd yn ymwneud â chwestiynau am rym, diwylliant, lleoliad a hunaniaeth (ibid.). Mae'r rhain yn themâu sy'n cael eu harchwilio yng nghyd-destun enwi tai (Pennod 7) ac mewn agweddau at, a chanfyddiadau o, enwau strydoedd ac eiddo a newidiadau i enwau (Pennod 10) ac ym Mhennod 11.

4.7 Mae ymchwil arall yn pwysleisio sut mae enwau lleoedd yn ymwneud â bywyd bob dydd ac agweddau ehangach ar rym a hunaniaeth. Er enghraifft, mae Azaryahu a Kook (2002) yn dadlau bod enwau strydoedd yn allweddol wrth adeiladu hunaniaeth genedlaethol yn symbolaidd, yn bennaf o ran treftadaeth hanesyddol. Yn hyn o beth, meddent, maent yn perthyn i'r drafodaeth ynghylch hunaniaeth wleidyddol ac i'w phrofiad ar lefel bywyd bob dydd (Azaryahu a Kook, 2002: 195). Gellir dod i farn debyg ynghylch enwau'r eiddo sy'n ganolbwynt i'r astudiaeth hon (Penodau 5, 6, 7, 8, 9 a 10). Yn gysylltiedig â hyn, yng nghyd-destun Cymru, dywed Merriman a Jones (2009): 'monolingual English road signs were constructed by Welsh nationalists as part of an everyday landscape of oppression' a 'the everyday politics of road signs within the spaces of government' (Merriman a Jones, 2009: 164).

Y dirwedd ieithyddol ac enwau lleoedd yng Nghymru

4.8 Mae ymchwil mewn toponymeg feirniadol yn tueddu i ystyried amgylcheddau trefol (Coupland, 2010) ac felly mae'n tueddu i archwilio enwau strydoedd yn benodol (er enghraifft, Azaryahu a Kook, 2002). Yn achos enwau lleoedd yng Nghymru, mae cysyniad yr athronydd Cymreig JR Jones o 'gydymdreiddiad' yn pwysleisio cydymdreiddiad iaith a thir (Jones, 1966). Mae'r berthynas agos hon rhwng tir ac iaith yn egluro ffocws yng Nghymru ar enwau lleoedd fel ffenomen fwy gwledig, yn hytrach na chyd-destunau cenedlaethol eraill sy'n tueddu i ganolbwyntio ar enwau strydoedd mewn lleoliadau trefol (Azaryahu a Kook, 2002; Kook, 2009). Mae cysyniad JR Jones o gydymdreiddiad yn helpu i esbonio sut mae'r Cymry (fel grŵp iaith) yn cael eu diffinio gan eu perchnogaeth o diriogaeth ac iaith yn cydymdreiddio â'i gilydd. Mae cydymdreiddiad iaith a thir yn golygu bod yr iaith yn nodweddu cymdeithas sydd wedi bodoli yn yr un lle am gyfnod estynedig (Brooks, 2018). Yn ystod yr ugeinfed ganrif, roedd Jones ac eraill yn cydnabod pwysigrwydd penodol ardaloedd gwledig Cymru o ran y ffordd yr oeddent yn deall diwylliant Cymru a'r Cymry (fel grŵp iaith) (Gruffudd, 1995: 221). Roedd dealltwriaeth o'r fath yn cydnabod cydadwaith rhwng topograffi a pharhad diwylliannol, a dywed Gruffudd (1995) am ardaloedd gwledig ac ucheldir Cymru: '[they] continued to harbour the language [in the face of] a gradual retreat of the Welsh-speaking areas to the western heartland behind the Cambrian Mountains' (Gruffudd, 1995: 221). O'r ddealltwriaeth hon y datblygodd Model Tri Chymru Balsom (1985), a bod, heddiw, ganfyddiad o'r Fro Gymraeg fel cadarnle'r iaith Gymraeg (Jones a Lewis, 2019: 155). Yn yr astudiaeth hon, mae'r cysyniad o 'gydymdreiddiad' yn helpu i esbonio ymdeimlad rhai pobl bod enwau lleoedd penodol (tirweddol / hanesyddol) yn bwysig ac y dylent fod yn Gymraeg (Pennod 7, 10).

4.9 Mae prinder ymchwil academaidd yng nghyd-destun ymchwil i'r dirwedd ieithyddol yng Nghymru. Yn un o'r ychydig astudiaethau yn y maes hwn, dadleua Coupland (2010) fod y dirwedd ieithyddol yng Nghymru yn cael ei nodweddu fel a ganlyn: 'an aspirational political ideology of 'true bilingualism', rather than by any objective realities of bilingual usage in Wales' (2010: 78). Mae Coupland yn gwneud y ddadl hon mewn perthynas ag enwau lleoedd sydd â 'statws swyddogol', o ymddangos mewn mapiau, canllawiau a llyfrau cyfeirio awdurdodedig, arwyddion ffyrdd ac ar

lawer o adeiladau masnachol a chyhoeddus ac sy'n llunio rhan allweddol o'r seilwaith ddiwylliannol weledol (2010: 81). Mae'r ideoleg wleidyddol uchelgeisiol hon o 'wir ddwyieithrwydd' yn nodweddu polisïau ERhS yr ALlau a drafodir ym Mhennod 6.

4.10 Mae Coupland yn cydnabod tuedd o'r hyn y mae'n ei alw'n 'Cymrification (Cymreigeiddio)'; 'existing 'Welsh' versions of place names are promoted, coined where they have not previously existed, or are 'corrected' where the existing 'Welsh' version is considered to be inauthentic' (2010: 83). Mae Coupland (2010) yn disgrifio'r broses hon fel un arwydd o adfywiad ethnoieithyddol yng Nghymru. Mae'r disgrifiad hwn yn berthnasol i'r ddealltwriaeth o'r agweddau at enwi lleoedd a nodwyd yn y cyfweliadau stryd a gynhaliwyd yn ystod yr astudiaeth o'r dirwedd ieithyddol (Pennod 10).

4.11 Mae'r cysyniad o 'Gymreigeiddio' yn gategoreiddiad dilys o bolisi iaith cenedlaethol sy'n hyrwyddo dwyieithrwydd yng nghyd-destun gwrthdroi lleiafrifiaeth hanesyddol y Gymraeg oherwydd gwaharddiad ar ddefnydd cyhoeddus o'r iaith ar arwyddion ffyrdd ac yn y cyfeiriadau swyddogol a gydnabyddir gan y Post Brenhinol. Ym Mhenodau 5, 6, 9 a 10, mae ein dadansoddiad o enwi ac ailenwi lleoedd, a'r cymhellion ar gyfer hynny mewn gwahanol ardaloedd ledled Cymru, yn dangos deinameg gymhleth o Seisnigo a Chymreigeiddio ar waith, ac yr ydym yn trafod hynny ym Mhennod 11.

Cyfryngau cymdeithasol ac enwau lleoedd

4.12 Wrth i lwyfannau cyfryngau cymdeithasol a'r defnydd a wneir ohonynt aeddfedu, gall dulliau tagio lleoliad bwysleisio enwau lleoedd yn gynyddol yn hytrach na chyfesurynnau union gywir (Maurer, 2020). Hefyd, gall cyfryngau cymdeithasol a data OpenStreetMap ddatgelu gwahanol nodweddion lleoedd a gallant egluro ymddangosiad ardaloedd a thirnodau (Bahredar et al., 2020) nad oeddent yn weladwy yn y parth cyhoeddus neu ar fapiau papur o'r blaen.

4.13 Mae'r modd y caiff lleoedd eu portreadu ar lwyfannau digidol yn adlewyrchu ac yn siapio newid trefol (Bronsvoot ac Uitermark, 2022). Yn ôl Bronsvoot ac Uitermark: 'digital technology does not erode but rather reinforces and complicates the experience of place' (ibid., 2022: 2859). Er bod Bronsvoot ac Uitermark yn

ymchwilio i bortreadau o leoliadau trefol, mae eu mewnwelediadau hefyd yn berthnasol i gyd-destunau gwledig. Mae Pennod 8 yn dangos sut mae mapio digidol yn rhoi mwy o allu i'r OS ac eraill gofnodi ac arddangos enwau lleoedd mewn sawl iaith yn weledol, gan gyfrannu ymhellach at gymhlethu'r profiad o le. Mewn cyd-destunau amlieithog, mae amrywiaeth ieithyddol yn cymhlethu ymhellach yr ymrafael dros berchnogi gofodau.

4.14 Mae ymchwil arall ar enwau lleoedd yn dadlau bod pobl yn mynd ati i ddefnyddio cyfryngau digidol i ddod yn grewyr lleoedd (‘placemakers’), gyda'r potensial i herio dulliau mwy traddodiadol o greu lleoedd (Halegoua, 2020). Mae goblygiadau i hyn o ran mannau ffisegol sy'n cael eu profi'n ddigidol ac yn faterol mewn gwahanol ffyrdd gan wahanol grwpiau. Gall hyn fod yn arbennig o amlwg mewn mannau lle gall patrymau gweithgareddau sy'n seiliedig ar dwristiaeth gyferbynnu â phatrymau gweithgaredd eraill yn yr economi wleidyddol (Wideman a Masuda, 2018). Mae rhai enghreifftiau o greu lleoedd amgen yn y data a drafodir ym Mhenodau 7 ac 8. Mae prosiect Map Enwau Lleol Gwynedd, er enghraifft (Pennod 8), yn cynnwys ysgolion a gwirfoddolwyr cymunedol eraill mewn prosiect sy'n casglu enwau lleoedd Cymraeg a ddefnyddir yn lleol, ond nad ydynt fel arfer yn ymddangos ar gofnodion swyddogol neu ar fapiau neu gynhyrchion OS.

Crynodeb o ganfyddiadau allweddol

4.15 Mae'r bennod hon wedi trafod cysyniadau dethol o ymchwil yng Nghymru a chyd-destunau rhyngwladol sy'n ymchwilio i'r cymhellion diwylliannol, economaidd, hanesyddol ac ieithyddol sy'n gysylltiedig â defnyddio a newid enwau lleoedd.

4.16 Un canfyddiad allweddol o ymchwil mewn cyd-destunau iaith leiafrifiedig fel Cymru, yw bod trafodaethau ynghylch enwau lleoedd fel arfer yn ymwneud â chwestiynau sy’n gysylltiedig â grym, diwylliant, lleoliad a hunaniaeth. Gellir gweld hyn ar waith yn y data enwi ac ailenwi lleoedd a archwiliwyd ym Mhenodau 5, 6, 7, 8, 9 a 10.

4.17 Canfyddiad arall sy'n berthnasol i'r astudiaeth hon yw bod portreadau o leoedd ar lwyfannau digidol yn adlewyrchu ac yn siapio newidiadau i'r dirwedd drefol, a bod y defnydd o dechnoleg ddigidol yn cymhlethu yn hytrach nag erydu'r profiad o le. Mae hyn yr un mor berthnasol i ardaloedd gwledig â thirweddau trefol. Mae hyn yn

amlwg ym mapio digidol yr OS, sy'n rhoi mwy o gapasiti i gipio enwau lleoedd mewn sawl iaith, nodwedd nad yw'n bosibl mewn mapio (papur) sefydlog (Pennod 8).

4.18 Mae ymchwil arall ar enwau lleoedd yn dadlau bod pobl yn mynd ati i ddefnyddio cyfryngau digidol i ddod yn grewyr lleoedd, gyda'r potensial i herio ffurfiau mwy traddodiadol o greu lleoedd. Gellir gweld hyn yn y prosiectau mapio cydweithredol, cymunedol a ddisgrifir ym Mhennod 8.

5. Enwau eiddo yng Nghymru: tueddiadau cyfredol yn ôl data ALlau

5.1 Mae'r drafodaeth yn y bennod hon yn mynd i'r afael â'r nod o adnabod lle mae newidiadau i enwau eiddo yn digwydd a faint o enwau sy'n newid. Mae'r drafodaeth hefyd yn mynd i'r afael â natur fanwl y newidiadau hyn drwy:

- ystyried achosion o enwi ac ailenwi eiddo a strydoedd
- y newidiadau ieithyddol sy'n gysylltiedig ag enwi ac ailenwi
- lleoliad newidiadau i enwau eiddo
- patrwm yr arferion hyn dros y cyfnod Ebrill 2018 i Mawrth 2019 i Ebrill 2022 i Mawrth 2023
- dadansoddi natur fanwl newidiadau i enwau eiddo

Mae'r canfyddiadau a gyflwynir yn y bennod hon yn deillio o ddadansoddiad o'r ceisiadau ar gyfer enwi ac ailenwi a dderbyniwyd gan ALlau, gan gynnwys:

- Data enwi lleoedd a newid enwau ALlau a gasglwyd yn 2015 (Atodiad A)
- Data ALlau ar geisiadau i enwi eiddo (Atodiad I)
- Data ALlau ar geisiadau i ailenwi eiddo domestig (Atodiad J)
- Data ALlau ar geisiadau enwi strydoedd (Atodiad K)
- Data ALlau ar geisiadau i ailenwi eiddo arall (Atodiad L)
- Data ALlau ar enwau eiddo (enwau blaenorol ac enwau a gymeradwywyd)

5.2 Mae cyfeiriadau swyddogol yn cael eu cofnodi a'u diweddaru yn Rhestr Tir ac Eiddo Lleol a Rhestr Strydoedd Lleol pob ALl. Mae polisïau ERhS a gyhoeddir gan ALlau yn rhoi manylion am eu harferion enwi a rhifo eiddo a strydoedd, ac yn amlinellu'r prosesau a'r gweithdrefnau ar gyfer gweithgareddau fel enwi neu rifo tai a newidiadau i enwau tai, yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol (gweler paragraffau 3.2 i 3.8). Mae'r canfyddiadau yn y bennod hon yn seiliedig ar ddata ynghylch ceisiadau am enwi ac ailenwi a dderbyniwyd gan ALlau fel rhan o'u cyfrifoldebau a'u pwerau statudol. Felly, mae'r drafodaeth yn y bennod hon yn canolbwyntio ar enwi a newidiadau i enwau sy'n rhan o gyfeiriadau cofnodedig swyddogol. Nid yw'r drafodaeth yn y bennod hon yn ystyried newidiadau anffurfiol i enwau lleoedd, er enghraifft lle gellir gosod plac gydag enw newydd (arallenw) ar eiddo wedi'i rifo heb wneud cais i'r ALl perthnasol i newid y cyfeiriad presennol.

Enwi eiddo

5.3 Mae'r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau mewn perthynas ag enwi eiddo. Nid oedd y data y gofynnwyd amdano yn gwahaniaethu rhwng gwahanol gategorïau o eiddo. Gallai'r eiddo gynnwys eiddo domestig newydd, eiddo masnachol ac eiddo sydd eisoes yn bodoli, na chawsant eu henwi cyn y cais.

Enwi eiddo yn ôl ALl ac iaith enw eiddo

5.4 Mae Ffigur 5.1 yn dangos y data ar nifer y ceisiadau am enwi eiddo (a dderbyniwyd yn ystod y blynyddoedd ariannol Ebrill 2018 i Mawrth 2019 i Ebrill 2022 i Mawrth 2023) yn ôl iaith yr enw a gymeradwywyd. Dylid cymryd gofal wrth gymharu cyfanswm y ceisiadau a dderbyniwyd gan ALlau penodol am na ddychwelodd Gwynedd, Sir Gaerfyrddin, Abertawe a Phen-y-bont ar Ogwr ddata am y cyfnod llawn dan ystyriaeth (gweler Atodiad H, Atodiad I, a nodiadau yn Ffigur 5.1).

5.5 Sir Gaerfyrddin dderbyniodd yr ail nifer fwyaf o geisiadau enwi, er mai dim ond data o'r flwyddyn ariannol Ebrill 2019 i Mawrth 2020 ymlaen a ddychwelwyd. Mae nifer cyfartalog y ceisiadau y flwyddyn a dderbyniwyd gan Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro yn awgrymu y byddai Sir Gaerfyrddin wedi derbyn ychydig yn fwy o geisiadau ar gyfer y cyfnod 2018-2023 na Sir Benfro. Mae nifer cyfartalog y ceisiadau y flwyddyn a dderbyniwyd gan Wynedd yn awgrymu y byddai wedi derbyn nifer gymharol o geisiadau i Geredigion dros y cyfnod Ebrill 2018 i Mawrth 2019 i Ebrill 2022 i Mawrth 2023.

5.6 Mae Ffigur 5.1 yn dangos bod nifer o ALlau wedi derbyn llawer llai o geisiadau i enwi eiddo. Mae'r ALlau hyn yn cynnwys Castell-nedd Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr, Blaenau Gwent, a Thorfaen. Derbyniwyd y nifer fwyaf o geisiadau gan ALlau mwy gwledig gyda dwysedd poblogaeth is, gan gynnwys Ynys Môn, Powys, Ceredigion, Sir Benfro, a Sir Gaerfyrddin. Mae hyn yn adlewyrchu'r patrwm bod eiddo a enwir yn fwy cyffredin mewn ardaloedd gwledig, sy'n wahanol i ardaloedd trefol lle mae gan eiddo rifau yn hytrach nag enwau. Mewn ardaloedd trefol, mae tuedd ar gyfer defnyddio arallenwau anffurfiol, lle mae enw eiddo ynghlwm wrth eiddo wedi'i rifo. Trafodir hyn wrth ystyried ceisiadau am ailenwi eiddo.

5.7 Derbyniodd ALlau fwy o geisiadau am enwau eiddo Cymraeg (1,444) nag enwau eiddo Saesneg (1,125). Dim ond nifer fach o geisiadau a gawsant (29) ar gyfer enwau eiddo nad oeddent yn cael eu hystyried yn enwau Cymraeg na Saesneg.

5.8 Mae'n ymddangos bod ALlau sydd â chrynodiadau uwch o siaradwyr Cymraeg yn cael mwy o geisiadau am enwau eiddo Cymraeg (Ffigur 5.1).

Ffigur 5.1: Nifer y ceisiadau am enwi eiddo yn ôl iaith ac ALl, Ebrill 2018 i Mawrth 2019 i Ebrill 2022 i Mawrth 2023



Mae'r tabl hwn yn cynnwys yr holl ddata a dderbyniwyd gan 15 o 22 ALl o ran enwi eiddo ar gyfer blynyddoedd ariannol Ebrill 2018 i Mawrth 2019 i Ebrill 2022 i Mawrth2023. Darparodd Pen-y-bont ar Ogwr a Sir Gaerfyrddin ddata o'r flwyddyn ariannol Ebrill 2019 i Mawrth 2020 ymlaen. Darparodd Gwynedd ddata o'r flwyddyn ariannol Ebrill 2020 i Mawrth 2021 ymlaen. Darparodd Abertawe ddata ar gyfer y flwyddyn ariannol Ebrill 2022 i Mawrth 2023.

Ceisiadau am enwi eiddo dros amser

5.9 Mae Ffigur 5.2 yn dangos nifer y ceisiadau am enwi eiddo yn ôl iaith enw'r eiddo a gymeradwywyd fesul blwyddyn ariannol ar gyfer Ebrill 2019 i Mawrth 2020 i Ebrill 2022 i Mawrth 2023.

Ffigur 5.2: Nifer y ceisiadau am enwi eiddo yn ôl iaith enw'r eiddo a gymeradwywyd fesul blwyddyn ariannol



Mae'r ffigur hwn ond yn dangos data ar gyfer yr ALlau a ddychwelodd ddata ar gyfer cyfnod cyfan blynyddoedd ariannol Ebrill 2019 i Mawrth 2020 i Ebrill 2022 i Mawrth 2023. O ganlyniad, nid yw data ar gyfer Gwynedd ac Abertawe wedi'i gynnwys.

5.10 Yn ystod Ebrill 2019 i Mawrth 2020, roedd nifer y ceisiadau am enw eiddo Cymraeg (n = 256) ac enw eiddo Saesneg (n = 253) bron yr un fath.[17] Ers hynny, mae mwy o geisiadau wedi bod am enwau eiddo Cymraeg nag enwau Saesneg. Mae'r cynnydd yn nifer y ceisiadau am enwau eiddo Cymraeg fwyaf amlwg yn Ebrill 2020 i Mawrth 2021. Mae'r duedd hon i fwy o eiddo domestig gael eu henwi neu eu hailenwi ag enw Cymraeg hefyd i'w gweld yn y data AddressBase Premium a ddadansoddwyd ym Mhennod 10. Er i'r adroddiad hwn ymchwilio i gymhellion pobl dros enwi ac ailenwi eiddo (Penodau 6 a 10), nid oes tystiolaeth glir i esbonio'r cynnydd hwn.

[17] Er nad oedd y data ar gyfer Ebrill 2018 i Mawrth 2019 yn gyflawn, roedd y data hwn hefyd yn dangos niferoedd tebyg o geisiadau am enwau eiddo Cymraeg a Saesneg.

Ceisiadau am enwi eiddo lle mae'r enw a gymeradwywyd o ffynhonnell hanesyddol

5.11 Er gwaethaf y nifer uwch o geisiadau am enwau eiddo Cymraeg, mae nifer uwch o geisiadau am enwau Saesneg y gellid eu hystyried yn enwau hanesyddol neu'n enwau sy'n deillio o ffynhonnell hanesyddol (Tabl 5.1). Mae'r data'n dangos mai nifer fach iawn o enwau eiddo sy'n deillio o'r Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru (RhELlHC), heb unrhyw enwau eiddo Cymraeg yn nodi RhELlHC fel ffynhonnell yr enw.

Tabl 5.1: Crynodeb o'r data a dderbyniwyd ar geisiadau i enwi eiddo lle daw'r enw a gymeradwywyd o ffynhonnell hanesyddol

Maes data	Nifer
Enw Cymraeg o RhELlHC	0
Enw Cymraeg o ffynhonnell arall	402
Enw Saesneg o RhELlHC	46
Enw Saesneg o ffynhonnell arall	497
Enw mewn iaith arall o RhELlHC	0
Enw mewn iaith arall o ffynhonnell arall	20
Cyfanswm y ceisiadau am enwi eiddo gydag enw hanesyddol	965

5.12 Yn achos ceisiadau am enw eiddo Cymraeg lle cafodd yr enw ei gymeradwyo, nodwyd bod bron pob un a oedd yn deillio o ffynhonnell hanesyddol ac eithrio RhELlHC (376 allan o 402 cais) wedi'u derbyn gan Sir Benfro (156 cais) a Phowys (220). Mae cyfanswm o 46 o geisiadau enwi eiddo am enw Saesneg yn nodi RhELlHC fel ffynhonnell yr enw a gymeradwywyd, ond derbyniwyd yr holl geisiadau hyn gan Sir Gaerfyrddin rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023. Mae'r data hwn, yn ogystal â chyfweliadau â swyddogion ERhS, yn nodi fod gan ALlau arferion gwahanol wrth gofnodi cyfeiriadau at RhELlHC (gweler trafodaeth bellach ym Mhennod 6).

5.13 Mae'r canfyddiadau hyn wedi'u cyfyngu gan y data a dderbyniwyd gan ALlau fel rhan o'r ymchwil, gyda gwahaniaethau sylweddol wedi'u nodi rhwng arferion cadw data ALlau, yn enwedig mewn perthynas ag enwau hanesyddol. Trafodwyd yr arferion amrywiol hyn yn y cyfweliadau â Swyddogion ERhS, a lle na chofnodwyd y data fe'i nodwyd gan rai ALlau yn y templed dychwelyd data.

Ailenwi eiddo

5.14 Mae'r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau mewn perthynas â cheisiadau a dderbyniwyd gan Awdurdodau ALlau i ailenwi eiddo domestig yn ffurfiol. Mae'r data a ddefnyddir yn yr adran hon yn cynnwys y data ar geisiadau i ailenwi eiddo, lleoliadau'r eiddo sy'n destun cais ailenwi, a'r newid yn enw'r eiddo a gymeradwywyd.

Ceisiadau am ailenwi eiddo domestig

5.15 Yn gyffredinol, derbyniodd ALlau mwy trefol eu natur, sydd â dwysedd poblogaeth uwch, lai o geisiadau i ailenwi eiddo domestig, er bod y patrwm hwn yn llai amlwg na'r un patrwm o ran ceisiadau enwi eiddo. Roedd dadansoddiad o enwau'r eiddo (enwau blaenorol ac enwau a gymeradwywyd) a chyfweliadau â Swyddogion ERhS yn help o ran egluro mai arallenwi sy'n gyfrifol am hyn, lle caiff enw ei roi wrth eiddo wedi'i rifo. Mae arallenwi ffurfiol yn golygu bod ALl yn ychwanegu enw yn swyddogol at gyfeiriad wedi'i rifo, sydd wedyn yn cael ei gynnwys yn y Rhestr Tir ac Eiddo Lleol a'r cyfeiriad swyddogol. Gall arallenwi hefyd ddigwydd yn anffurfiol (lle mae plac enw neu debyg) yn cael ei gysylltu wrth eiddo wedi'i rifo ond na chaiff cais ailenwi ei gyflwyno i newid cyfeiriad swyddogol yr eiddo. Mae'r data ALlau yn cynnwys ceisiadau am arallenwi ffurfiol yn unig.

Ffigur 5.3: Nifer y ceisiadau am ailenwi eiddo domestig drwy newid iaith



Maint y sylfaen: 1,325

5.16 Nid oedd y mwyafrif (62.4% neu 827) o geisiadau ailenwi eiddo yn arwain at newid iaith enw'r eiddo domestig. Darparodd ALlau ddata hefyd ar enwau blaenorol ac enwau a gymeradwywyd. Mae dadansoddiad o'r data hwn yn dangos nad oedd 45.2% o geisiadau ailenwi wedi arwain at newid iaith yr enw eiddo domestig. Mae'r amrywiad hwn yn adlewyrchu'r gwahaniaethau rhwng y ddwy set o ddata (fel yr eglurir ym mharagraff 2.17 a 2.45 ac a amlinellir yn Atodiad H) a gwahaniaethau yn y ffordd o ddadansoddi'r data hwn gan swyddogion yr ALlau a chan yr awduron (fel yr eglurir ym mharagraff 2.17 a 2.46). Trafodir y data ynghylch enwau blaenorol ac enwau a gymeradwywyd ymhellach mewn perthynas â Ffigur 5.5 isod.

5.17 Mae ALlau sydd â chrynodiadau uwch o siaradwyr Cymraeg yn tueddu i gael mwy o geisiadau ailenwi sy'n arwain at enwau eiddo Cymraeg. Derbyniodd Gwynedd fwy o geisiadau i ailenwi eiddo domestig a arweiniodd at newid iaith enw eiddo o'r Saesneg i'r Gymraeg rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2021 (57 cais) na chyfanswm yr holl ALlau eraill a ddychwelodd y data perthnasol am yr un cyfnod (Ffigur 5.4).

5.18 Enwau eiddo Saesneg oedd yn destun ceisiadau ailenwi gan amlaf. Pan fo cais ailenwi eiddo wedi arwain at newid yn iaith enw'r eiddo, mae bron i deirgwaith yn fwy tebygol y bydd cais ailenwi eiddo yn gofyn am newid o'r Saesneg i'r Gymraeg (329 achos) nag o'r Gymraeg i'r Saesneg (121 achos) (Ffigur 5.3).

5.19 Roedd cynnydd yn nifer y ceisiadau ailenwi eiddo yn y blynyddoedd ariannol Ebrill 2020 i Mawrth 2021 ac Ebrill 2021 i Mawrth 2022. Mae hyn yn adleisio'r cynnydd a welwyd yn y data ar geisiadau enwi eiddo. Mewn cyfweliadau, ni allai Swyddogion ERhS ALlau esbonio'r cynnydd hwn.

Ffigur 5.4: Ceisiadau am ailenwi eiddo domestig fesul blwyddyn ariannol, Ebrill 2019 i Mawrth 2023, wedi'u dadansoddi yn ôl newid iaith yr ailenwi



Mae'r ffigur hwn ond yn dangos data ar gyfer yr ALlau a ddychwelodd ddata ar gyfer cyfnod cyfan blynyddoedd ariannol Ebrill 2019 i Mawrth 2020 i Ebrill 2022 i Mawrth 2023. O ganlyniad, nid yw data ar gyfer Gwynedd ac Abertawe wedi'i gynnwys.

Dadansoddiad o enwau eiddo (enwau blaenorol ac enwau a gymeradwywyd)

5.20 Yn yr is-adran hon, dadansoddir enwau eiddo (enwau blaenorol ac enwau a gymeradwywyd). Datgelodd y dadansoddiad hwn fod enwau eiddo yn cynnwys cymysgedd o enwau Saesneg, enwau Cymraeg, ac enwau yn Gymraeg a Saesneg. Yn ogystal, nodwyd categorïau eraill, gan gynnwys 31 enw eiddo mewn ieithoedd eraill, 11 eiddo wedi'u rhifo, a 99 eiddo gyda arallenw ffurfiol.

5.21 Mae newidiadau ffurfiol i enw eiddo o'r Saesneg i'r Gymraeg (235 achos) bron bedair gwaith yn fwy tebygol na newidiadau o'r Gymraeg i'r Saesneg (65 achos) (Ffigur 5.5). Mae'r data ar enwau eiddo (enwau blaenorol ac enwau a gymeradwywyd) yn awgrymu bod arallenwi ffurfiol yn arwain at duedd hyd yn oed yn fwy amlwg o newidiadau ffurfiol o enwau Saesneg i enwau Cymraeg. Roedd enghreifftiau o ailenwi lle newidiwyd enw eiddo Cymraeg i Saesneg neu enw Cymysg (Cymraeg/Saesneg) (yr oedd 80 achos ohonynt) yn tueddu i arwain at

gynnwys ôl-ddodiaid (yr oedd 59 achos ohonynt). Roedd yr ôl-ddodiaid hyn yn cynnwys 'Cottage' (15 achos), 'House' (26 achos), ac 'Old' (7 achos).

Ffigur 5.5: Enwau eiddo (enwau blaenorol ac enwau a gymeradwywyd) yn ôl newid iaith enw



Enwi strydoedd

5.22 O ran enwi strydoedd, ni adroddwyd unrhyw geisiadau am ailenwi strydoedd yn y data a dderbyniwyd. Derbyniodd ALlau dair gwaith yn fwy o geisiadau am enwau strydoedd Cymraeg (338 cais) nag am enwau strydoedd Saesneg (95 cais).[18] Nid oes gwahaniaethau sylweddol rhwng ALlau yn nifer y ceisiadau enwi strydoedd sy'n gofyn am enw Cymraeg, ac nid oes patrwm daearyddol i iaith enwi strydoedd. Mae'r data o ran enwau strydoedd sy'n deillio o ffynhonnell hanesyddol yn dangos ychydig iawn o ryngweithio â'r Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru.

Data enwi lleoedd a newid enwau ALlau a gasglwyd yn 2015

5.23 Cyn yr ymchwil hon, casglwyd data gan ALlau ar enwi lleoedd a newidiadau i enwau er mwyn llywio'r polisi mewn perthynas â Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 (Atodiad A). Mae'r data blaenorol hwn yn anghyflawn ac nid yw mor

[18] Lle roedd cais enwi stryd am enw stryd dwyieithog, byddai yn cael ei gyfrif yn y data hwn fel enw stryd Cymraeg ac enw stryd Saesneg. Nid yw'n bosibl penderfynu o'r data faint o geisiadau am enwau strydoedd dwyieithog a dderbyniwyd.

fanwl â'r data a gasglwyd fel rhan o'r ymchwil hon. Fodd bynnag, mae'n bosibl nodi dwy argraff allweddol o'r data blaenorol sy'n cyfateb i'r canfyddiadau mewn perthynas â'r data a gasglwyd fel rhan o'r astudiaeth hon.

5.24 Yn gyntaf, fel y trafodwyd yn 5.6 uchod, bod ALlau mwy gwledig yn tueddu i dderbyn nifer uwch o geisiadau am enwi neu ailenwi eiddo o'i gymharu ag ALlau mwy trefol. Mae hyn yn adlewyrchu'r patrwm bod eiddo a enwir yn fwy cyffredin mewn ardaloedd gwledig, lle mae eiddo mewn ardaloedd trefol yn fwy tebygol o gael eu rhifo ac yn cael eu hadnabod (yng nghyfeiriad swyddogol yr eiddo) gan rif yr eiddo yn hytrach nag enw eiddo.

5.25 Yn ail, fel y trafodwyd yn 5.18 a 5.19, nid oedd ceisiadau am ailenwi eiddo yn tueddu i arwain at newid iaith enw'r eiddo. Fodd bynnag, pan oedd cais ailenwi eiddo yn arwain at newid yn iaith enw'r eiddo, roedd hynny'n newid enw'r eiddo o enw Saesneg i enw Cymraeg yn amlach nag i'r gwrthwyneb. Nid oedd y patrwm hwn mor glir yn y data a gasglwyd yn 2015 (Atodiad A) â'r patrwm a nodwyd yn y data a gasglwyd fel rhan o'r ymchwil hon.

Crynodeb o ganfyddiadau allweddol

5.26 I grynhoi'r canfyddiadau allweddol o ran nodi lle mae newidiadau i enwau eiddo yn digwydd, faint o enwau sy'n newid, a natur fanwl y newidiadau hyn, canfuwyd y canlynol:

- Cafodd mwy o geisiadau eu derbyn gan ALlau am enwi eiddo ag enwau Cymraeg nag enwau Saesneg yn y cyfnod Ebrill 2018 i Mawrth 2019 i Ebrill 2022 i Mawrth 2023.
- Cyn Ebrill 2020 i Mawrth 2021, roedd nifer tebyg o geisiadau enwi am enwau eiddo Cymraeg a Saesneg.
- O Ebrill 2020 i Mawrth 2021 ymlaen, bu mwy o geisiadau am enwau eiddo Cymraeg nag enwau Saesneg. Yn seiliedig ar y data a gasglwyd hyd yn hyn, nid yw'r rheswm dros y cynnydd hwn yn glir.
- O ran enwi strydoedd, derbyniodd ALlau bron i dair gwaith yn fwy o geisiadau am enwau strydoedd Cymraeg (338 cais) nag am enwau strydoedd Saesneg (95 cais).

- Cafodd nifer uwch o geisiadau enwi eiddo eu derbyn gan ALlau am enwi eiddo ag enwau Cymraeg (1,444) nag enwau Saesneg (1,125).

5.27 Mae'n ymddangos bod ALlau sydd â chrynodiadau uwch o siaradwyr Cymraeg yn cael mwy o geisiadau i roi enw Cymraeg ar eiddo.

- Nid oedd y rhan fwyaf o geisiadau ailenwi eiddo yn arwain at newid iaith enw'r eiddo. Fodd bynnag, pan fo cais wedi arwain at newid yn iaith enw'r eiddo, roedd bron i deirgwaith yn fwy tebygol y byddai cais yn gofyn am newid o'r Saesneg i'r Gymraeg (329 achos) nag o'r Gymraeg i'r Saesneg (121 achos).
- Mae'r data newid enwau yn dangos bod newidiadau enw o'r Saesneg i'r Gymraeg (235 achos) bron i bedair gwaith yn fwy tebygol na newidiadau o'r Gymraeg i'r Saesneg (65 achos).
- Mae'r data newid enwau yn awgrymu bod arallenwi ffurfiol yn arwain at duedd hyd yn oed yn fwy amlwg o newidiadau ffurfiol o enwau Saesneg i Gymraeg.

6. Dulliau ALlau o enwi ac ailenwi eiddo a strydoedd

6.1 Mae gan ALlau gyfrifoldeb yn ôl y gyfraith i ddarparu enwau strydoedd a rhifau eiddo, a gall polisïau enwi a rhifo strydoedd (ERhS) ALlau ddarparu manylion am sut mae'r cyfreithiau perthnasol yn cael eu trosi'n arfer lleol. Mae Pennod 3 yn nodi'r cyd-destun deddfwriaethol a pholisi ar gyfer enwi ac ailenwi eiddo a strydoedd, sy'n llywio polisïau ac arferion ERhS ALlau. Mae'r bennod hon yn ymchwilio i bolisïau ac arferion ERhS ALlau, yn seiliedig ar adolygiad o bolisïau ERhS ALlau, cyfweliadau â swyddogion ERhS ALlau, a data'r ALlau ar geisiadau enwi ac ailenwi eiddo a strydoedd sy'n ymwneud ag enwau hanesyddol.

6.2 Mae'r drafodaeth yn y bennod hon yn mynd i'r afael â dau nod ymchwil allweddol:

- deall polisïau a chamau gweithredu ALlau ar gyfer mynd i'r afael â cheisiadau i newid enw eiddo ac ystyried effeithiolrwydd polisïau o'r fath
- ymchwilio i ddull ALlau o enwi datblygiadau a strydoedd newydd, a meintioli cymeriad ieithyddol datblygiadau newydd dros y pum mlynedd diwethaf.[19]

Annog ymgeiswyr i ailystyried newidiadau i enwau eiddo ac ymatebion yr ALlau i enwi ac ailenwi enwau eiddo hanesyddol

6.3 Mae'r adran hon yn ystyried y data a dderbyniwyd gan ALlau ar achosion lle cafodd ymgeiswyr eu hannog i ailystyried cais enwi. Crynhoir y data hwn yn Nhabl 6.1.

Tabl 6.1: Crynodeb o'r data a dderbyniwyd ar geisiadau lle cafodd yr ymgeisydd ei annog i ailystyried cais enwi

Math o enw	Nifer yr achosion	Ymgeiswyr a gyfeiriwyd at RhELlHC	Enw hanesyddol yn cael ei gadw neu ei fabwysiadu
Eiddo domestig	172	118	0
Eiddo arall	2	0	0
Stryd	2	0	0
Newidiadau eraill	0	0	0
Cyfanswm	176	118	0

[19] Mae Pennod 5 yn dadansoddi ceisiadau enwi strydoedd a dderbyniwyd gan ALlau. Mae'r bennod hon yn ymchwilio i ddulliau ALlau o enwi strydoedd.

6.4 Ceredigion oedd yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r achosion (159 allan o 172) lle cafodd ymgeisydd a oedd yn gwneud cais i ailenwi eiddo domestig ei annog i ailystyried eu cais. Cafodd pob un o'r ymgeiswyr (117) yr anogodd Ceredigion iddynt ailystyried o Ebrill 2019 i Mawrth 2020 ymlaen eu cyfeirio at Restr Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru (RhELlHC). Yn yr un modd â'r data arall a ddychwelwyd gan ALlau mewn perthynas â RhELlHC neu enwau o ffynonellau hanesyddol eraill, mae'r data'n nodi polisïau a/neu arferion cadw data cyferbyniol. Mae Polisi ERhS Ceredigion (2015: 7) yn nodi:

> ‘Mabwysiadwyd arfer anffurfiol yng Ngheredigion i annog rhoi un enw ar strydoedd newydd, a hwnnw’n enw Cymraeg. Os yw’r enw presennol yn un gwreiddiol a hanesyddol, yn enwedig felly os yw’n enw Cymraeg hanesyddol, yna dylid anfon llythyr safonol at y cwsmer yn gofyn iddynt ailystyried, a chadw’r enw presennol (hyd yn oed os yw’r enw newydd a gynigir yn un Cymraeg)’.

6.5 Mae Polisi ERhS Môn (2015: 5) yn nodi yn yr un modd: ‘Anogir perchnogion tai newydd neu rhai sy’n dymuno newid enwau eu tai i fathu enwau Cymraeg arnynt. Os yw’r enw presennol yn un Cymraeg gwreiddiol hanesyddol, fe anfonir llythyr safonol i’r perchennog i’w a/hannog i ail ystyried a chadw’r enw cyfredol (hyd yn oed os yw’r enw newydd arfaethedig yn un Cymraeg)’. Mae Polisi ERhS Castell-nedd Port Talbot (2022: 9) yn nodi: 'Newid enwau tai a lleoedd o'r Gymraeg i'r Saesneg – dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y mae’r cyngor yn cymeradwyo newidiadau i enwau lleoedd neu dai hanesyddol Cymreig’.[20]

6.6 Nid yw polisïau ERhS ALlau eraill sy'n mynd i'r afael ag enwau hanesyddol neu enwau Cymraeg hanesyddol yn nodi’n eglur y gofynnir i geisiadau ailystyried. Er enghraifft, mae Polisi ERhS Sir Ddinbych (2021: 15) yn nodi: 'Lle nad yw dilyniant rhifo strydoedd yn bodoli, yn bennaf mewn ardaloedd gwledig, bydd yn briodol i neilltuo enwau eiddo y cytunwyd arnynt. Argymhellir y dylid cynnal cysylltiad hanesyddol neu ddiwylliannol neu'r ardal yn enw’r eiddo’.

6.7 Mae'r gwahaniaethau rhwng yr ALlau hyn o ran nifer yr achosion lle gofynnwyd i ymgeisydd ailystyried enwi neu ailenwi eiddo yn dangos, yn ogystal â'r

[20] Mae'r pwerau deddfwriaethol sy'n galluogi Castell-nedd Port Talbot i gyflawni swyddogaethau ERhS yn deillio o Adran 8 o Ddeddf Gorllewin Morgannwg 1987 (Castell-nedd Port Talbot, 2022: 2).

gwahaniaethau mewn polisïau ERhS a amlinellir uchod, bod gwahaniaethau ymarferol hefyd yn bodoli rhwng ALlau a swyddogion ERhS. Gall y gwahaniaethau hyn gynnwys arferion cadw data. Er enghraifft, mae polisi ERhS Sir Gaerfyrddin (2023: 3) yn nodi: ‘Ni fyddwn yn cefnogi newid enw eiddo pe byddai'n arwain at newidiadau neu ddileu enw sydd o bwys hanesyddol neu ddiwylliannol a byddwn yn rhoi cyngor i'r ymgeisydd a'i annog i ail-ystyried y newid arfaethedig’. Fodd bynnag, nododd data ceisiadau enwi ac ailenwi eiddo a strydoedd a ddychwelwyd gan Sir Gaerfyrddin nad oeddent yn cofnodi achosion lle gofynnwyd i ymgeiswyr ailystyried neu lle na chafodd ceisiadau eu derbyn.

Rôl Swyddogion ERhS

6.8 Mae'r adran hon yn ystyried rôl Swyddogion ERhS ac yn tynnu ar ddata o gyfweliadau a gynhaliwyd gyda swyddogion ALlau perthnasol a data dogfennol arall, fel cyfathrebu trwy e-bost, a gasglwyd fel rhan o'r ymchwil hon.

6.9 Fel yr awgrymwyd gan y data amrywiol ar enwi a newid enwau lleoedd a ddychwelwyd gan ALlau yng Nghymru, canfuwyd bod y sefyllfa ar gyfer pob ALl yng Nghymru yn wahanol. Roedd y ffactorau cysylltiedig yn cynnwys:

- gwahaniaethau mewn perthynas â datblygwyr a gweithgareddau datblygwyr
- blaenoriaethau swyddogion etholedig lleol
- nifer a math o geisiadau am newidiadau i enwau eiddo
- systemau ac arferion cofnodi data a datblygiad y systemau hyn dros amser
- polisïau ERhS yr ALlau
- union rôl a chyfrifoldebau'r swyddog ERhS a'u swydd o fewn yr ALl
- y berthynas waith â sefydliadau perthnasol ac awdurdodau lleol eraill
- y gwaith a wnaed gan swyddogion ERhS wrth gyflawni eu rôl
- dealltwriaeth swyddogion ERhS o’u rôl a'u cyfrifoldebau a'u dehongliad o Bolisi ERhS eu hawdurdod.

6.10 Daeth pedwar canfyddiad i'r amlwg yn gyson ar draws ALlau:

- Yn gyntaf, dangosodd y swyddogion ERhS a gafodd eu cyfweld agwedd gadarnhaol tuag at y Gymraeg a chydnabyddiaeth o bwysigrwydd enwau lleoedd Cymraeg. Roedd lleiafrif bach o swyddogion ERhS a gafodd eu

cyfweld o'r farn bod eu rôl yn swyddogaeth weinyddol wrth gynnal a diweddaru cyfeiriadau ffurfiol (yn aml yn rhinwedd eu rôl fel deiliad y rhestr enwau) ac i sicrhau na fyddai enwau newydd yn arwain at ddryswch gydag enwau presennol. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion, roedd y swyddog perthnasol o'r farn bod swyddogaeth ei rôl yn fwy rhagweithiol, er nad oes o reidrwydd swyddogaeth statudol neu fel arall a oedd yn caniatáu iddynt 'amddiffyn' enwau lleoedd Cymraeg neu enwau hanesyddol fel y cyfryw.

- Yn ail, nid yw'n ymddangos bod llawer o gydweithrediad ar draws ALlau ynghylch enwi a newid enwau lleoedd. Lle nodwyd cefnogaeth gan gymheiriaid neu gyswllt, byddai swyddogion yn cyfeirio at Grŵp Cysylltiadau GeoPlace Knowledge Hub/GeoPlace Authority fel ffynhonnell y gefnogaeth honno. Mae'r Grŵp Cysylltiadau GeoPlace Authority yn 'fforwm ar gyfer cydgefnogaeth, rhannu gwybodaeth, a lledaenu arfer gorau ar greu a chynnal data cyfeiriadau a strydoedd awdurdodau lleol' (GeoPlace, 2023b). Mae'r fforwm yn llwyfan ar lefel y DU ar gyfer cydweithredu ymhlith gwasanaethau cyhoeddus, ac o ganlyniad efallai na fydd swyddogion ERhS ALlau yng Nghymru o reidrwydd yn tynnu ar gefnogaeth cymheiriaid sy'n gyfarwydd â chyd-destun Cymru.
- Yn drydydd, mae gan swyddogion ERhS sydd â chyfrifoldeb am enwi a newid enwau amrywiaeth o rolau o fewn ALlau. Mae'r swyddogion hyn yn tueddu i gael eu lleoli mewn amrywiaeth o adrannau ac mae ganddynt gyfrifoldebau eraill hefyd (o briffyrdd i drwyddedu, i gyfieithu a chynllunio). Mae hyn yn arwydd o'r pwysau adnoddau ar swyddogaethau enwi o fewn ALlau yn gyffredinol. Mae hyn yn cael effaith glir ar y prosesau cadw cofnodion a chasglu data mewn perthynas ag enwi a newid enwau lleoedd, ac mae hyn yn amlwg o'r swyddogaethau eraill y disgwylir i swyddogion sy'n gyfrifol am enwau lleoedd ymgymryd â nhw.

  Gallai'r swyddogaethau amrywiol mewn perthynas ag enwi a newid enwau lleoedd hefyd gael eu cyflawni gan fwy nag un swyddog. Er enghraifft, gallai swyddogion gwahanol fod yn gyfrifol am newidiadau i enwau'r strydoedd, newidiadau i enwau eiddo, enwi a rhifo strydoedd, enwi datblygiadau, neu fod yn rheolwr cyfeiriadau yr ALl. Gallai'r swyddogaeth o gynnal y rhestr tir ac

eiddo hefyd gael ei chyflawni gan swyddog gwahanol. Adlewyrchir yr amrywiaeth hon yn yr aelodaeth gymwys ar gyfer Grŵp Cysylltiadau Awdurdod GeoPlace (2023), sy'n cynnwys y prif gyswllt, ceidwad cyfeiriadau a cheidwad cyfeiriadau ychwanegol, ceidwad strydoedd a cheidwad strydoedd ychwanegol, a Swyddog ERhS. I gymhlethu'r gwaith o fapio'r swyddogaethau hyn ymhellach o fewn ALlau, gallai'r swyddogaethau hyn gael eu dal gan swyddogion o fewn gwahanol adrannau neu wasanaethau.

- Yn bedwerydd, canfuwyd bod swyddogaethau enwi a newid enwau lleoedd o fewn yr ALlau dan bwysau yn gyffredinol. Dangosir hyn gan ddiffyg dull cyson mewn arferion ALlau, a amlinellir yn y pwynt blaenorol ond hefyd yn y dyraniad amser i swyddogaethau enwi a newid enwau lleoedd. Nododd y swyddogion ERhS a holwyd, mewn rhai achosion, fod eu dyraniad amser ar gyfer swyddogaethau enwau lleoedd yn 0.2 cyfwerth ag amser llawn, neu 1 diwrnod yr wythnos. Mewn cyfathrebiadau e-bost drwy gydol yr ymchwil, nododd swyddogion y pwysau ar adnoddau a oedd yn eu rhwystro rhag ymateb yn amserol i'r cais am ddata. Nodwyd enghreifftiau eraill o bwysau ar adnoddau a chanlyniadau hynny, a oedd yn effeithio ar allu swyddogion ERhS i gyflawni eu swyddogaethau'n effeithiol.

6.11 Nododd nifer o'r rhai a holwyd mai nifer isel o geisiadau newid enw eiddo a dderbyniwyd yn gyffredinol. Roedd hyn yn arbennig o wir mewn cyd-destunau mwy trefol lle, fel y cadarnhawyd yn yr arolwg tirwedd ieithyddol (Pennod 10), mae eiddo'n tueddu i fod wedi'u rhifo. Roedd cydnabyddiaeth y gellid adnabod eiddo wedi'u rhifo, mewn sawl achos, yn anffurfiol wrth ei enw hefyd. Nodwyd gan y rhai a holwyd nad oedd unrhyw ddata i ddangos tystiolaeth o hyn. Yn ôl data'r dirwedd ieithyddol (Pennod 10) roedd arallenwau gan 14.6% o'r 7,631 eiddo . Rhannodd swyddogion ALlau a holwyd enghreifftiau anecdotaidd o enwau anffurfiol. Roedd rhai o'r enghreifftiau hyn yn tanlinellu un o brif ganfyddiadau'r ymchwil hon, sef bod newidiadau i enwau lleoedd yn adlewyrchu patrymau economaidd-gymdeithasol. Er enghraifft, roedd newidiadau anffurfiol i enwau lleoedd yng Nghaerdydd yn adlewyrchu trefoli a mewnfudiad siaradwyr Cymraeg o orllewin a gogledd Cymru drwy arallenwi a mabwysiadu enwau ar gyfer tai sydd wedi'u rhifo. Roedd gwybodaeth o'r fath yn y dangos profiad ac arbenigedd llawer o Swyddogion ERhS.

6.12 Yn y cyfweliadau, nododd rhai swyddogion ERhS eu bod yn teimlo y gallai eu gwaith fod yn wleidyddol ac nad oedd polisïau ERhS ALlau bob amser yn cynnig cyfarwyddiadau pendant ar enwi a rhifo eiddo a strydoedd. Nododd swyddogion ERhS achosion lle cymeradwywyd ceisiadau enwi strydoedd gan gynghorwyr a oedd yn groes i bolisi ERhS yr ALl. Mewn achosion eraill, roedd swyddogion ERhS yn teimlo y gallai amcanion polisïau ERhS gael eu tanseilio gan ddatblygwyr, a fyddai'n mabwysiadu enwau ar gyfer datblygiadau tai at ddibenion marchnata cyn gwneud cais ffurfiol i enwi'r datblygiad neu'r strydoedd o fewn y datblygiad. Trafodir hyn ymhellach ym Mhennod 11.

Ymatebion i enwi lleoedd a newidiadau i enwau lleoedd yn y dyfodol

6.13 Mae'r adran hon yn trafod ymatebion i enwi lleoedd a newidiadau i enwau lleoedd yn y dyfodol. Mae'r canfyddiadau yn yr adran hon yn seiliedig ar gyfweliadau gyda swyddogion perthnasol yr ALlau.

Newid polisïau ALlau ar enwi a rhifo strydoedd

6.14 Mae polisïau ERhS ALlau ledled Cymru yn ddeinamig ac yn amrywiol.[21] Er enghraifft, nododd rhai ALlau eu bod wrthi'n diweddaru eu polisïau:

- Nododd Pen-y-bont ar Ogwr nad oedd ganddynt bolisi enwi a rhifo strydoedd cyhoeddedig ar hyn o bryd, a'i bod yn broses barhaus i ddatblygu eu polisi yn dilyn ymyrraeth â'r broses honno yn sgil pandemig COVID-19.
- Nododd Bro Morgannwg fod eu polisi yn cael ei ddiweddaru a'i fod ar ffurf drafft ar hyn o bryd cyn y byddai'n cael ei gymeradwyo a'i gyhoeddi.

6.15 Nododd Sir Benfro enghreifftiau lle roedd polisïau enwi a rhifo strydoedd yn cael eu herio gan gyd-destun newidiol enwi ac ailenwi lleoedd. Enghraifft o hyn oedd lle roedd cysylltiad rhwng enwau lleoedd a chaethwasiaeth neu unigolion a elwodd o'r fasnach mewn caethweision. Gallai achosion o'r fath arwain at awdurdodau lleol yn diweddaru eu polisïau enwi a rhifo strydoedd.

[21] Mae'r patrwm hwn yn adleisio'r data a gasglwyd yn flaenorol (Atodiad A) sy'n dangos bod agweddau ar bolisïau ERhS ALlau yn amrywio, er enghraifft y ffi a godir i brosesu cais enwi neu a yw'r polisi yn annog cadw enwau hanesyddol.

6.16 Gall enwau Cymraeg hefyd fod yn her i bolisïau enwi strydoedd a rhifo ALlau. Mae Polisi ERhS Castell-nedd Port Talbot (2022: 1) yn nodi:

> ‘Mae awdurdodau lleol ledled Cymru wedi ymwneud ag enwi strydoedd dwyieithog (ac agweddau eraill ar gyfeiriadau) mewn ffyrdd amrywiol. Yr arfer anffurfiol a fu yng Nghastell-nedd Port Talbot oedd annog bod un ffurf Gymraeg ar enw’n cael ei rhoi i strydoedd newydd, fodd bynnag nid yw’n bolisi swyddogol y cyngor, ond byddai'n gall ffurfioli'r arfer presennol. Felly mae’r pwyslais ar ffafrio enwau strydoedd Cymraeg wedi’i gynnwys yn y protocol Enwi Strydoedd newydd.’

6.17 Mae'r enghreifftiau uchod yn amlygu'r amrywiol bpolisïau ac arferion ar draws ALlau yng Nghymru ynghylch enwau strydoedd ac arwyddion stryd dwyieithog, ac nad yw'r arferion hyn o reidrwydd yn cael eu hadlewyrchu ym mholisïau swyddogol ALlau. Dyma ffactor arall a allai gyfrannu at natur ddeinamig polisïau enwi a rhifo strydoedd ALlau yng Nghymru. Mae Polisi ERhS Castell-nedd Port Talbot (2022: 9) hefyd yn nodi bod angen rheswm eithriadol arnynt i newid enw lle neu dŷ Cymraeg i'r Saesneg:

> 'Mae’r Gymraeg yn rhan annatod o ddiwylliant, hanes a hunaniaeth gyfoethog ac unigryw’r ardal a'i phreswylwyr. O ganlyniad, mae enw lle neu enw tŷ Cymraeg fel arfer yn cyfleu gwybodaeth am natur y lleoliad, am ei hanes, am ddiwylliant yr ardal, neu am y bobl oedd yn arfer byw yno. Fel Cyngor, oni bai fod rheswm eithriadol i newid enw lle neu dŷ Cymraeg i'r Saesneg, ni fydd y Cyngor yn cymeradwyo'r newid.'

6.18 Yn y cyfweliad gyda Swyddog ERhS Castell-nedd Port Talbot, eglurwyd y bu cyfnod pan nad oedd polisi ERhS ar waith. Yn ystod y cyfnod hwnnw, derbyniodd yr ALl sawl cais ailenwi 'y gellid eu [hystyried] yn ddadleuol' a bod diffyg polisi yn golygu 'nad oedd amddiffyniad yn ei le'. Wedi hynny, roedd polisi ERhS Castell-nedd Port Talbot a fabwysiadwyd yn 2022 yn cyfleu’r safbwynt polisi a ddyfynnir uchod mewn ymateb i'r amgylchiadau cyn mabwysiadu'r polisi. Mae'n ymddangos bod polisi ERhS Castell-nedd Port Talbot yn anghyffredin. Mae polisïau ERhS ALlau a adolygir yn yr astudiaeth hon yn tueddu i adlewyrchu Cod Ymarfer Enwi a Rhifo Stryd GeoPlace (2023a). Nid yw'r cod ymarfer (GeoPlace, 2023a) yn cyfeirio at

gonfensiynau sy'n berthnasol i newid iaith enw eiddo. Fodd bynnag, o ran enwau eiddo, mae'r cod ymarfer (GeoPlace, 2023a) yn nodi:

> ‘In Wales, SNN Officers should also consider whether monolingual or bilingual names for each name should be used. Care should be taken to ensure that changing or amending of a property name (including translation), meets their SNN Policy, preserves historical connotations of an existing name and that the translation of a name does not conflict with similar names in each language in at least 2 post town areas’.

6.19 Mae'r canllawiau uchod yn awgrymu y gallai swyddogion ERhS (yn amodol ar y polisi ERhS perthnasol) ystyried a ddylid defnyddio enw eiddo uniaith.

6.20 Y tu hwnt i enwau eiddo, mae patrwm cyffredinol o symud tuag at fath o bolisi sy'n annog enwau dwyieithog ar gyfer strydoedd, gyda Chod Ymarfer GeoPlace (2023a) yn nodi bod angen cynnwys enwau strydoedd Cymraeg o dan Safonau'r Gymraeg a grëwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Roedd y Safonau yn disodli’r Cynlluniau Iaith Gymraeg a ddatblygwyd cyn hynny gan bob ALl. Fodd bynnag, ‘most councils [LAs] continue to refer to their own Welsh Language Scheme in their guidance on street naming' (GeoPlace, 2023a). O ganlyniad, ac oherwydd yr amser a gymerir i baratoi datblygiadau eiddo newydd, nid yw hyn eto wedi cael effaith sylweddol ar gymeriad ieithyddol datblygiadau eiddo sydd wedi'u cwblhau, ond bydd yn dechrau effeithio ar ddatblygiadau newydd wrth symud ymlaen.

6.21 Gall polisïau ERhS ALlau sy'n hyrwyddo enwau strydoedd dwyieithog arwain at fabwysiadu enw sydd heb gymeriad hanesyddol mewn iaith nad yw'n adlewyrchu cymeriad yr ardal. Er enghraifft, lle mae enw Cymraeg hanesyddol yn cael ei fabwysiadu ar gyfer stryd ond yna’n cael ei gyfieithu i ddarparu enw dwyieithog ar gyfer y stryd. Neu, er enghraifft, lle'r polisi yw mabwysiadu enw Cymraeg hanesyddol ond bod y ffurf leol ar gyfer enwau strydoedd yn Saesneg. Enghraifft o hyn a amlygwyd mewn cyfweliad oedd mewn perthynas â Fanny Street, Letty Street, Gladys Street, a strydoedd cyfagos eraill yng Nghaerdydd lle na fyddai enw stryd Cymraeg yn cyd-fynd ag enwau hanesyddol yr ardal. Nodwyd yn un o'r cyfweliadau gyda swyddogion perthnasol yr ALlau fod GeoPlace hefyd wrthi'n

diweddaru eu canllawiau yn dilyn ymgynghoriad diweddar, a bod hwn yn ffactor sy'n cael ei ystyried mewn perthynas â diweddaru polisi'r ALl.

Crynodeb o ganfyddiadau allweddol

6.22 Mewn perthynas â pholisïau a gweithredoedd ERhS ALlau ac effeithiolrwydd polisïau o'r fath, canfuwyd y canlynol:

- Mae polisïau a gweithredoedd ERhS ALlau yn amrywiol a gallant fod yn wahanol – yn enwedig mewn perthynas â'u darpariaethau ynghylch y Gymraeg ac enwau hanesyddol. Adlewyrchwyd gwahaniaethau ALlau o ran polisïau ERhS yn yr arferion cofnodi a chadw data mewn perthynas â cheisiadau enwi ac ailenwi eiddo a strydoedd.
- Mae'n ymddangos bod polisïau ERhS ALlau yn ddeinamig, gydag ALlau yn ymateb i fewnbwn swyddogion ERhS, datblygiadau mewn perthynas ag enwau lleoedd Cymraeg, enwau sy'n gysylltiedig â digwyddiadau hanesyddol (er enghraifft, caethwasiaeth), neu enwau hanesyddol.
- Mae swyddogion ERhS yn ystyried, i ryw raddau, fod eu rolau yn cynnwys diogelu enwau lleoedd Cymru. Roedd hyn yn cynnwys diogelu enwau lleoedd Cymraeg yn benodol, ond hefyd enwau a ystyrid yn gyffredinol eu bod o arwyddocâd diwylliannol neu leol. Canfuwyd bod swyddogion ERhS yn ymwybodol o ganfyddiad cynyddol o bwysigrwydd enwau lleoedd Cymraeg.
- Roedd rolau swyddogion ERhS o fewn ALlau yn amrywio, gyda phatrwm cyffredinol yn dangos fod gan swyddogion ERhS gyfrifoldebau eraill fel rhan o'u gwaith. Cyfrannodd hyn at y canfyddiad bod swyddogion ERhS dan bwysau, a'r canfyddiad bod hynny'n effeithio ar bolisïau a chamau gweithredu ERhS ALlau. Roedd hyn yn effeithio'n negyddol ar allu swyddogion ERhS i gyflawni eu rôl ganfyddedig wrth ddiogelu enwau lleoedd.

7. Arolwg enwau tai digidol Cadw

7.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno canfyddiadau arolwg enwau tai digidol Cadw, sy'n archwilio patrymau iaith enwau tai a chymhellion perchnogion tai dros ddewis a newid enwau tai. (Gweler 2.19 i 21 am y fethodoleg, a Ffigur 2.2 am fap sy'n dangos nifer yr ymatebion yn ôl ALl).

Iaith enw presennol y cartref

7.2 Yn y sampl ymchwil o 3,255 o ymatebwyr, enwau tai Cymraeg sy'n dominyddu (Ffigur 7.1). Mae bron pob un o'r enwau tai a adroddwyd yn ardaloedd Abersoch / LL53 a Llanberis / LL55 yng Ngogledd Cymru – meysydd ffocws allweddol yn yr ymchwil hon – yn Gymraeg.

7.3 O edrych ar ranbarthau Cymru yn ehangach, mae cyfran yr enwau Cymraeg yn amrywio'n sylweddol:

- Gogledd (88%)
- Canolbarth (81%)
- De-orllewin (71%)
- De-ddwyrain (50%).[22]

[22] Gogledd (Gwynedd, Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam); Canolbarth (Ceredigion, Powys); De-orllewin (Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Abertawe); De-ddwyrain (Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Torfaen, Bro Morgannwg).

Ffigur 7.1: Siart sy'n dangos iaith enw presennol y cartref - Cymru gyfan a'r ardaloedd penodol



Maint y sylfaen: 3,255. Mae maint y sampl ar gyfer Llanidloes SY18 ac Arberth SA67 yn fach (28 a 23 yn y drefn honno). Roedd maint y sampl ar gyfer Yr Eglwys Newydd (11) a Chei Connah (3) yn rhy fach i'w dadansoddi.

Arallenwi

7.4 Mae cyfran yr enwau Cymraeg o'i chymharu ag enwau Saesneg yn debyg ar gyfer tai wedi'u harallenwi (Cymraeg 74%, Saesneg 19%) a thai a enwir (Cymraeg 78%, Saesneg 15%).

7.5 Mae tua chwarter y tai yn y sampl yn dai wedi'u harallenwi (Ffigur 7.2). Mae cyfran y tai sydd wedi'u harallenwi yn amrywio yn ôl rhanbarthau Cymru:[23]

- De-ddwyrain (40%)
- De-orllewin (27%)
- Gogledd (25%)
- Canolbarth (16%).[24]

[23] Nid oedd yr arolwg hwn yn nodi pa arallenwau sydd wedi'u cofnodi'n ffurfiol fel rhan o'r cyfeiriad swyddogol neu wedi'u henwi'n anffurfiol. Nid yw'n hysbys ychwaith a oes gan dŷ wedi'i enwi enw ffurfiol ynteu anffurfiol.
[24] Gogledd (Gwynedd, Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam); Canolbarth (Ceredigion, Powys); De-orllewin (Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Abertawe); De-ddwyrain (Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Torfaen, Bro Morgannwg).

Ffigur 7.2: Siart yn dangos ateb i gwestiwn arolwg: "A oes gan eich cartref rif hefyd, e.e. 1 Stryd y Castell neu Fflat 2?"



Maint y sylfaen: 3,255. Mae maint y sampl ar gyfer Llanidloes SY18 ac Arberth SA67 yn fach (28 a 23 yn y drefn honno). Roedd maint y sampl ar gyfer Yr Eglwys Newydd (11) a Chei Connah (3) yn rhy fach i'w dadansoddi.

Arallenwi ffurfiol ac anffurfiol

7.6 Er mwyn canfod faint o eiddo wedi'u harallenwi sydd wedi'u henwi'n ffurfiol neu'n anffurfiol, gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd chwiliadau ar-lein yn cynnwys 'enw eu cartref neu ddim ond y rhif?' (Ffigwr 7.3). Ar gyfer tai wedi'u harallenwi, mae 52% yn ymddangos fel y rhif yn unig mewn chwiliadau ar-lein a 40% o ganlyniadau chwiliad yn dangos yr enw a'r rhif.

Ffigur 7.3: Siart yn dangos atebion i gwestiwn arolwg: "Fel arfer, pan fyddwch chi'n chwilio am eich cyfeiriad ar-lein... a yw canlyniadau'r chwilio yn cynnwys enw eich cartref neu'r rhif yn unig?"



Maint y sylfaen: 3,232. Ni roddodd rhai ymatebwyr ateb pan ofynnwyd y cwestiwn hwn. Mae'r canrannau wedi'u hail-sylfaenu yn unol â hynny.

Tai a enwyd gan y preswylydd presennol

7.7 Roedd mwy o ymatebwyr yr arolwg wedi rhoi'r enw presennol i'w tŷ os tŷ ag arallenw ydoedd (31%) yn hytrach na thŷ wedi'i enwi (13%).

7.8 Yn ôl arolwg enwau tai digidol Cadw, mae iaith enw presennol y tŷ yn wahanol yn ôl pwy a'i enwodd. Er bod enwau Cymraeg yn dominyddu ymhlith enwau a ddewiswyd gan y meddiannydd presennol ac enwau na ddewiswyd gan y meddiannydd presennol, mae meddianwyr presennol yn fwy tebygol o fod wedi dewis enw eiddo Cymraeg (Ffigur 7.4).

Ffigur 7.4: Siart sy'n dangos iaith enw presennol y tŷ ac os y'i dewiswyd ai peidio gan y meddiannydd presennol



Maint y sylfaen: 3,255.

Rhesymau dros ddewis yr enw presennol

7.9 Dywedodd un o bob chwech (17%) o'r ymatebwyr eu bod wedi dewis enw presennol eu cartref. Dangosir y rhesymau dros ddewis yr enw yn Nhabl 7.1.

Tabl 7.1: Rhesymau dros ddewis enw tŷ

Rhesymau dros ddewis yr enw (C4)	
Roedd arnaf eisiau rhywbeth oedd yn bersonol i mi/fy nheulu.	55%
Roedd arnaf eisiau defnyddio'r Gymraeg (roedd yr enw blaenorol yn Saesneg)	32%
Roedd arnaf eisiau defnyddio'r Gymraeg (roedd yr enw blaenorol yn Gymraeg hefyd)	13%
Fe ddes i â'r enw gyda fi o leoliad / eiddo blaenorol	12%
Mae'r enw'n air gwneud	4%
Cafodd yr enw ei ddewis ar ôl edrych ar y Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru	2%
Mae'r enw'n gysylltiedig â busnes sy'n cael ei redeg oddi yno	2%
Arall	5%

Maint y sylfaen: 332. Nid yw pawb a enwodd eu tŷ wedi rhoi rheswm. Mae canrannau wedi'u seilio yn ôl y rhai sy'n rhoi ateb uchod. Gallai ymatebwyr roi mwy nag un ateb.

Rhesymau personol

7.10 Mae rhesymau personol yn aml y tu ôl i ddewis yr enw. Mae hyn yn arbennig o wir os oes gan y tŷ rif hefyd. Mae 73% o'r ymatebwyr y mae gan eu tŷ rif hefyd wedi nodi rhesymau personol dros ddewis yr enw, o'i gymharu â 38% o'r ymatebwyr nad oes gan eu tŷ rif hefyd.

> "Enw tŷ fy nhad oedd Trelawenek, sef enw Cernyweg. Er mwyn anrhydeddu ei syniadau am fywyd teuluol, roeddem am enwi ein tŷ [Trelawenydd] gan ddefnyddio'r hyn sy'n cyfateb yn y Gymraeg."

> "Enw'n tŷ ni yw 'Cysgod y Sêr', sydd yn yr achos hwn â dau ystyr. Mae ein bwthyn yn swatio [yn y dirwedd] a theimlwn ei fod yn cael ei 'gysgodi' o dan ehangder y sêr yn y nos. Mae ganddo hefyd ystyr bersonol o rieni coll yn edrych i lawr ar ein cartref bach ac yn ein cadw o dan eu hadain. Fe wnaethon ni newid yr enw o 'The Cottage'."

Eisiau defnyddio'r Gymraeg

7.11 Mae eisiau defnyddio'r Gymraeg hefyd yn rheswm cyffredin dros ddewis yr enw, ac mae hyn yn aml yn golygu newid iaith o'r Saesneg. Mae hyn yn arbennig o wir os nad oes gan y tŷ rif hefyd. Mae 44% o'r ymatebwyr nad oes gan eu tŷ rif hefyd wedi nodi awydd i ddefnyddio'r Gymraeg fel rheswm dros ddewis yr enw, o'i gymharu â 18% o'r ymatebwyr y mae gan eu tŷ rif hefyd. Dim ond un achos sydd yn y sampl o ymatebydd yn dweud eu bod eisiau defnyddio'r Saesneg (roedd yr enw blaenorol yn un Cymraeg).

> "Roeddwn i eisiau defnyddio'r Gymraeg a doedd y tŷ [Bryn Hafod] ddim wedi ei enwi o'n blaenau"

7.12 Mae sylwadau Facebook yn dangos bod llawer o falchder mewn cael enw tŷ Cymraeg. Mae'n gwneud i breswylwyr deimlo'n gartrefol yn eu rhan nhw o Gymru - cysylltiad hiraethus â hanes, lleoliad neu'r iaith Gymraeg. Go brin fod yr un peth yn cael ei leisio am enwau Saesneg yn y sylwadau.

"Enw ein tŷ ni ydy Penywaun. Mae gan bob un o'r hen dai cerrig ar ein ffordd enwau Cymraeg. Mwy hyfryd na rhifau."

"Fe wnaethon ni alw ein tŷ newydd sbon yn 'Tŷ Cwtch'. Mae'n dŷ gyda dwy ystafell wely ac mae fel dod adref i Gwtch - dyma lle ni'n cael cwtsho lan ac anghofio gweddill y byd."

"Enw ein cartref blaenorol oedd 'Garreg Lefain Fawr', a oedd yn enw hardd mewn lle hardd. Enw ein cartref presennol yw 'Ceiriog'."

"Mae enwau tai gwreiddiol yn rhan o'n treftadaeth, felly a oes unrhyw ffordd y gall Cadw atal pobl rhag newid enw Cymraeg gwreiddiol tŷ/fferm i enw arall?"

Ystyr enw'r tŷ

Tabl 7.2: Ymatebion i'r cwestiwn arolwg ar ystyr enw'r tŷ

Ystyr enw (C4 / C6)	Cyffredinol	Dewiswyd gan y preswylydd presennol	Na ddewiswyd gan y preswylydd presennol
Lleoliad, e.e. Crib yr Allt neu Gwêl y Llyn	54%	38%	57%
Lle	17%	12%	18%
Defnydd blaenorol neu bresennol, e.e. Yr Hen Swyddfa Bost	14%	8%	15%
Cysylltiadau hanesyddol â'r ardal, e.e. Tŷ Castell	13%	8%	14%
Planhigyn neu goeden, e.e. Y Dderwen	12%	12%	12%
Maint, e.e. Y Gilfach	10%	4%	11%
Dyluniad, e.e. Y Tyrau	6%	5%	7%
Ystyr personol	6%	32%	-
Rhywun sy'n byw yno e.e. Maes Meurig	4%	4%	4%
Anifail, e.e. Y Gwiwerod	2%	1%	3%
Cyswllt busnes	2%	1%	2%
Gair gwneud	1%	2%	1%
Llenyddiaeth, teledu neu radio e.e. Dôl Bebin, Lleifior neu Bryncoch	1%	2%	0%
Aneglur	3%	-	3%
Arall	2%	3%	2%

Maint y sylfaen: 3,225. Gall enwau syrthio i fwy nag un categori o ystyr. Dim ond preswylwyr presennol all benderfynu a oes gan enw ystyr bersonol. Mae enwau nas dewiswyd gan y preswylydd presennol sy'n aneglur eu hystyr wedi cael eu codio fel rhai 'aneglur'.

7.13 Lleoliad y tŷ yw'r math mwyaf cyffredin o ystyr o bell ffordd ar draws holl ranbarthau Cymru.

"Bronhaulwen - ar ochr bryn yn wynebu'r de sy'n dal yr haul"

“Enw fy nhŷ yw 'Pen y Coed'. Fe wnes i ei ailenwi pan wnes i ei brynu oherwydd nad oeddwn yn hoff o'i enw gwreiddiol. Rwy'n edrych allan ar bennau coed o'm drws cefn, felly roedd yn ymddangos yn addas."

7.14 Os caiff ei enwi gan y preswylydd presennol, yn aml mae gan yr enw ystyr bersonol hefyd. Mae'r ystyr yn aml yn hiraethus.

"Fe wnes i enwi fy nhŷ [Tŷ Canol] o atgof plentyndod. Pan o'n i'n blentyn, aethon ni i fwthyn yn Ynys Môn ... Roeddwn wrth fy modd â'r bwthyn ac mae atgofion fy mhlentyndod yn dal i fod yn rhai hapus o'r amseroedd arbennig hynny a dreuliais gyda fy rhieni, brodyr a chwiorydd, modryb ac ewythr."

"Mae'r enw [Bryn Dedwydd] yr un fath â thŷ fy nain lle treuliais yr amseroedd hapusaf yn blentyn."

7.15 Mae rhai o'r mathau mwy cyffredin eraill o ystyr yn cynnwys lleoedd, defnydd blaenorol neu gyfredol yr adeilad, planhigion neu goed, a maint eiddo.

"Fe wnaethon ni enwi ein tŷ, Derwenlas, ar ôl y goeden dderw werdd fawr hyfryd y tu ôl iddo"

"Quarry Lodge - cafodd ei adeiladu'n wreiddiol ar gyfer meistr y chwarel, gyda ffenestr fwaog ar dalcen y tŷ lle byddai'r gweithwyr yn dod i gael eu talu."

Newidiadau i enwau tai

7.16 O'r ymatebwyr a roddodd enw ar eu tŷ, dywedodd 29% eu bod yn gwybod bod ganddo enw gwahanol o’r blaen ac yn gwybod beth ydoedd.

7.17 Mae Ffigur 7.5 isod yn dangos iaith yr enw blaenorol, ac mae Ffigur 7.6 yn dangos y gymhariaeth rhwng iaith yr enw blaenorol ac iaith yr enw presennol.

Ffigur 7.5: Siart yn dangos iaith enw blaenorol tŷ



Maint y sylfaen: 167.

Ffigur 7.6: Siart yn dangos newid iaith enw tŷ



Maint y sylfaen: 167.

7.18 Mae maint sylfaen y cwestiwn hwn yn eithaf bach, ond mae'r data'n dangos bod llawer mwy o enwau tai yn cael eu newid yn genedlaethol (Ffigur 7.6) ac ym mhob un o bedwar rhanbarth Cymru, o'r Saesneg i'r Gymraeg neu o'r Gymraeg i'r Gymraeg, nag o'r Saesneg i'r Saesneg neu o'r Gymraeg i'r Saesneg. At ei gilydd, mae cyfran y newidiadau i enwau o'r Gymraeg i'r Gymraeg yn uwch ar gyfer tai wedi'u harallenwi na thai a enwir (33 y cant a 25 y cant yn y drefn honno). Fodd

bynnag, mae cyfran y newidiadau i enwau o'r Saesneg i'r Gymraeg yn uwch mewn eiddo a enwir nag eiddo wedi'u harallenwi (49% a 40% yn y drefn honno). Ni chofnodwyd unrhyw enghreifftiau o newid yn enw'r tŷ o'r Gymraeg i'r Saesneg ymhlith eiddo wedi'u harallenwi. Ar gyfer eiddo a enwir, roedd 3 y cant (n=5) o newidiadau i enwau eiddo o'r Gymraeg i'r Saesneg.

7.19 Er y gallai fod rhywfaint o duedd ymateb i'r arolwg hwn tuag at drigolion ag enw tŷ Cymraeg, mae data newid enwau ffurfiol ALlau (Pennod 5) hefyd yn nodi bod mwy o enwau tai yn cael eu newid o'r Saesneg i'r Gymraeg nag o'r Gymraeg i'r Saesneg. Yn yr un modd, mae data arolwg enwau tai digidol Cadw ar batrwm enwau tai sydd wedi'u harallenwi yn cyd-fynd â data'r ALlau (Pennod 5), sy'n nodi bod arallenwi ffurfiol yn arwain at duedd hyd yn oed yn fwy amlwg o newidiadau ffurfiol o enwau Saesneg i Gymraeg.

7.20 Nid Cymry yn unig sy'n cadw enwau tai Cymraeg neu'n newid enwau tai i enwau Cymraeg. Mae rhai sydd wedi symud i Gymru hefyd yn gwerthfawrogi enwau Cymraeg.

> "Enw gwreiddiol ein tŷ oedd 'Cartref Newydd' pan gafodd ei adeiladu yn y 1950au. Penderfynodd rhywun ei newid i 'Tara' yn y 70au neu'r 80au. Saeson ydyn ni ond dy'n ni ddim yn hoffi gweld yr hen enwau Cymraeg yn cael eu Seisnigeiddio, felly fe wnaethon ni ei newid yn ôl i'w enw gwreiddiol."
>
> "Roedd yn adeilad newydd ac roedden ni eisiau enw Cymraeg (er ein bod ni'n enedigol o Loegr), felly wnaethon ni ofyn i ffrind Cymraeg gyfieithu i ni [Cerddinen Wen]"
>
> "Roedd e'n arfer bod yn dafarn o'r enw 'The Royal Oak'. Rydym wedi galw ein tŷ yn 'Bwthyn Derw' i anrhydeddu hynny!"

Crynodeb o ganfyddiadau allweddol

7.21 Mae cael enw tŷ Cymraeg yn ennyn ymdeimlad o falchder, lle neu hiraeth i lawer o drigolion. Ychydig iawn sydd yn y data sy'n dweud yr un peth am enwau tai Saesneg. Trafodir hyn ymhellach ym Mhennod 11, mewn perthynas â phatrwm Cymreigeiddio (Coupland, 2010) a *chydymdreiddiad* (Jones, 1960).

7.22 Roedd yr ymatebwyr i'r arolwg wedi gwneud hynny o'u gwirfodd, ac felly ni ellir o reidrwydd cymryd bod y canlyniadau'n adlewyrchu'r boblogaeth ehangach yng Nghymru, ac felly sefyllfa enwau tai ledled Cymru. Fodd bynnag, er bod pryderon yng Nghymru ynghylch dileu enwau tai Cymraeg a'u disodli gan rai Saesneg, mae'n ymddangos mai patrwm i'r gwrthwyneb a welir.

8. Mapio enwau lleoedd

8.1 Mae'r bennod hon yn ystyried mapio enwau lleoedd, gyda'r nod o ddeall i) pa ddata y mae'r Arolwg Ordnans (OS) yn ei ddefnyddio i ddewis a/neu newid enwau ar fapiau, a ii) sut mae'r data i gyflawni hyn yn cael ei gasglu.

8.2 Pan fydd enwau lleoedd penodol yn ymddangos ar fapiau, gallant normaleiddio'r enwau hynny mewn cymunedau lleol ac ar-lein (Llywodraeth Cymru, 2022b). Elfen arall y mae'r ymchwil hon yn ei hystyried, felly, yw'r berthynas rhwng enwau (yn enwedig enwau tirweddol, enwau busnes ac enwau lleoedd) a fathwyd ac a ddefnyddir gan grwpiau a chwmnïau sy'n ymwneud â thwristiaeth a gweithgareddau awyr agored a'r enwau lleoedd sy'n ymddangos ar fapiau (Llywodraeth Cymru, 2022b). Mae'r bennod hon hefyd yn ymdrin ag enghreifftiau o fapio sy'n coladu enwau lleoedd neu enwau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau awyr agored, gan gyfeirio at Fap Enwau Lleoedd Cymraeg Cyngor Gwynedd (2023), Mapio Cymru, Slow Ways, ac enwi segmentau ar Strava.

8.3 Mae'r bennod hon yn tynnu'n bennaf ar ddata o gyfweliadau rhanddeiliaid, dau gyfweliad gyda'r OS, ac adolygiad o Bolisi Enwau (2022), a Pholisi Enwau Cymraeg (2018) yr OS.

Yr Arolwg Ordnans (OS) ac enwau lleoedd

8.4 Yn aml, ystyrir mapiau yn ffynonellau awdurdodol ar gyfer enwau lleoedd (Coupland, 2010). Gan nad oes awdurdod enwau cenedlaethol yn y Deyrnas Unedig (OS, 2022) dywed yr OS: 'the geographical names as portrayed on hard-copy and digital products of the national mapping agency – the Ordnance Survey – are recognised as being the authoritative geographical names of Great Britain' (OS, 2022:4). O ganlyniad, mae'r OS yn chwarae rôl allweddol o ran creu lleoedd ('placemaking') ac fe'i ystyrir yn rhanddeiliad allweddol yn yr ymchwil hon. Mae'r adran hon yn ystyried polisïau a phrosesau'r OS ar gyfer cofnodi a mapio enwau lleoedd er mwyn helpu i ddeall sut mae enwau lleoedd yn ymddangos ar fapiau OS.

Cofnodi enwau lleoedd

8.5 Yn ôl yr OS: '[the] collection of consistent, definitive and authoritative descriptive annotations and proper names/postal number of buildings, places and features

forms part of the public task of OS' (OS, 2022: 4). Mae Polisi Enwau'r OS (2022: ibid) yn nodi bod cofnodi enwau lleoedd yn arbennig o bwysig o ran enwau nodweddion daearyddol, gan nad oes unrhyw awdurdod cydnabyddedig arall ym Mhrydain Fawr ar eu cyfer. Mae hyn yn cadarnhau'r canfyddiad mai'r OS yw'r awdurdod enwi de facto yn y DU (cyfweliad).

8.6 Mae'r gwaith hwn o gofnodi enwau lleoedd yn golygu gwneud penderfyniadau ynghylch pa enw lle i'w gofnodi. Mae'r polisi'n nodi: 'in making decisions as to what name to record in respect of a place, street or building, OS is guided primarily by local usage and custom. It makes enquiries and consults appropriate authorities in order to establish, with as much authority as possible, the most suitable name, form, and spelling for all places shown' (OS, 2022: 4). Mewn cyfweliad, nododd staff yr OS bod enwau adeiladau yn cael eu nodi dim ond os yw'r adeilad yn adeilad sengl sefydlog nad oes ganddo unrhyw gyd-destun arall. Ar gyfer eiddo sydd wedi'u rhifo, nid yw'r OS yn cofnodi enw eiddo (arallenw), hyd yn oed os yw'n bodoli neu'n amlwg yn weledol.

8.7 Er gwaethaf cael ei arwain yn bennaf gan y defnydd a'r arfer lleol wrth benderfynu pa enw i'w gofnodi (OS, 2022: 4), ni ddiffinnir 'defnydd ac arfer lleol' yn fanwl ym Mholisi Enwau'r OS (2022). Yn y cyfweliad, esboniwyd defnydd lleol fel 'os yw enw yn cael ei ddefnyddio' a 'gellir gweld tystiolaeth bod pobl yn defnyddio'r enw hwnnw neu ei fod yn weledol bresennol ar hysbysfyrddau, ac ati.' (cyfweliad). Blaenoriaeth yr OS yw cipio'r defnydd cyfoes a gweithredol o enw lle i helpu i benderfynu pa enw lle i'w gofnodi (cyfweliad). Gallai hyn hefyd gynnwys achosion lle mae enw lle nad oedd yn cael ei ddefnyddio yn dychwelyd i ddefnydd lleol ac yna'n cael ei ail-gofnodi (cyfweliad).

8.8 Esboniwyd y ddibyniaeth ar 'ddefnydd ac arfer lleol' wrth benderfynu pa enw lle i'w gofnodi fel canlyniad i sut y casglwyd enwau lleoedd yn hanesyddol gan yr OS (cyfweliad). Yn fwy diweddar, mae llai o bwyslais ar ddefnydd ac arfer lleol wrth bennu enwau lleoedd oherwydd bod llai o newidiadau i enwau lleoedd (cyfweliad).

8.9 Yn hytrach, rhoddir mwy o bwyslais ar arwyddion gweledol a chofnodion awdurdodau enwi parthed enwau yn yr amgylchedd adeiledig (cyfweliad). Eglurwyd bod 'y rhan fwyaf o'n [OS] tystiolaeth ar gyfer enwau newydd [...] yn amlwg ar

arwydd, bwrdd, neu hysbysfwrdd' (cyfweliad). O ganlyniad, 'mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth [i benderfynu pa enw lle i'w gofnodi] yn ysgrifenedig neu wedi'i argraffu' (cyfweliad). Mae hyn yn newid o'r pwyslais hanesyddol ar ddefnydd lleol i benderfynu pa enw lle i'w gofnodi. Fodd bynnag, mae achosion o hyd lle mae defnydd lleol yn pennu'r enw a gofnodir, gyda'r OS yn nodi eu bod yn ddibynnol mewn llawer o achosion ar y cyhoedd yn eu hysbysu o'r newidiadau hyn cyn iddynt wedyn ymchwilio i achosion o'r fath os oes angen (cyfweliad).

8.10 Mae polisi yr OS (2022) yn nodi eu bod yn ymgynghori ag awdurdodau priodol lle bo hynny'n bosibl. Adroddwyd mewn cyfweliad bod yr awdurdodau hyn yn cynnwys perchennog adeilad neu dir, awdurdodau lleol, ac awdurdodau eraill fel awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol a Chomisiynydd y Gymraeg. Nodwyd bod yr OS yn ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg o bryd i'w gilydd o ran sillafiad cywir enw lle, ond hefyd os oes ansicrwydd ynghylch yr enw cywir ei hun (cyfweliad).

Cofnodi enwau lleoedd ac iaith enwau lleoedd

8.11 Mae Polisi Enwau Cymraeg yr OS (2018: 5) yn nodi y byddant yn:

- ‘Cefnogi Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, y ddau â’r nod o hyrwyddo a hwyluso’r defnydd o’r Gymraeg ledled Cymru.
- Ymdrechu i gael cysondeb a chywirdeb wrth arddangos enwau ym mhob cyfres o fapiau ac ar draws pob cynnyrch.
- Cydnabod pob un o’r 29 o lythrennau’r wyddor Gymraeg a’r llythrennau acennog sy’n perthyn iddynt, ond yn cadw’r hawl i gofnodi llythrennau deugraff fel dwy lythyren ar wahân yn y Gronfa Ddata Ddaearyddol Genedlaethol (NGD).
- Sicrhau bod defnydd cyffredin a thystiolaeth a geir drwy ffurfiau hanesyddol yn cael eu hystyried wrth bennu sillafiad a/neu ffurf enw.
- Ceisio cael awdurdod priodol, trwy gorff gosod safonau a gydnabyddir yn eang, am ffurf enwau Cymraeg ond, yn achos anghytundeb, cadw hawl olygyddol derfynol i sicrhau mapiau a chynnyrch derbyniol o ran cartograffig.
- Cael consensws ar ffurf a sillafiad derbyniol enwau Cymraeg gan Gomisiynydd y Gymraeg.’

8.12 Mae Polisi Enwau Cymraeg yr OS (2018: 5) yn nodi na fyddant yn:

- 'Awdurdod ar gyfer enwau Cymraeg; neu
- Newid i'r Gymraeg unrhyw enwau sydd wedi cael eu Seisnigeiddio ar awdurdod unrhyw unigolyn.
- Derbyn dehongliad unigolyn wrth ystyried enwau Cymraeg, lle gall fod gwrthdaro o ran sillafiad neu fersiwn.'

8.13 Yn ôl OS, cofnodir enwau mewn mwy nag un iaith mewn dau brif achos (cyfweliad). Yn gyntaf, yng Nghymru,[25] cofnodir enwau lleoedd Cymraeg yn ogystal ag enwau lleoedd Saesneg (OS, 2018). Yn ail, dim ond os dyna'r unig enw lle sy'n bodoli y bydd enwau lleoedd mewn ieithoedd eraill yn cael eu cofnodi. Er enghraifft, os mai dim ond yn Punjabi, Wrdw, Ffrangeg neu Gernyweg y mae enw lle (cyfweliad).

8.14 Wrth gofnodi enwau, adroddwyd mewn cyfweliad 'rydyn ni [OS] yn mynd allan o'n ffordd i beidio â nodi iaith yr enw' ac 'rydyn ni ond yn nodi'r iaith os ydym wedi cofnodi mwy nag un fersiwn o'r enw'. Nodwyd bod hyn yn helpu i osgoi penderfynu ar iaith enw penodol os, er enghraifft, y mae enw yn cynnwys mwy nag un iaith neu lle nad yw'r enw yn hawdd ei bennu fel un iaith neu'r llall (gweler Coupland, 2010).

Mapio a chyflwyno enwau lleoedd yn weledol

8.15 Mewn copïau caled a chynhyrchion digidol, mae cynrychiolaeth weledol o'r enwau lleoedd a gofnodwyd yn ddibynnol, meddai'r OS, ar: 'the placement of cartographic text [which] is dependent upon the space available'. O ganlyniad ni fydd pob enw yn ymddangos ar bob cynnyrch (OS, 2022:4). Gall hyn effeithio ar achosion lle cofnodir enwau lluosog ar gyfer un nodwedd.

8.16 Mewn cyfweliad â'r OS, adroddwyd nad ydynt yn aml yn dod ar draws achosion lle mae mwy nag un enw yn cael ei ddefnyddio ar lefel leol ar gyfer un nodwedd, neu lle mae 'dau neu fwy o enwau ar gyfer un nodwedd yn ddigon cyffredin'. Deallir bod y rhan fwyaf o achosion o'r fath yn rhai hanesyddol. Nodwyd, ar hyn o bryd, y dylai'r ddau enw gael eu cofnodi (cyfweliad). Er nad oedd hyn yn cael ei ystyried yn broblem gyffredin ar hyn o bryd, nodwyd bod gan yr OS bellach fwy o allu i gofnodi ac i gynrychioli enwau lluosog yn weledol. Pan fydd hyn yn digwydd, mae hyn yn aml oherwydd enwau lluosog mewn gwahanol ieithoedd. Nodwyd bod dulliau

[25] Mae'r OS wedi mabwysiadu polisi enwau Gaeleg i gefnogi a hwyluso menter Llywodraeth yr Alban i hyrwyddo diwylliant yr Alban (OS, 2023).

gwahanol o ymdrin â mapio digidol mewn cymhariaeth â mapio sefydlog (papur), gyda mapio digidol yn cynnig mwy o gyfle i gynnwys mwy o wybodaeth ar y map lle gall defnyddiwr y map chwyddo'r sgrin er mwyn gweld mwy o fanylion (megis enwau lluosog) mewn ardal a ddewiswyd. Ni fyddai hyn yn caniatáu i'r defnyddiwr ddewis pa wybodaeth a arddangoswyd, ond byddai'n caniatáu i'r defnyddiwr weld gwybodaeth fanylach. Nodwyd y byddai pwyslais cynyddol ar fapio digidol yn arwain at gynnwys mwy o wybodaeth ar fapiau.

Mapiau eraill ac enwau lleoedd

8.17 Nodwyd enghreifftiau eraill o fapio enwau lleoedd trwy'r cyfweliadau â rhanddeiliaid a gynhaliwyd fel rhan o'r ymchwil hon. Mae'r adran hon yn amlinellu pedair enghraifft o gofnodion eraill sy'n cynnwys mapio enwau lleoedd, gan gynnwys Map Enwau Lleol Cyngor Gwynedd (2023), Mapio Cymru, Slow Ways, ac enwi segmentau ar Strava. Dyma enghreifftiau o fapiau sy'n coladu enwau lleoedd lleol neu enwau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau awyr agored.

Map Enwau Lleol Gwynedd

8.18 Mae Cyngor Gwynedd wedi cynhyrchu Map Enwau Lleol Gwynedd (2023) 'er mwyn bod yn gofnod byw o enwau lleol a llafar ar leoliadau a nodweddion o fewn cymunedau'r sir'. Datblygwyd y map yn benodol 'er mwyn cyfrannu a chofnodi rhai o'r enwau anffurfiol hynny, sydd yn rhan o hanes a thafodiaith leol, ac na wnaiff byth ymddangos ar fap swyddogol' (Cyngor Gwynedd, 2023). Roedd datblygu'r map hwn yn cynnwys gweithio gydag ysgolion lleol i adnabod nodweddion yn y dirwedd leol ac i gasglu gwybodaeth am yr enwau a ddefnyddir ar gyfer y nodweddion hyn (cyfweliad). Ni fyddai'r enwau hyn fel arfer yn ymddangos ar gofnodion swyddogol nac ar fapiau neu gynhyrchion yr OS ond byddent yn cael eu defnyddio ar lafar o fewn y gymuned leol (cyfweliad). Dyma enghraifft o'r defnydd gweithredol o gyfryngau digidol fel ffordd gydweithredol o greu lleoedd cymunedol y mae Halegoua (2020) yn ei ddiffinio fel un sydd â'r potensial i herio ffurfiau mwy traddodiadol o greu lleoedd.

Mapio Cymru

8.19 Mae prosiect Mapio Cymru yn 'adeiladu map o Gymru gydag enwau lleoedd yn y Gymraeg' yn seiliedig ar gronfeydd data a olygir gan wirfoddolwyr cymunedol, sef OpenStreetMap a Wikidata (Proctor, 2022: 5) ac mae'n enghraifft arall o ffordd o greu lleoedd yn y gymuned (cf. Halegoua). Lansiwyd Mapio Cymru yn 2019 gyda'r nod o sicrhau bod 'gwasanaethau mapio cystal yn y Gymraeg ag y maent yn Saesneg' (Wyn, 2023). Mae Mapio Cymru yn cydnabod ‘nad yw'r map Cymraeg mor gyfoethog o ran data â'r mapiau Saesneg sydd ar gael, er enghraifft, o'r Arolwg Ordnans, oherwydd yr anhawster o gael gafael ar ddata mapio Cymraeg cywir' (Nation Cymru, 2022b). Mae Proctor (2022) yn rhoi amlinelliad o sut mae cymwysiadau mapio ar-lein yn trin y Gymraeg a'r Saesneg, yn enwedig mewn perthynas ag enwau lleoedd, ac yn dangos sut mae anawsterau wrth gael mynediad at enwau lleoedd yn Gymraeg o’r OS a Google Maps, er enghraifft, yn gwneud mapio digidol yn y Gymraeg yn fwy anodd.

Slow Ways

8.20 Mae Slow Ways yn 'fenter i greu rhwydwaith cenedlaethol o lwybrau cerdded sy'n cysylltu holl drefi a dinasoedd Prydain Fawr yn ogystal â miloedd o bentrefi' (Slow Ways, 2023). Crëwyd y rhwydwaith o lwybrau gan 700 o wirfoddolwyr sy'n cerdded ar hyd y llwybrau a’u harchwilio (Slow Ways, 2023).

8.21 Gan weithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg ac Ainmean- Àite na h-Alba (Enwau Lleoedd Gaeleg yr Alban), mae Slow Ways wedi cynhyrchu map o'r rhwydwaith sy'n cynnwys enwau lleoedd Cymraeg a Gaeleg yr Alban (Nation Cymru, 2022a). Mae enwau lleoedd Cymraeg i'w gweld ledled Cymru a de Lloegr, gydag enwau lleoedd Gaeleg yr Alban i'w gweld yn yr Alban a gogledd Lloegr (Urban Good, 2023). Felly, lle mae enwau lleoedd Cymraeg yn bodoli ar gyfer lleoedd y tu allan i Gymru, mae'r rhain wedi'u cynnwys ar y map. Er enghraifft, mae 'Hereford' wedi'i labelu ar y map fel 'Henffordd'.

8.22 Mae'r prosiect Slow Ways yn esbonio mai'r cymhelliant ar gyfer datblygu'r map hwn yw’r:

> ‘trend of changing and losing original place names [though] more recently there does seem to be an indication that things might be shifting, with a newfound confidence in embracing our heritage and local names. Our work contributes to

this, helping people find their way in their language of choice' (Nation Cymru, 2022a).

Strava

8.23 Mae Strava yn llwyfan ar gyfer tracio gweithgareddau corfforol sy'n ymgorffori nodweddion rhwydweithio cymdeithasol. Un o nodweddion mwyaf poblogaidd Strava yw ei segmentau: rhan o lwybr neu ffordd sydd wedi'i glustnodi gan ddefnyddwyr Strava (Calvert, 2023). Gall segmentau ddynodi nodweddion penodol llwybr neu ffordd, fel bryn neu ddringfa, llwybr arbennig o anodd, neu lwybr sy'n gysylltiedig â thirnod neu olygfa o'r dirwedd. Wrth greu segmentau, mae defnyddwyr Strava hefyd yn enwi'r segment. Mae gan wahanol weithgareddau corfforol wahanol segmentau (e.e. ar gyfer rhedeg neu feicio) a gall enwau segmentau adlewyrchu'r gwahanol gymunedau sy'n cymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau corfforol awyr agored.

8.24 Mae gan Fenter Iaith Conwy gysylltiadau â'r sector twristiaeth awyr agored, ac mae'n gweithio i hyrwyddo'r Gymraeg mewn perthynas â thwristiaeth awyr agored. Nodwyd yn y cyfweliad â Menter Iaith Conwy y gellir gweld gwahaniaethau yn y defnydd o enwau lleoedd ar draws amrywiol weithgareddau awyr agored. Un ffynhonnell dystiolaeth ar gyfer y canfyddiad hwn yw enwi segmentau Strava, gyda'r cyfwelydd yn nodi bod segmentau seiclo ar Strava yn lleol yn cael eu henwi'n amlach yn Gymraeg na segmentau ar gyfer gweithgareddau awyr agored eraill. Awgrymodd y cyfwelydd fod hyn yn adlewyrchu demograffig gwahanol weithgareddau awyr agored, gyda beicwyr lleol yn fwy tebygol o enwi segmentau Strava na thwristiaid.

Crynodeb o ganfyddiadau allweddol

8.25 O ran sut mae'r OS yn cofnodi enwau lleoedd a sut mae'r rhain yn cael eu cynrychioli'n weledol ar eu cynhyrchion, canfuwyd y canlynol:

- Ystyrir cynrychiolaeth weledol o enwau lleoedd ar fapiau yn fater cartograffig, nad ymdrinnir ag ef yn uniongyrchol ym Mholisi Enwau (2022) na Pholisi Enwau Cymraeg yr OS (2018). Mae'r polisïau hyn yn trafod sut mae enwau

lleoedd yn cael eu cofnodi ac o dan ba amgylchiadau y cofnodir enwau lleoedd.

- Nid yw'n glir beth yw'r trothwy ar gyfer pennu bod enw lle mewn 'defnydd ac arfer lleol' (OS, 2022: 4) ac felly i'w gofnodi ar fap OS. Fodd bynnag, mae’r OS yn gynyddol ddibynnol ar gofnodi enwau sydd wedi'u hysgrifennu ar arwyddion cyhoeddus ac arwyddion eraill, neu enwau sy'n cael eu cofnodi gan awdurdodau perthnasol.
- Mae’r OS yn adrodd eu bod yn cael eu harwain yn bennaf gan ddefnydd ac arfer lleol. Maen nhw'n gwneud ymholiadau ac yn ymgynghori ag awdurdodau priodol i sefydlu, gyda chymaint o awdurdod â phosibl, yr enw, y ffurf a'r sillafiad mwyaf addas ar gyfer pob man a ddangosir.
- Mae defnydd cynyddol cynhyrchion mapio digidol yn hytrach na mapiau copi caled yn golygu y gellir cynrychioli mwy o ddata yn weledol (yn yr achos hwn, enwau lleoedd mewn gwahanol ieithoedd). Mae hyn yn golygu bod llai o achosion pan wneir penderfyniad i ddefnyddio un enw lle yn hytrach nag un arall.

8.26 Mae’r bennod hon hefyd yn cynnwys enghreifftiau o fapio amgen enwau lleoedd. Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos sut y gellir defnyddio dulliau gwahanol i gasglu data enwau lleoedd, y gwahanol ddibenion y mae enwau lleoedd yn cael eu mapio ar eu cyfer, a sut y gall mapiau adlewyrchu gwahanol batrymau defnydd lleol.

9. Trafodaethau am newid enw lle ar gyfryngau cymdeithasol: astudiaeth achos

9.1 Mae'r bennod hon yn ystyried enghraifft o newid enw lle a'r ymateb i'r newid enw lle hwnnw ar gyfryngau cymdeithasol. Mae'r astudiaeth achos hon yn tynnu ar bostiadau cyfryngau cymdeithasol a rhyngweithiadau cysylltiedig ynghylch ailenwi tafarn yn ystod 2022. Mae'r enghraifft hon yn caniatáu ystyriaeth o'r broses o ailenwi lle sy'n adnabyddus yn lleol ac ymatebion i newid enw lle o fewn cymuned ddigidol a ddiffiniwyd yn ddaearyddol. Er nad yw'n briodol cyffredinoli o un astudiaeth achos, mae'r enghraifft yn dangos ehangder y ffactorau a'r gwahanol gamau – ffurfiol ac anffurfiol – y gall proses ailenwi fynd trwyddynt.

9.2 Dewiswyd yr astudiaeth achos oherwydd bod newid yr enw lle yn ymwneud â'r ffactorau canlynol:

- enw busnes a oedd hefyd yn enw lle hanesyddol
- enw a newidiodd o enw Saesneg i enw Cymraeg a Saesneg cymysg
- enw lle yr ystyriwyd ei fod o arwyddocâd cymunedol, a
- enw lle a gysylltid ag enw nodwedd dopograffig.

9.3 Fel enghraifft o newid i enw tafarn, mae'r astudiaeth achos hon hefyd yn rhoi rhywfaint o fewnwelediad cychwynnol i enwau lleoedd sy'n cael eu bathu gan gwmnïau sy'n gysylltiedig â'r sectorau twristiaeth, lletygarwch a gweithgareddau awyr agored.

Astudiaeth achos

9.4 Yr astudiaeth achos a ddewiswyd fel enghraifft yw'r newid yn enw tafarn o 'The Dragon's Back' i 'Dinas Castle Inn' yn 2022. Lleolir Tafarn Dinas Castle Inn ym Mhengenffordd ym Mhowys. Yr enw hanesyddol ar y dafarn yw 'Castle Inn' (CBHC, 2023). Mae'r Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru yn cofnodi pedair enghraifft arall o 'Dinas' o fewn un cilomedr i'r dafarn, a bryngaer Oes yr Haearn 'Castell Dinas' (CBHC, 2023).

9.5 Cafodd y newid yn enw'r dafarn ei ysgogi gan berchnogion newydd ym mis Ebrill 2022. Gofynnodd y perchnogion newydd am farn y gymuned leol trwy ddau bostiad a phôl piniwn ar wahân ar Dudalen Gymunedol Talgarth ar Facebook (Briggs,

2022a, 2022b). Cafodd y postiadau gyfanswm o 590 o bleidleisiau a 110 o sylwadau mewn ymateb. O'r herwydd, mae'r lefel hon o ymgysylltu â'r gymuned yn y broses o newid enw busnes yn dangos y rôl y gall cyfryngau cymdeithasol ei chwarae wrth gynnwys pobl yn y broses o greu lleoedd (Halegoua, 2020), fel y trafodwyd ym Mhennod 4. Yn ddiddorol, yn yr achos hwn, nid yr enw a ddewiswyd oedd yr un a ddewiswyd ar gyfryngau cymdeithasol, ond mae'n adlewyrchu'r nodweddion a amlinellwyd gan y perchnogion newydd a'r cyhoedd ar gyfryngau cymdeithasol (fel y trafodir isod yn 9.14).

9.6 Wrth gynnig newid enw'r dafarn, mae'r perchnogion newydd yn fframio'r newid fel mater cymunedol, gan ddweud bod y mater yn cael ei roi yn nwylo eu cymuned (Briggs, 2022a). Mae'r ymgynghoriad cyntaf hwn (Briggs, 2022a) yn dangos yn glir mai'r enw 'The Castle Inn (Pengenffordd)' sy'n cael ei ffafrio (gyda 79% o 361 pleidlais) o'i gymharu â 'The Dragons Back (Pengenffordd)'. Mae'r sylwadau sy'n ymateb i'r pôl piniwn cyntaf yn datgelu teimlad lleol ynghylch yr enw, y newid enw arfaethedig, gwreiddiau'r enwau sy'n cael eu trafod, a defnydd lleol o'r gwahanol enwau dros amser.

9.7 Mewn ail bostiad, mae'r perchnogion newydd yn nodi eu bwriad i newid yr enw o 'The Dragon's Back' ond bod yr enw parth ar gyfer 'The Castle Inn' wedi ei gymryd (Briggs, 2022b). Mae hyn yn eu harwain i ystyried amrywiadau o 'Dinas Castell Inn' (Briggs, 2022b), gydag enwau eraill yn cynnwys 'Castle Pengenffordd', 'Dragon's Castle', a 'Dragon's Inn' fel opsiynau pellach (Tabl 9.1).

Tabl 9.1: Crynodeb o'r ymatebion i'r ail bôl piniwn ar gyfryngau cymdeithasol ar ailenwi The Dragon's Back

Enw arfaethedig	Canran o blaid yr enw arfaethedig
Dinas Castle Inn	8
Castell Dinas Inn	49
Castell Dinas Tavern	1
Castle Pengenffordd	34
Dragon's Castle	3
Dragon's Inn	5

Ffynhonnell: Briggs, 2022b.

9.8 Cysylltir yr enw 'Dragon's Back' gyda 'Y Grib', crib sy'n codi tua'r dwyrain o Bengenffordd. Nodir yr enw 'Dragon's Back' ar OpenStreetMap fel enw troedffordd

sy'n dilyn y grib o Ben y Grib ymlaen (OpenStreetMap, 2023). Mae'r OS yn hyrwyddo taith gerdded o'r enw 'Dragons Back Circular' sy'n dechrau o'r maes parcio wrth ymyl y dafarn (er nad yn faes parcio'r dafarn ei hun) (Purnell, 2020). Mae deunydd hyrwyddo'r daith gylchol yn nodi bod y grib 'wedi'i henwi'n briodol oherwydd ei thwmpathau siâp sy'n ymdebygu i ddraig sy'n cysgu' (Purnell, 2020). Nid yw'n glir a ddaeth yr enw 'Dragon's Back' yn gysylltiedig â'r grib oherwydd i'r dafarn gael ei henwi'n 'Dragon's Back' neu i'r gwrthwyneb.

9.9 Mae'r sylwadau ar y postiad cyntaf ar Dudalen Gymunedol Talgarth ar Facebook (Briggs, 2022a) yn trafod y cysylltiad hwn rhwng y dafarn a'r grib. Cyfeirir at fynediad ar gyfer cerdded (gan gynnwys ar hyd Y Grib) fel ffactor sy'n gwneud y dafarn ddynodwr lleoliad, yn enwedig gyda'r enw nodedig 'Dragon's Back'. Dywedodd un sylwebydd:

> "I ymwelwyr dyw hi ddim mor glir. Rydyn ni hefyd yn cael pobl yn dod i Westy'r Castle Aberhonddu a'r Castle Inn yn Llangors. Roedden ni'n arfer cael llawer o dwristiaid yn parcio yn y maes parcio yng Ngwesty'r Castle yn Nhalgarth yn chwilio am Gastell Dinas ond unwaith iddyn nhw newid yr enw i dragons back [sic] doedd hynny ddim yn digwydd wedyn' (Briggs, 2022a).

9.10 Mae'r pwyntiau a wnaed mewn ymateb i'r postiad cyntaf ar gyfryngau cymdeithasol yn tynnu sylw at ansawdd cynhenid yr enw 'Dragon's Back' ac yn nodi ei fod yn 'hynod werthadwy', yn enwedig gan fod 'enw Dragon's Back wedi dod yn boblogaidd gyda thwristiaid' (Briggs, 2022a). Mae sylwadau eraill yn tynnu sylw at nifer yr achosion o 'castle' mewn enwau tafarndai lleol ac y bydd 'Dragon's Back' yn eu helpu i sefyll allan yn fasnachol (Briggs, 2022a).

9.11 Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r sylwadau sy'n ymateb i'r ymgynghoriad (yn unol â'r canlyniadau pleidleisio) o blaid enw ar gyfer y dafarn sy'n cynnwys 'castle'. Mae sawl sylw yn nodi 'mae wedi cael ei adnabod erioed fel y Castle Pengenffordd' ac mai 'Castle Inn, Pengenffordd, yw'r enw go iawn ar gyfer y dafarn hon' (Briggs, 2022a). Mae'r sylwadau'n cynnwys cyfeiriadau at hanes personol a chysylltiad â'r enw yn ogystal â chyfeiriadau at enw hanesyddol a 'threftadaeth' yr enw (Briggs, 2022a). Er enghraifft, mae rhai yn nodi eu bod wedi 'tyfu lan' gyda'r enw neu'n

cyfeirio at eu cysylltiad â'r dafarn a'r enw. Mae sylwadau eraill yn dadlau 'yn hanesyddol fe'i gelwid The Castle, Pengenffordd' (Briggs, 2022a).

9.12 Er bod yr enw 'Dragon's Back' wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer y dafarn, mae'r gymuned leol yn dal i gyfeirio ati gan ddefnyddio enw sy'n cynnwys y gair 'castle'. Mae un sylw yn crynhoi hyn drwy nodi: 'Yn ei hadnabod erioed fel The Castle Pengenffordd a heb ei galw'n ddim byd arall erioed' (Briggs, 2022a).

9.13 Mae'r astudiaeth achos hon yn amlygu nad yw'r enw a gofnodir o reidrwydd yn cyfateb i'r enw a ddefnyddir ar lafar neu'n anffurfiol ymhlith pobl sydd â rhywfaint o gysylltiad â'r lle. Mae gan y wefan Inapub wybodaeth archif am y dafarn pan gafodd ei henwi'n 'The Dragons Back' (inpub, 2023). Mae'r wybodaeth yn nodi'r enw fel 'The Dragons Back (formerly The Castle Inn)' sy'n dangos sut mae'r enw 'The Castle Inn' yn dal i fod â gwerth cyfeiriol. Mae gwefan bresennol Dinas Castle Inn hefyd yn nodi bod y sefydliad 'gynt yn cael ei adnabod fel The Dragons Back' (Dinas Castle Inn, 2023). Mae'r enghraifft hon hefyd yn dangos sut y gall enw lle fod â sawl cynodiad (cf. Vuolteenaho a Berg, 2009).

9.14 Yn dilyn yr ymgynghoriad, newidiwyd yr enw yn ffurfiol i Dinas Castle Inn trwy gais ailenwi i'r ALl. Mae'n ddiddorol bod y perchnogion wedi dewis defnyddio enw iaith gymysg, Dinas Castle Inn, a gafodd ond wyth y cant o bleidleisiau'r ail bleidlais yn hytrach na'r enw iaith gymysg mwy Cymreig, Castell Dinas Inn a dderbyniodd 49 y cant o'r pleidleisiau. Gall hyn adlewyrchu'r sylwadau a bostiwyd mewn ymateb i'r polau piniwn (lle cyfeirir ati fel 'The Castle' (Briggs, 2022a), neu i gydnabod yr enw hanesyddol, 'Castle Inn' (CBHC, 2023). Nid yw'n glir o'r data pen desg a gasglwyd beth allai'r rheswm dros y dewis hwn fod wedi bod, ond mae'n nodi y gall ailenwi enwau busnes fod yn fater cymhleth.

Crynodeb o ganfyddiadau'r astudiaethau achos

9.15 I grynhoi, mae'r astudiaeth achos hon wedi dangos sut, yn yr achos hwn:

- Gall gwahanol enwau ar gyfer yr un lle gael eu defnyddio gan wahanol grwpiau o bobl, ac nad yw newidiadau i'r enw a gofnodir o reidrwydd yn arwain at newidiadau yn yr enw a ddefnyddir. Yn yr astudiaeth achos hon, dangoswyd bod pobl sydd â chysylltiad sylweddol â'r ardal neu'r dafarn wedi parhau i

gyfeirio ati gan ddefnyddio amrywiadau o enw sy'n cynnwys 'castle'. Mewn sawl achos, roedd y cysylltiadau hyn yn cynnwys hanesion a chysylltiadau personol.

- Gall rhai enwau fod yn gyffredin o fewn ardal neu ranbarth, ond gellir eu gwahaniaethu gan farcwyr (llafar) ychwanegol. Yn yr achos hwn, gwahaniaethwyd Dinas Castle Inn oddi wrth dafarndai eraill a oedd yn cynnwys 'castle' yn eu henw trwy ychwanegu 'Pengenffordd'. Mae ychwanegu 'Pengenffordd' i'r enw yn arwydd o wybodaeth leol.
- Trafodwyd amryw ffactorau sy'n gysylltiedig â newid enw sefydliad masnachol. Yn yr achos hwn, roedd y rhain yn cynnwys y marchnadoedd amrywiol ar gyfer y busnes, sut roedd ailenwi yn arwydd o reolaeth neu berchnogaeth newydd, bod yn unigryw yn yr ardal (lle mae 'castle' yn gyffredin yn enwau tafarndai), bod yn unigryw a'r cysylltiad sefydledig â thwristiaeth a gweithgarwch twristiaeth (yn enwedig cerdded a heicio yn yr achos hwn), a defnydd digidol o'r enw.
- Gall enwau gwahanol nodweddion a lleoedd orgyffwrdd a rhyngweithio â'i gilydd. Yn yr achos hwn, mae enw'r dafarn yn gysylltiedig â'r dirwedd leol, enwau a/neu nodweddion tirweddol, ac mae'n gysylltiedig â gweithgareddau a grwpiau penodol. Mae trafod y newid enw ar gyfryngau cymdeithasol yn dangos, yn yr achos hwn, fod ymwybyddiaeth hefyd o enwau lleoedd a'r cysylltiadau a allai fodoli rhwng un enw lle ac enwau lleoedd cyfagos eraill (yn yr achos hwn, rhwng enw'r dafarn, bryngaer gynhanesyddol gerllaw, ac enw nodweddion tirweddol eraill).

10. Ymchwiliad i enwau eiddo a newidiadau i enwau eiddo ac agweddau at enwau eiddo a newidiadau i enwau mewn ardaloedd penodol

10.1 Mae'r drafodaeth yn y bennod hon yn ymchwilio i enwau eiddo a newidiadau i enwau eiddo mewn ardaloedd penodol ledled Cymru. Mae'r prif ffocws ar saith ardal tirwedd ieithyddol Y Fenni, Abersoch, Cei Connah, Llanberis, Llanidloes, Arberth a'r Eglwys Newydd (gweler Pennod 2 am resymeg y dethol). Mae'r ymchwiliad yn ystyried enwau'r eiddo sydd i'w gweld yn y dirwedd yn y saith ardal, yn seiliedig ar ganlyniadau arolwg tirwedd ieithyddol a gynhaliwyd ar y stryd ym mhob ardal. Yn ogystal, ymchwilir i newidiadau i enwau eiddo yn yr ardaloedd hyn ers 2009 gan ddefnyddio data AddressBase Premium. Ystyrir patrymau newid mewn eiddo enwi ymhellach mewn perthynas ag ardaloedd eraill (deg yng Ngwynedd a saith arall ar draws Cymru) ac o arsylwadau gwaith maes a chanfyddiadau ac agweddau'r unigolion a gafodd eu cyfweld yn y saith ardal tirwedd ieithyddol. Dadansoddir data Booking.com ar gyfer y saith ardal hon am arwyddion o effaith bosibl twristiaeth ar enwau eiddo a newidiadau i enwau eiddo.

Tirwedd ieithyddol

Eiddo wedi'u rhifo ac arallenwi

10.2 Mae'r data tirwedd ieithyddol yn dangos bod y rhan fwyaf o'r eiddo a arolygwyd wedi'u rhifo, gyda 76.6 y cant o'r 7,631 eiddo a arolygwyd ar draws y saith ardal yn eiddo wedi'u rhifo yn unig (Atodiad O, Tabl O1). Mae Abersoch yn sefyll allan o'r ardaloedd eraill, gyda dim ond 7.8 y cant o'r 332 eiddo a arolygwyd yn eiddo wedi'u rhifo yn unig. Mae nifer uwch o eiddo a enwir yn Abersoch (71.1 y cant o'r 332 eiddo a arolygwyd) o'i gymharu â'r ardaloedd eraill. Gallai hyn adlewyrchu'r patrwm anheddu gwahanol yn Abersoch o'i gymharu â'r ardaloedd eraill, gan ei fod yn bentref arfordirol llai o faint gyda chymysgedd o stoc tai hŷn a thai yn cael eu hadeiladu mewn niferoedd bach. Fodd bynnag, canfu'r ymchwiliad hefyd fod mwy o achosion o arallenwi yn Abersoch (21.1 y cant o'r 332 eiddo a arolygwyd) o'i gymharu â'r ardaloedd eraill.

10.3 Roedd yr ardaloedd mwy trefol (Y Fenni, Cei Connah, Yr Eglwys Newydd) yn dangos cyfran uwch o eiddo wedi'u rhifo (Atodiad O, Tabl O1). I'r gwrthwyneb,

roedd gan yr ardaloedd llai trefol (Arberth, Llanidloes, Llanberis) gyfran uwch o eiddo a enwir (Atodiad O, Tabl O).

10.4 Yn ogystal, nodwyd bod 14.6 y cant o'r 7,631 eiddo a arolygwyd ar draws y saith ardal wedi'u rhifo a'u henwi h.y. fel achosion o arallenwi.[26] Dim ond 8.9% o'r 7,361 eiddo a arolygwyd ar draws y saith ardal a oedd yn eiddo ag enw yn unig. Mae hyn yn adlewyrchu ffaith mai trefi neu ardaloedd trefol yn bennaf oedd yr ardaloedd a ddewiswyd ar gyfer yr astudiaeth hon. Nid oes patrwm amlwg i fynychder arallenwi ar draws yr ardaloedd.

Iaith enwau eiddo

10.5 Mae Ffigur 10.1 yn crynhoi data'r dirwedd ieithyddol ar gyfer y saith ardal, gan ddangos iaith enwau eiddo ac arallenwau yn ôl ardal.

10.6 Yn Abersoch, Llanberis a Llanidloes, roedd gan dros 60 y cant o'r eiddo a enwir (arallenwau ac enwau eraill) a arolygwyd enwau Cymraeg. Ar gyfer Abersoch a Llanidloes, roedd yr enwau Cymraeg hyn yn tueddu i fod ar gyfer eiddo heb arallenw (139 achos a 94 achos yn y drefn honno) (Atodiad O, Ffigur O1). Ar gyfer Llanberis, arallenwau oedd y rhan fwyaf o'r enwau Cymraeg (81 achos) (Atodiad O, Ffigur O1).

10.7 Mae dadansoddiad o batrymau iaith enwau eiddo ochr yn ochr â'r patrymau rhifo eiddo ac arallenwi yn cyd-fynd â dealltwriaeth y gweithwyr maes o gymeriad patrymau aneddiadau a datblygiadau eiddo ar gyfer yr ardaloedd. Gellid dod i gasgliad ynghylch patrymau datblygiadau eiddo yn ystod y gwaith maes. Er enghraifft, mae cymeriad hanesyddol tref Llanidloes, gyda chynllun grid canoloesol sy'n rhagflaenu arferion rhifo strydoedd a deddfwriaeth gysylltiedig, yn cydberthyn â mynychder cymharol eiddo a enwir o'i gymharu ag eiddo wedi'u rhifo. Yn Arberth, adlewyrchwyd yr un patrwm yng nghanol y dref, gyda mynychder uwch o enwau Saesneg efallai'n adlewyrchu daearyddiaeth cymdeithasol-ieithyddol hanesyddol Arberth mewn perthynas â Llinell Landsker, neu ffin ieithyddol Sir Benfro.[27] Fodd

[26] Yn yr arolwg tirwedd ieithyddol, nid yw data arsylwadol yn gallu gwahaniaethu rhwng eiddo a enwir neu a arallenwir yn ffurfiol ac yn anffurfiol.
[27] Term a ddefnyddir am y ffin ieithyddol yng Nghymru rhwng yr ardaloedd Cymraeg eu hiaith yn bennaf a Saesneg eu hiaith yn bennaf yn Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin (Mytum, 1994) yw'r Llinell Landsger.

bynnag, roedd arallenwau Cymraeg i'w gweld yn amlwg yn natblygiad ystadau tai newydd sy'n cynnwys eiddo wedi'u rhifo y tu allan i ganol y dref. Canfu'r gweithwyr maes fod yr ystadau tai newydd hyn, yn Arberth a Llanidloes (a'r ardaloedd eraill), yn fwy tebygol o gael arallenwau Cymraeg yn hytrach na rhai Saesneg.

Ffigur 10.1: laith enwau eiddo yn ôl enwi/arallenwi ac ardal



Maint y sylfaen: 7,631

10.8 Ar draws yr ardaloedd, mae'r amrywiadau mewn eiddo wedi'u henwi, eiddo wedi'u rhifo ac eiddo ag arallenwau yn dangos sut mae'r patrwm o ddatblygiad eiddo dros amser yn cael ei adlewyrchu yng nghymeriad ieithyddol yr amgylchedd adeiledig. Mae hefyd yn bosibl canfod bod y patrymau enwi yn adlewyrchu arferion a pholisïau enwi strydoedd a rhifo yr ALlau (Pennod 6). Er enghraifft, roedd datblygiadau mwy diweddar yn tueddu i gael enwau strydoedd Cymraeg neu ddwyieithog o'u cymharu â datblygiadau hŷn. Gwnaed arsylwadau o'r fath hefyd gan y rhai gafodd eu cyfweld yn ystod y gwaith maes (gweler 10.17). Mae'r patrymau hyn hefyd yn adlewyrchu'r cyd-destun sosioieithyddol sy'n gysylltiedig â gwahanol gyfnodau hanesyddol o

ddatblygu, megis yn yr enghraifft uchod o ystadau tai newydd sy'n cyfrannu at batrwm o arallenwau Cymraeg.

Enwi llety gwyliau

10.9 Enw Saesneg sydd gan y mwyafrif (63.2%) o'r eiddo a enwir a restrir ar Booking.com (Tabl 10.1). Mae hyn yn uwch na'r 50.4 y cant o eiddo ag enwau Saesneg (arallenwau ac enwau nad ydynt yn arallenwau) a gofnodwyd yn yr arolwg tirwedd ieithyddol.

Tabl 10.1: Nifer yr eiddo a enwir a restrir ar Booking.com yn ôl ardal ac iaith

	Saesneg	Cymraeg	Cymysg	Arall
Y Fenni	42	4	8	0
Abersoch	11	42	3	2
Cei Connah	3	0	0	0
Llanberis	1	1	1	0
Llanidloes	9	3	2	0
Arberth	73	8	6	1
Yr Eglwys Newydd	4	1	1	0
Cyfanswm	143	59	21	3

Maint y sylfaen: 226

10.10 Mae'r data yn Nhabl 10.1 yn dangos bod lletyau gwyliau yn fwy cyffredin yn Abersoch, Y Fenni ac Arberth o'u cymharu ag ardaloedd eraill. Yn Y Fenni ac Arberth, mae gan gyfran uwch o letyau gwyliau a restrir ar Booking.com enw Saesneg (78 ac 83 y cant yn y drefn honno) na'r eiddo ag enw Saesneg a nodwyd yn yr arolwg tirwedd ieithyddol (68.8 a 59.2 y cant yn y drefn honno) (Atodiad O, Tabl O2). I'r gwrthwyneb, mae gan gyfran uwch o'r eiddo yn Abersoch a restrir ar Booking.com enwau Cymraeg (72.4 y cant). Mae hyn yn uwch na'r eiddo ag enwau Cymraeg (60.5%) ac enwau Saesneg (34%) a gofnodwyd yn yr arolwg tirwedd

ieithyddol (Atodiad O, Tabl O2). Mae gan letyau gwyliau yn Abersoch bron i bedair gwaith yn fwy o enwau Cymraeg (42 eiddo) nag enwau Saesneg (11 eiddo) (Tabl 10.1). Mae'r data hwn yn dangos sut y gall twristiaeth gael effaith gyferbyniol ar iaith enwau eiddo mewn gwahanol ardaloedd. Gallai'r effaith gyferbyniol y mae lletyau gwyliau yn ei gael ar iaith enwau eiddo yn Abersoch, Y Fenni ac Arberth fod yn achos o fwyhau (amplify) cyd-destun sosioieithyddol ehangach yr ardal, neu gallai ddangos bod camau cyferbyniol, bwriadol yn cael eu cymryd i ddefnyddio neu beidio â defnyddio'r Gymraeg i hyrwyddo'r ardal i dwristiaid. Er enghraifft, nododd un o'r rhai a holwyd yn Abersoch fod 'Cymreictod' yr ardal yn 'fonws ychwanegol' wrth ddenu twristiaid neu wrth apelio at y rhai ag ail gartrefi yn Abersoch.

10.11 Dangosodd y data ar gyfer Arberth nad oedd 21 o'r 102 eiddo a restrir ar Booking.com yn cyd-fynd â data OS Places.[28] Mae hyn yn awgrymu bod yr eiddo hyn wedi cael eu harallenwi'n anffurfiol. O'r 21 eiddo hyn, roedd gan 18 arallenwau anffurfiol Saesneg, yn ôl data Booking.com a'r ymarfer cymharu ag OS Places. Mae hyn yn dangos tuedd yn yr ardal hon o roi arallenwau anffurfiol Saesneg ar lety gwyliau. Er enghraifft, mae llawer o'r enwau ar thema natur a themâu gwledig neu arfordirol ac maent yn cynnwys ôl-ddodiaid fel 'cottage' a 'lodge'.

Agweddau at, a chanfyddiadau o enwau strydoedd ac eiddo a newidiadau i enwau

10.12 Cynhaliwyd cyfweliadau stryd anffurfiol yn y saith ardal i helpu i gyd-destunoli data tirwedd ieithyddol, ac i feithrin dealltwriaeth o agweddau at, a chanfyddiadau o enwau strydoedd ac eiddo a newidiadau i enwau yn yr ardaloedd hynny.

10.13 Yn gyffredinol, ar draws yr holl ardaloedd, nid oedd gan y rhan fwyaf o'r rhai a holwyd farn na mewnwelediadau cryf am enwau strydoedd ac eiddo a newidiadau i'r enwau hynny. Fodd bynnag, roedd agweddau cadarnhaol tuag at enwau eiddo Cymraeg ac enwau eiddo yr ystyriwyd eu bod yn meddu ar ystyr neu gysylltiad â'r ardal. Yn gyffredinol, roedd y rhai a holwyd yn ymwybodol bod enwau Cymraeg ar eiddo neu adeiladau nodedig, neu enwau strydoedd dwyieithog, yn gynyddol gyffredin.

[28] Cofnodwyd cyfanswm o 36 achos ar gyfer y saith ardal.

10.14 Cynigiodd ambell i gyfwelai enghreifftiau o enwau tai oedd â chysylltiad daearyddol nad oedd yn uniongyrchol gysylltiedig â'r ardal, er enghraifft enw tŷ yn Yr Eglwys Newydd a oedd yn gysylltiedig â Sir Benfro. Mewn achosion eraill, roedd gan enwau tai gysylltiad personol ac yn golygu nad oedd hynny'n eglur i rywun a fyddai'n cael cipolwg yn unig ar yr enw. Er enghraifft, yn Llanidloes, esboniodd perchennog fod ei dŷ wedi'i enwi ar ôl y llong llynges fasnachol yr oedd perchennog blaenorol (a adeiladodd y tŷ ei hun) wedi gwasanaethu arni. Nododd y cyfwelai fod y cysylltiad hwn wedi ei ddarganfod ar hap wrth sgwrsio â chymydog, ond pwysleisiodd bwysigrwydd y stori y tu ôl i'r enw a'i fod yn falch ei fod yn gwybod hanes yr enw.

10.15 Nid oedd gan y rhan fwyaf o'r rhai a holwyd unrhyw farn ar enwi eiddo nac ymwybyddiaeth o newidiadau i enwau eiddo, felly nid oedd yn glir sut roedd pobl yn barnu dilysrwydd enwau yn seiliedig ar eu dealltwriaeth o iaith yr enw, cysylltiad yr enw â'r ardal, unrhyw gysylltiadau hanesyddol, cysylltiadau personol, neu arwyddocâd yr enw. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod gan rai o'r rhai a holwyd farn ar ddilysrwydd enwau strydoedd ac eiddo. Er enghraifft, nododd un person a gafodd ei gyfweld yn Y Fenni, 'mae'n ymddangos bod [rhai] pobl yn enwi [eiddo] ar ôl lleoliadau gwyliau y maen nhw wedi eu mwynhau e.e. Sunny Mount. Yn aml, pethau sy'n bersonol iddyn nhw yn hytrach nag unrhyw beth sy'n ystyrlon yn lleol'. Dywedodd person arall a gafodd ei gyfweld yn Llanberis ei fod yn falch gweld eiddo wedi'i adnewyddu yn cael ei ailenwi gydag enw Cymraeg newydd. Yn yr achos hwn, y gymeradwyaeth oedd bod y perchnogion wedi dewis enw Cymraeg yn lle'r enw Saesneg presennol, yn hytrach na bod gan yr enw Cymraeg newydd unrhyw berthnasedd hanesyddol penodol i'r ardal.

10.16 O'r cyfweliadau a gynhaliwyd ar draws yr ardaloedd, roedd canfyddiad bod presenoldeb cynyddol o enwau Cymraeg ar gyfer strydoedd a datblygiadau. Roedd hyn yn cyd-fynd ag arsylwadau a dehongliadau'r gweithwyr maes o batrymau datblygu o fewn yr ardaloedd. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r cyd-destun deddfwriaethol a pholisi newidiol. Ar y cyfan roedd y rhai a holwyd yn ymwybodol o'r ymdrechion i hyrwyddo'r Gymraeg, ac yn ystyried bod presenoldeb y Gymraeg mewn enwau strydoedd ac ar arwyddion cyhoeddus yn gysylltiedig â'r ymdrechion hyn. Roedd y rhai a holwyd yn aml yn awyddus i drafod eu perthynas â'r Gymraeg,

a'u hagweddau cadarnhaol tuag ati, wrth ystyried hyrwyddo'r Gymraeg ac enwau Cymraeg strydoedd ac eiddo yn gyffredinol.

10.17 Roedd canfyddiad cyffredinol nad oedd enwau eiddo yn newid i bob pwrpas. Roedd Yr Eglwys Newydd yn eithriad i hyn ac fe drafodir hynny isod. Amlinellodd y rhai a holwyd gymhellion ar gyfer enwi eiddo, yn hytrach nag o reidrwydd newid enwau. Gallai hyn ddangos arwyddocâd arallenwi sy'n gysylltiedig â datblygiadau newydd, lle mae datblygiadau newydd yn cynnwys eiddo wedi'u rhifo yn bennaf (ac felly'n eiddo dienw) a'r eiddo'n cael eu henwi trwy broses arallenwi.

10.18 Yn debyg i ganfyddiadau arolwg enwau tai digidol Cadw (Pennod 7), roedd y cymhellion a nodwyd gan y rhai a holwyd yn cynnwys cysylltiadau personol, awydd am enw Cymraeg, cysylltiadau daearyddol lleol, neu gysylltiadau hanesyddol. Nododd rhai a holwyd y gallai peidio â bod yn hoff o enw eiddo a roddwyd gan berchennog blaenorol arwain at newidiadau i enwau eiddo, ond nid oedd y cymhellion dros beidio â hoffi enw yn wahanol i'r ffactorau hynny yn ymwneud ag enwi.

10.19 Roedd y rhai a holwyd yn tueddu i gysylltu enwau strydoedd ac eiddo â phrosesau ehangach. Roedd y canfyddiadau hyn yn tueddu i adlewyrchu cyd-destun yr ardaloedd. Er enghraifft, yn Llanberis ac Arberth, roedd canfyddiad bod newidiadau i enwau eiddo i'r Saesneg yn cael eu gyrru gan dwristiaeth. Mae hyn yn adlewyrchu pwysigrwydd cymharol y sector twristiaeth i'r trefi hyn, ond gallai hefyd adlewyrchu ymwybyddiaeth neu ganfyddiadau cynyddol y cyhoedd o effeithiau twristiaeth. Roedd hyn hefyd yn ymwneud â phryderon am newidiadau i enwau tirweddol, yn enwedig yn Llanberis lle mynegodd nifer bryder ynghylch y defnydd ar-lein o enwau Saesneg ar gyfer lleoedd yn y dirwedd o amgylch Llanberis sy'n gysylltiedig â thwristiaeth, megis 'Steps of Cirith Ungol' yn lle Llwybr Llwynog a 'Looning the Tube Level' ar gyfer Ponc Penrhydd.

10.20 Yng Nghei Connah, roedd enwau eiddo Cymraeg yn tueddu i fod yn gysylltiedig ag ardaloedd mwy gwledig y tu allan i'r dref. Yn Yr Eglwys Newydd, nododd y rhai a holwyd, er bod y rhan fwyaf o dai wedi'u rhifo, fod canfyddiad bod mewnfudiad siaradwyr Cymraeg i'r ardal yn arwain at roi enwau Cymraeg ar dai. Yn yr ardaloedd mwy trefol (Y Fenni, Cei Connah, Yr Eglwys Newydd) nododd y rhai a holwyd fod

mwy a mwy o ddefnydd o enwau strydoedd ac arwyddion Cymraeg. Mae hyn yn dangos patrwm o Gymreigeiddio enwau lleoedd (gweler Pennod 11).

10.21 Adlewyrchwyd agweddau cadarnhaol at y Gymraeg hefyd yn y canfyddiad bod busnesau'n mabwysiadu mwy o Gymraeg, gyda'r rhai a holwyd yn egluro bod hyn yn digwydd oherwydd bod "Cymraeg yn ffasiynol ar hyn o bryd" (cyfweliad). Roedd hyn yn arbennig o wir yn Yr Eglwys Newydd, lle roedd canfyddiad bod busnesau yn ysgogi newidiadau i enwau o'r Saesneg i'r Gymraeg. Mewn mannau eraill fodd bynnag, ystyriwyd bod busnesau'n ysgogi newidiadau i enwau o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg ill dau. Yng Ngwynedd (Abersoch a Llanberis), nododd y rhai a holwyd y gallai busnesau ysgogi'r ddau newid. Yma, roedd canfyddiad bod enwau busnes yn aml yn cael eu dewis i apelio at dwristiaid. Er enghraifft, yn Llanberis, nododd un a holwyd (a oedd wedi dysgu Cymraeg) bwysigrwydd defnyddio enw Cymraeg ar gyfer eu busnes fel rhan o'u brand unigryw a ddyluniwyd i apelio at dwristiaid. Dywedodd yr unigolyn hwn hefyd fod perchnogion busnes di-Gymraeg eraill wedi mabwysiadu enwau busnes Cymraeg i 'berthyn' ac i greu naws o le Cymraeg unigryw i'r gymuned a thwristiaid.

Newidiadau i enwau eiddo dros amser

10.22 Mae data AddressBase Premium yn caniatáu ymchwilio i newidiadau i enwau eiddo preswyl a busnes yn y saith ardal tirwedd ieithyddol dros dri chyfnod rhwng 2009-2014, 2015-2019, a 2020-2024.[29] Mae data AddressBase Premium wedi'i grynhoi yn Atodiad P.

10.23 Mae'n anodd cymharu'r ardaloedd gan ddefnyddio data AddressBase Premium oherwydd bod nifer yr eiddo ym mhob ardal yn amrywio'n fawr ac mae nifer y newidiadau i enwau preswyl yn isel iawn (llai na thri) mewn dwy ardal (Tabl 10.2). Fodd bynnag, mae'r data'n adlewyrchu rhai o'r patrymau a nodwyd yn y data tirwedd ieithyddol ac yn atgyfnerthu rhywfaint o'r dadansoddiad.

10.24 Y Fenni a'r Eglwys Newydd sy'n dangos y nifer uchaf o newidiadau i enwau, 335 a 198 yn y drefn honno. Mae hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith bod yr aneddiadau hyn yn fwy na'r ardaloedd eraill. Dim ond 14 newid a welir yng Nghei Connah. Mae

[29] Dechreuodd y rhan fwyaf o ALlau fewnbynnu data AddressBase Premium yn 2009, fodd bynnag mae rhai cofnodion sy'n mynd yn ôl cyn belled â 2007.

hyn yn dangos nad maint anheddiad yw'r unig ffactor sy'n dylanwadu ar nifer y newidiadau. Ar ôl Y Fenni a'r Eglwys Newydd, Arberth oedd â'r nifer uchaf o newidiadau enwau a gofnodwyd (128). Ymddengys fod hyn yn cefnogi canfyddiadau'r arolwg tirwedd ieithyddol a'r arsylwadau gwaith maes a ganfu fod gan Arberth nifer o dai hŷn a enwir yng nghanol y dref. Yn cefnogi'r canfyddiad hwn ond i raddau llai, oedd y data ar gyfer Llanidloes – tref hanesyddol arall gyda mwy o duedd ar gyfer eiddo a enwir (60). Mae'r nifer is o newidiadau a nodwyd ar gyfer Abersoch (21) yn debygol o adlewyrchu maint yr anheddiad o'i gymharu â'r ardaloedd eraill ac o bosibl pwysigrwydd enwau i'r gymuned.

Tabl 10.2: Crynodeb o ddata newid enw eiddo AddressBase Premium fesul ardal yn ôl enwau busnes a phreswyl

Ardal	Nifer y newidiadau i enwau busnes	Nifer y newidiadau i enwau preswyl	Cyfanswm newidiadau i enwau
Y Fenni	250	85	335
Yr Eglwys Newydd	94	114	208
Arberth	24	104	128
Llanidloes	11	49	60
Abersoch	6	15	21
Cei Connah	12	2	14
Llanberis	11	1	12

Maint y sylfaen: 778

10.25 Mae nifer y newidiadau i enwau busnesau ac eiddo preswyl yn gyrru newidiadau i enwau eiddo ar draws y saith ardal (Tabl 10.2). Mae'n nodedig mai newidiadau i enwau eiddo busnes (yn enwedig mewn perthynas â busnesau masnachol mawr sydd â sawl lleoliad) sy'n gyfrifol am 74.6 y cant o'r newidiadau i enwau eiddo yn Y Fenni dros y cyfnod 2009 i 2024. Mae hyn yn cyferbynnu â Llanidloes ac Arberth, lle roedd y rhan fwyaf o newidiadau i enwau eiddo yn dod yn sgil newidiadau i enwau eiddo preswyl, 81.6 y cant ac 81.3 y cant yn y drefn honno. Mae'r data hwn yn awgrymu tebygrwydd rhwng Llanidloes ac Arberth, a ddaeth i'r amlwg hefyd wrth ddadansoddi data'r dirwedd ieithyddol. Fodd bynnag, nid oes patrwm amlwg yn ymwneud â natur drefol cymharol yr ardaloedd hyn. Er enghraifft, roedd newidiadau i enwau eiddo yn Yr Eglwys Newydd yn gymharol gytbwys rhwng newidiadau i

enwau busnes ac eiddo preswyl, tra bod y data ar gyfer Cei Connah yn dangos dim ond 14 o newidiadau (12 ohonynt yn newidiadau i enwau busnes).

10.26 Mae'r data'n dangos, ar draws y saith ardal, bod iaith enwau eiddo wedi bod yn gymharol sefydlog er gwaethaf newidiadau i enwau eiddo. Mewn 81.6% o'r newidiadau i enwau eiddo, ni wnaeth newid enw arwain at newid yn iaith enw'r eiddo. Roedd y mwyafrif (77.7%) o'r holl newidiadau i enwau eiddo ar draws y saith ardal o enw eiddo Saesneg i enw eiddo Saesneg arall. Mae'r patrwm hwn yn adlewyrchu'r hyn a nodir gan y data ar geisiadau am ailenwi eiddo a dderbynnir gan ALlau a drafodir ym Mhennod 5 (gweler paragraffau 5.14-5.23).

10.27 Arweiniodd newid yn enw'r eiddo at newid iaith enw'r eiddo mewn 15.9% o achosion. Pan arweiniodd newid yn enw'r eiddo at newid iaith enw'r eiddo, roedd nifer y newidiadau o enw Saesneg i enw Cymraeg (6 y cant o'r holl newidiadau i enwau eiddo) bron ddwywaith gymaint â'r newidiadau o enw Cymraeg i enw Saesneg (3.7 y cant o'r holl newidiadau i enwau eiddo). Yn ogystal, mae newidiadau i enwau eiddo Saesneg yn fwy tebygol o arwain at enw eiddo Saesneg/Cymraeg cymysg (2.4 y cant o'r holl newidiadau i enwau eiddo), o'i gymharu â newidiadau i enwau eiddo Cymraeg (gyda dim ond 0.3 y cant o'r holl newidiadau i enwau eiddo). Mae'r patrwm hwn yn adlewyrchu'r hyn a nodir gan y data ar geisiadau am ailenwi eiddo a dderbynnir gan ALlau a drafodir ym Mhennod 5 (gweler paragraffau 5.14-5.23).

10.28 Mae'r data ar gyfer enwau eiddo busnes yn dangos tueddiad cryfach i newidiadau enw fod o enw Saesneg i enw Saesneg arall (89.7 y cant o'r newidiadau i enwau) o'i gymharu ag eiddo preswyl (64.6 y cant o'r newidiadau i enwau). Gallai hyn adlewyrchu'r ffaith bod enwau eiddo busnes yn fwy tebygol o fod yn enwau Saesneg (yn enwedig mewn perthynas â busnesau masnachol mawr sydd â sawl lleoliad) o gymharu ag enwau eiddo preswyl. Fodd bynnag, mae'r data'n dangos yn glir bod newidiadau i enwau eiddo preswyl yn fwy tebygol o olygu newid iaith o'r Saesneg i naill ai enwau Cymraeg a Saesneg cymysg neu enwau Cymraeg.

10.29 Mae llawer o'r newidiadau i enwau busnes a nodwyd yn newidiadau rhwng enwau cyfarwydd ar y stryd fawr lle mae'r eiddo wedi'i gaffael gan fusnes arall, neu lle mae'r busnesau eu hunain yn newid eu henw. Mewn achosion eraill, arweiniodd

llawer o newidiadau i enwau eiddo busnes at newid enw rhannol gan nad oedd y newid i enw yn golygu newid yn y sector yr oedd y busnes yn yr eiddo hwnnw yn gweithredu ynddo, er enghraifft garejys modur neu bwcis.

10.30 Mae data AddressBase Premium wedi'i ymrannu'n dri chyfnod amser (2009-2014, 2015-2019 a 2020-2024). Mae dadansoddiad o'r newidiadau i enwau eiddo dros amser yn dangos bod y rhan fwyaf o newidiadau i enwau eiddo (56.6%) wedi digwydd yn y cyfnod 2009-2014. Yn y saith ardal, gostyngodd newidiadau i enwau eiddo preswyl dros y tri chyfnod amser, gyda 242 o newidiadau rhwng 2009 a 2014, 70 o newidiadau rhwng 2015 a 2019, a 58 o newidiadau rhwng 2020 a 2024. Nid yw'r data'n cwmpasu cyfnod digon hir i ganiatáu dadansoddiad mwy helaeth o dueddiadau dros amser. Fodd bynnag, mae'n ddiddorol nodi'r duedd o ran llai o newidiadau i enwau eiddo preswyl dros gyfnod y data. Gyda newid ym mherchnogaeth eiddo yn cael ei gydnabod fel sbardun posibl ar gyfer newid enw eiddo (gweler y drafodaeth ym Mhennod 7), gallai fod cydberthynas rhwng y gostyngiad mewn newidiadau i enwau eiddo a gostyngiad yn nifer y gwerthiannau eiddo.[30] Nodwyd patrwm gwahanol ym Mhennod 5, gyda Ffigur 5.4 yn dangos bod ALlau wedi derbyn nifer uwch o geisiadau am ailenwi eiddo preswyl rhwng 2020 a 2022 nag yn naill ai Ebrill 2019 i Mawrth 2020 neu Ebrill 2022 i Mawrth 2023. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl cymharu'n uniongyrchol rhwng data AddressBase Premium a'r data gan ALlau gan eu bod yn cwmpasu gwahanol gyfnodau amser.

Ymchwilio i batrwm newidiadau i enwau eiddo mewn ardaloedd eraill

10.31 Archwiliwyd patrymau mewn newidiadau i enwau eiddo mewn saith ardal ychwanegol, gan ddefnyddio AddressBase Premium i gefnogi'r ymchwiliad a amlinellir uchod. Mae'r data hyn wedi'i gynnwys yn Atodiad P (Tabl P3 a Thabl P4). Nod y dadansoddiad ychwanegol hwn oedd adeiladu darlun ehangach o dueddiadau ledled Cymru, ac i nodi unrhyw wahaniaethau rhanbarthol.

10.32 Roedd y patrymau mewn newidiadau i enwau eiddo yn y saith ardal ychwanegol yn ategu'r patrymau hynny a nodwyd ar gyfer y saith ardal yr ymchwiliwyd iddynt hefyd gan ddefnyddio'r dull tirwedd ieithyddol:

[30] Rhwng Hydref 2019 a Hydref 2023 gostyngodd nifer y gwerthiannau eiddo yng Nghymru o 4,294 i 2,119 (Cofrestrfa Tir EF, 2024).

- Digwyddodd y mwyafrif (51.6%) o'r newidiadau i enwau eiddo rhwng 2009 a 2014.
- Nid oedd y mwyafrif (63.1%) o'r newidiadau i enwau eiddo yn golygu newid yn iaith enw'r eiddo, gyda 54 y cant o'r holl newidiadau i enwau eiddo o enw Saesneg i enw Saesneg arall.
- Roedd newidiadau i enwau eiddo busnes yn fwy tebygol o fod yn newid o enw Saesneg i enw Saesneg arall (72.4%) o'i gymharu â newidiadau i enwau eiddo preswyl (36.4%).
- Pan fo newidiadau i enwau eiddo yn golygu newid iaith, roedd newidiadau o enw Saesneg i enw Cymraeg (13.9 y cant o'r holl newidiadau i enwau eiddo) fwy na dwbl y newidiadau o enw Cymraeg i enw Saesneg (5.9 y cant o'r holl newidiadau i enwau eiddo).
- Mae newidiadau i enwau eiddo Saesneg yn fwy tebygol o arwain at enw eiddo Saesneg/Cymraeg cymysg (3.5 y cant o'r holl newidiadau i enwau eiddo), o'i gymharu â newidiadau i enwau eiddo Cymraeg (gyda dim ond 2.7 y cant o'r holl newidiadau i enwau eiddo).

10.33 Yn yr un modd ag ardaloedd yr astudiaeth tirwedd ieithyddol, mae'n anodd cymharu'r ardaloedd gan ddefnyddio data AddressBase Premium am fod nifer yr eiddo ym mhob ardal yn amrywio'n fawr a bod nifer y newidiadau i enwau preswyl yn isel iawn.

10.34 Llandrindod a Llangollen welodd y nifer fwyaf o newidiadau i enwau eiddo preswyl, gyda 134 a 61 o newidiadau yn y drefn honno. Mae'n debyg bod hyn yn adlewyrchu'r un patrwm anheddu a nodwyd yn y drafodaeth am Arberth a Llanidloes (paragraff 20.23). Roedd y nifer lleiaf o newidiadau i enwau eiddo preswyl ar gyfer y saith ardal ychwanegol yn Nhreorci a Wrecsam a Llandegla-yn-Iâl, gyda 9 a 13 o newidiadau yn y drefn honno. Ar gyfer Wrecsam a Llandegla-yn-Iâl, mae'n ddiddorol nodi bod Cei Connah gerllaw hefyd wedi cael nifer isel o newidiadau i enwau eiddo (paragraff 10.23).

Ymchwilio i batrwm newidiadau i enwau eiddo mewn ardaloedd ychwanegol yng Ngwynedd

10.35 Yn ogystal ag Abersoch a Llanberis, ymchwiliwyd i batrwm newidiadau i enwau eiddo mewn deg ardal ychwanegol yng Ngwynedd drwy ddadansoddi data AddressBase Premium ar gyfer yr ardaloedd hynny. Dangosodd y data ar gyfer ceisiadau ailenwi a dderbyniwyd gan ALlau fod ceisiadau ailenwi eiddo yng

Ngwynedd yn ysgogi newidiadau yn iaith enwau eiddo o'r Saesneg i'r Gymraeg (paragraff 5.21).

10.36 Fel yn achos y data AddressBase Premium arall, gall fod yn anodd nodi patrymau mewn perthynas ag ardaloedd penodol oherwydd y nifer isel o newidiadau (sy'n adlewyrchu'n rhannol y boblogaeth gymharol isel a nifer isel yr eiddo yn yr ardaloedd a ddewiswyd). Dolgellau oedd â'r nifer uchaf (23) o newidiadau i enwau eiddo yn y cyfnod rhwng 2009-2024, a Thrawsfynydd oedd â'r nifer lleiaf (4) o newidiadau i enwau eiddo yn yr un cyfnod. Mae'r nifer isel o newidiadau yn gwneud dadansoddiad o newidiadau i enwau eiddo yn ôl ardal yn anodd. Fodd bynnag, gellir nodi rhai patrymau pan ystyrir y data ar gyfer pob un o'r deg ardal.

10.37 Roedd y patrymau mewn newidiadau i enwau eiddo yn y deg ardal ychwanegol yng Ngwynedd yn adleisio'r patrymau hynny a nodwyd ar gyfer yr ardaloedd eraill yr ymchwiliwyd iddynt fel rhan o'r ymchwil hon:

- Digwyddodd y mwyafrif (76.6%) o newidiadau i enwau eiddo rhwng 2009 a 2014.
- Nid oedd mwyafrif (50.5%) y newidiadau i enwau eiddo yn golygu newid yn iaith enw'r eiddo.
- Roedd newidiadau i enwau eiddo busnes yn llawer mwy tebygol o fod yn newid o enw Saesneg i enw Saesneg arall (54.8%) o'i gymharu â newidiadau i enwau eiddo preswyl (10.1%).

10.38 Mae rhai gwahaniaethau trawiadol wedi'u nodi o ran newidiadau i enwau eiddo sy'n arwain at gyfran uwch o enwau eiddo Cymraeg yn yr ardaloedd yng Ngwynedd. Y categori newid mwyaf cyffredin oedd newid enw eiddo o enw Saesneg i enw Cymraeg, a oedd yn gyfrifol am 34 o 111 o newidiadau i enwau eiddo (neu 30.6 y cant o'r holl newidiadau). Roedd newidiadau o enw Saesneg i enw Cymraeg tua deg gwaith yn fwy na'r newidiadau o enw Cymraeg i enw Saesneg (3.6 y cant o'r holl newidiadau i enwau eiddo). Mae'r canfyddiadau hyn yn cyd-fynd â'r canfyddiadau sy'n ymwneud â Gwynedd a drafodwyd ym Mhennod 5 (paragraff 5.21).

Crynodeb o ganfyddiadau allweddol

10.39 Mae'r bennod hon wedi ystyried nifer o ffynonellau data i archwilio enwau eiddo a newidiadau i enwau eiddo ar draws 27 o wahanol ardaloedd. Mae hyn wedi cynnwys archwilio'r dirwedd ieithyddol mewn 7 ardal, agweddau at enwau eiddo ac enwi, enwi lletyau gwyliau, a dadansoddi newidiadau i enwau eiddo a gofnodwyd dros amser.

10.40 Y canfyddiadau allweddol mewn perthynas â data'r dirwedd ieithyddol yw bod mwyafrif (76.6%) o'r 7,361 eiddo a arolygwyd yn y saith ardal yn eiddo wedi'u rhifo, gyda 14.6 y cant o eiddo wedi'u harallenwi, a dim ond 8.9 y cant yn eiddo a enwir. Roedd gan yr ardaloedd mwy trefol gyfran uwch o eiddo wedi'u rhifo o'i gymharu â'r ardaloedd eraill. Roedd cyfran yr eiddo ag enwau Cymraeg (arallenwau a rhai nad ydynt yn arallenwau) yn amrywio ar draws ardaloedd, gyda dros 60 y cant o'r eiddo a enwir a arolygwyd yn Abersoch, Llanberis a Llanidloes ag enwau Cymraeg.

10.41 Mae lletyau gwyliau a restrir ar Booking.com yn fwy cyffredin yn Abersoch, Y Fenni ac Arberth o'u cymharu â'r ardaloedd eraill. Yn Y Fenni ac Arberth, mae cyfran y lletyau gwyliau gydag enwau Saesneg (78 ac 83 y cant yn y drefn honno) yn uwch na'r eiddo ag enwau Saesneg a nodwyd yn yr arolwg tirwedd ieithyddol (68.8 a 59.2 y cant yn y drefn honno). I'r gwrthwyneb, mae gan gyfran uwch o'r eiddo yn Abersoch a restrir ar Booking.com enwau Cymraeg (72.4 y cant). Mae hyn yn uwch na'r eiddo ag enwau Cymraeg (60.5%) a'r eiddo ag enwau Saesneg (34%) a gofnodwyd yn yr arolwg tirwedd ieithyddol. Mae gan letyau gwyliau yn Abersoch a restrir ar Booking.com bron i bedair gwaith yn fwy o enwau Cymraeg (42 eiddo) nag enwau Saesneg (11 eiddo). Mae'r data hwn yn dangos sut y gall twristiaeth gael effaith wahanol ar iaith enwau eiddo mewn gwahanol ardaloedd.

10.42 Y canfyddiadau allweddol mewn perthynas ag agweddau a chanfyddiadau pobl o ran enwau strydoedd ac eiddo a newidiadau iddynt oedd nad oedd gan y rhan fwyaf o'r rhai a holwyd farn na safbwyntiau cryf ar y pwnc. Roedd hyn yn cyfrannu at ganfyddiad cyffredinol nad oedd enwau strydoedd ac eiddo ar y cyfan yn newid. Fodd bynnag, yn yr ardaloedd mwy trefol, sylwodd y rhai a holwyd fod arwyddion dwyieithog ac enwau Cymraeg yn dod yn fwy cyffredin ar strydoedd a datblygiadau newydd. Roedd agweddau cadarnhaol cryf tuag at y Gymraeg, ac roedd yr

agweddau hyn yn ymestyn at enwau strydoedd ac eiddo Cymraeg. Daeth yn amlwg o'r cyfweliadau fod pobl yn ffurfio barn ar ddilysrwydd enwau strydoedd neu leoedd a oedd yn ddibynnol ar nifer o ffactorau newidiol, gan gynnwys iaith yr enw ac unrhyw gysylltiadau daearyddol neu hanesyddol â'r enw.

10.43 Roedd y bennod hon hefyd yn ystyried newidiadau i enwau eiddo dros amser. Dangosodd y data fod y rhan fwyaf o newidiadau i enwau eiddo ar draws y pedair ardal ar hugain wedi digwydd rhwng 2009 a 2014, ac nad oedd newidiadau i enwau eiddo yn tueddu i olygu newid yn iaith enw'r eiddo. Pan fo newidiadau yn golygu newid yn iaith enw'r eiddo, roeddent yn tueddu i newid o enw eiddo Saesneg i enw eiddo Cymraeg. Mae'r data hefyd yn amlygu bod newidiadau i enwau eiddo preswyl yn tueddu i arwain at fwy o enwau Cymraeg na newidiadau i enwau eiddo busnes (a oedd yn tueddu i olygu newid enw Saesneg i enw Saesneg arall). Mae'r data ar gyfer y deg ardal yng Ngwynedd yn dangos bod newidiadau i enwau eiddo yn fwy tebygol o olygu newid enw eiddo Saesneg i enw eiddo Cymraeg o'i gymharu â'r ardaloedd eraill yr ymchwiliwyd iddynt.

11. Ystyriaethau thematig mewn perthynas ag enwi lleoedd a newidiadau i enwau lleoedd yng Nghymru

11.1 Yn y bennod hon, rydym yn cyflwyno themâu eang sy'n darparu cyd-destun i'r gwaith o enwi lleoedd a newid enwau lleoedd yng Nghymru. Gan adeiladu ar ganfyddiadau'r adolygiad llenyddiaeth ynghylch arwyddocâd enwau lleoedd, mae'r themâu hyn yn seiliedig ar ein dadansoddiad o'r holl ddata a gasglwyd ar gyfer y prosiect hwn. Mae'r themâu hyn yn helpu i ddeall rhai o'r materion sy'n ymwneud ag enwi lleoedd a newidiadau i enwau lleoedd yng Nghymru a sut mae'r rhain yn ymwneud â materion eraill, neu sut y canfyddir eu bod yn ymwneud â materion eraill. Mae'r themâu hyn hefyd yn helpu i ddeall y cymhellion dros enwi lleoedd a newid enwau lleoedd yng Nghymru a'r ymateb i hynny.

Defnydd tir a newidiadau economaidd-gymdeithasol

11.2 Mae enwau lleoedd wedi newid erioed, ac mae'r newidiadau hyn yn tueddu i adlewyrchu'r cyd-destun economaidd-gymdeithasol ehangach. Yn achos enwau lleoedd Cymraeg, gellir adlewyrchu'r cyd-destun ieithyddol hefyd mewn enwau lleoedd a newidiadau i enwau lleoedd. Roedd consensws eang yn y cyfweliadau â rhanddeiliaid a chyda swyddogion ERhS bod newidiadau i enwau lleoedd yn adlewyrchu'r newidiadau yn y cyd-destun economaidd-gymdeithasol a defnydd tir. Roedd y rhai a holwyd yn gosod cyd-destun i'w gwaith a'u profiad eu hunain mewn perthynas â'r ddealltwriaeth hanesyddol bod enwau lleoedd a newidiadau i enwau lleoedd yn adlewyrchu newidiadau yn y cyd-destun economaidd-gymdeithasol a defnydd tir. Roedd enghreifftiau a nodwyd yn y cyfweliadau yn cynnwys bod newidiadau i enwau lleoedd o'r fath, yn hanesyddol, yn adlewyrchu defnydd amaethyddol neu ymgynhaliol.

11.3 Mae'r astudiaeth achos o ailenwi Dinas Castle Inn a'r ymateb ar y cyfryngau cymdeithasol hefyd yn tynnu sylw at sut y gall enwau lleoedd newid neu, mewn rhai achosion, esblygu dros amser. Yr ofn pan mae enwau lleoedd yn newid yw bod 'hanes yn cael ei golli' (Owen, 2018; Jones, 2023). Fodd bynnag, mewn sawl achos gellir cofnodi enwau lleoedd, er enghraifft trwy'r Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru neu waith Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru (CELIC), neu eu cadw trwy gofnodion neu arteffactau hanesyddol eraill. Lle cofnodir enw mewn

modd o'r fath, nid yw'n glir sut mae hyn yn effeithio ar y defnydd lleol o'r enw sydd wedi newid. Mewn achosion eraill, megis gydag enghraifft Dinas Castle Inn, gellir cadw'r enw hanesyddol trwy ddefnydd lleol newydd neu barhaus.

11.4 Mae'r data ar newidiadau i enwau lleoedd a gesglir gan ALlau fel rhan o'r ymchwil hon yn dangos, mewn rhai achosion lle mae eiddo yn cael ei ailenwi, y gall yr ailenwi weithredu fel marcwyr newidiadau economaidd-gymdeithasol a newidiadau o ran defnydd sy'n ffurfio rhan o hanes yr eiddo. Er enghraifft, os yw hen ysgol wedi cau, efallai oherwydd bod nifer y plant yn y boblogaeth leol wedi gostwng, ac yn cael ei throi'n dŷ ond bod yr enw newydd yn cynnwys cyfeiriad at ddefnydd yr adeilad yn y gorffennol. Gallai hyn ddigwydd drwy gynnwys 'ysgol' neu 'school' yn yr enw, er enghraifft 'Yr Hen Ysgol'. Mae enghraifft arall yn y data a gasglwyd yn cynnwys 'Sŵn y Plant', sef enw newydd ar ysgol a addaswyd.

11.5 Mewn achosion lle caiff enw ei newid o enw Cymraeg i enw Cymraeg a Saesneg cyfansawdd neu ‘gymysg’, mae hyn yn aml yn cynnwys ychwanegu ôl-ddodiad fel ‘Cottage’ neu ‘House’. Er enghraifft, roedd y data a ddarparwyd gan ALlau yn cynnwys ceisiadau i ailenwi 'Tan y Bont' fel 'Tan y Bont Cottage' a 'Panteg' fel 'Panteg House'. Yn yr achosion hyn, nid yw'r enw Cymraeg o reidrwydd yn cael ei 'golli', er bod yr ailenwi yn effeithio ar y dirwedd ieithyddol trwy Seisnigeiddio enw a arferai fod yn Gymraeg. Mae'n bosibl bod arferion o'r fath yn adlewyrchu newid perchnogaeth, perchnogion nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg, neu'n berchnogion a allai fod yn ailenwi eiddo at ddibenion busnes neu i apelio at farchnad lletyau gwyliau. Gall ôl-ddodiaid fel y rhai a nodwyd fod yn arwyddion o amodau economaidd-gymdeithasol yn newid y tu hwnt i newidiadau ieithyddol yn unig (Nash, 1999).

11.6 Nodwyd yn y cyfweliad gyda Chymdeithas Enwau Lleoedd Cymru (CELIC) bod newidiadau o'r fath yn amlwg mewn enwau lleoedd cyfoes, ac y gall yr enwau hyn weithredu fel ffynonellau hanesyddol. Er enghraifft, yn Oes Fictoria, newidiodd enwau lleoedd i adlewyrchu twristiaeth gynyddol o Loegr, gan arwain at enwau lleoedd sy'n aros gyda ni heddiw fel Happy Valley ym Meirionnydd a Grey Mare’s Tail yn sir Conwy. Nid yw’r enwau yma 'heb ddiddordeb, nac ychwaith yn annilys,

ond ydyn nhw'n enwau fydden ni am eu hyrwyddo yn y byd sydd ohoni?' (CELIC, cyfweliad).

11.7 Mae twristiaeth yn parhau i fod yn gysylltiedig â newidiadau i enwau lleoedd ac yn yr ymchwil a gynhaliwyd hyd yma, a chyfeiriwyd at hynny'n aml mewn cyfweliadau fel y prif ffactor sy'n ysgogi newidiadau i enwau lleoedd. Dywedodd un cyfwelydd yn ddi-flewyn-ar-dafod 'na fyddai hynny'n [newid enw lleoedd] digwydd heb dwristiaeth' (cyfweliad â rhanddeiliaid). Nododd un arall a holwyd mai 'tai gwyliau yw'r enghraifft fwyaf cyffredin o newidiadau i enwau lleoedd', ond bod 'newidiadau i enwau lleoedd yn tueddu i gael eu sbarduno gan newidiadau eraill megis newid perchnogaeth neu ddefnydd eiddo' (cyfweliad â rhanddeiliaid). Nododd Swyddog ERhS ALl, 'yn ddiweddar, gyda COVID, rydyn ni wedi gweld cynnydd mewn gwyliau gartref [a chan fod hon] yn ardal i dwristiaid, rydyn ni wedi cael llawer o newidiadau defnydd i lety Gwely a Brecwast neu Airbnb a throi adeiladau allanol yn lety gwyliau a'r math yna o beth' (cyfweliad). Aeth y swyddog ymlaen i nodi y byddai'r enwau a ddewisir yn aml yn 'enwau rhamantus', yn cynnwys ôl-ddodiad fel 'cottage', neu y byddai'r enw yn rywbeth sy'n gysylltiedig â thwristiaeth fel 'Seaview Cottage' (cyfweliad). Roedd hyn hefyd i'w weld yn y data ar enwau llety gwyliau, yn enwedig yn Arberth. Trwy'r arolwg tirwedd ieithyddol, mynegodd y rhai a holwyd bryderon hefyd o ran effaith twristiaeth ar enwau eiddo ac enwau tirweddol, yn enwedig yn Llanberis.

Enwau lleoedd Cymraeg

11.8 Roedd canfyddiad cyffredinol ar draws yr holl gyfweliadau â rhanddeiliaid ac yn y cyfweliadau â swyddogion ERhS bod ymwybyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd enwau lleoedd Cymraeg. Atgyfnerthwyd hyn yn y cyfweliadau a gynhaliwyd fel rhan o'r arolwg tirwedd ieithyddol. Yn y cyfweliadau â rhanddeiliaid, nodwyd bod yna ddisgwyliad cynyddol hefyd y dylid gwarchod neu ddiogelu enwau lleoedd Cymraeg. Nododd dau o'r rhanddeiliaid fod camau o'r fath yn cyfateb i alwadau i ddeddfu ar fater newidiadau i enwau lleoedd. Mae galwadau o'r fath yn adlewyrchu gwaith cynllun Diogelwn Cymdeithas yr Iaith i ddiogelu enwau tai a lleoedd Cymraeg (2023). Mae cynllun Diogelwn yn annog pobl yng Nghymru 'i gymryd camau cyfreithiol i ddiogelu'r enw hwnnw' (2023). Mae cynllun Diogelwn yn darparu cymalau a dogfennau y gellir eu defnyddio gan werthwr eiddo a'u cyfreithwyr neu

drawsgludwyr sy'n arwain at gynnwys cymalau penodol yn y contract gwerthu a'r trosglwyddiad 'er mwyn atal prynwyr a'u holynwyr mewn teitl rhag newid enw'r tŷ neu'r tir (neu roi unrhyw enw ar dŷ newydd ar wahân i enw'r tir neu enw sydd â chysylltiad â'r ardal, yn ddibynnol ar yr amgylchiadau) yn y dyfodol.' (Cymdeithas yr Iaith, 2023). Yn ogystal, mae'r cynllun yn caniatáu i berchennog eiddo ymrwymo i gytundeb gyda Chymdeithas yr Iaith ac iddo gael ei gofrestru gyda'r Gofrestrfa Tir at yr un diben (Cymdeithas yr Iaith, 2023).

11.9 Amlygwyd ymwybyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd enwau lleoedd Cymraeg mewn perthynas â dau benderfyniad proffil uchel i fabwysiadu'r enw Cymraeg fel enw swyddogol Parc Cenedlaethol Eryri (2022) a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Dangosodd y cyfweliadau a gwblhawyd fel rhan o'r arolwg tirwedd ieithyddol fod y rhai a holwyd yn arddel agweddau cadarnhaol at y Gymraeg, a bod y rhain hefyd yn ymestyn i enwau lleoedd Cymraeg ac amlygrwydd cynyddol enwau strydoedd Cymraeg.

11.10 Mae cadarnhau'r enwau hyn wedi arwain yn uniongyrchol at enghreifftiau eraill o ailenwi, fel Marathon Eryri (Evans, 2023). Mae'r cyfweliadau a gynhaliwyd fel rhan o'r ymchwil hon yn awgrymu effeithiau mwy pellgyrhaeddol y newidiadau proffil uchel hyn ar gyfer enwi ac ailenwi yng Nghymru. Mabwysiadodd Parc Cenedlaethol Eryri yr enw Cymraeg fel yr enw swyddogol yn dilyn proses a oedd yn cynnwys sefydliadau lleol eraill (Menter Iaith Conwy, cyfweliad) a deiseb a ddenodd mwy na 5,000 o lofnodion (Nation Cymru, 2022a). Cadarnhawyd y newid enw yn ystod cyfarfod o Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar 13 Tachwedd 2024.

11.11 Gellir deall mabwysiadu'r enwau Cymraeg ar gyfer Eryri a Bannau Brycheiniog fel catalydd ar gyfer ymwybyddiaeth well a chynyddol o bwysigrwydd enwau lleoedd Cymraeg. Maent hefyd yn dangos bod ymwybyddiaeth gynyddol cyn 2022, fel y dangosir gan y ddeiseb i ddefnyddio'r enw Parc Cenedlaethol Eryri (Nation Cymru, 2022a). Mae'r data ar enwi ac ailenwi ceisiadau a dderbyniwyd gan ALlau hefyd yn dangos bod cynnydd amlwg yn nifer y ceisiadau am enw eiddo Cymraeg rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2021.

11.12 Yn yr adolygiad llenyddiaeth (Pennod 4), buom yn trafod gwaith Coupland (2010) ar y dirwedd ieithyddol yng Nghymru. Cydnabu Coupland (2010) duedd o

'Gymreigeiddio' a oedd gan amlaf yn cynnwys hyrwyddo enwau lleoedd Cymraeg. Gellir deall y penderfyniadau i fabwysiadu'r enwau Cymraeg ar gyfer Eryri a Bannau Brycheiniog fel enghreifftiau o Gymreigeiddio. Fodd bynnag, efallai bod mabwysiadu'r enwau uniaith Gymraeg hyn yn dangos cydnabyddiaeth nad yw arferion enwi dwyieithog o reidrwydd yn adlewyrchu ideoleg wleidyddol uchelgeisiol 'gwir ddwyieithrwydd' (Coupland, 2010). Cydnabu Coupland y gallai Cymreigeiddio gynnwys hyrwyddo enwau lleoedd Cymraeg, sydd yn yr enghreifftiau hyn yn digwydd trwy fabwysiadu enw uniaith Gymraeg. Cydnabuwyd arferion enwi Cymraeg o'r fath hefyd yn yr ardaloedd tirwedd ieithyddol. Er enghraifft, yn Llanberis nodwyd bod busnesau yn mabwysiadu enwau Cymraeg fel rhan o'u brand unigryw i apelio at dwristiaid, i 'berthyn', ac i greu ymdeimlad unigryw o le yn y Gymraeg.

11.13 Yn gyffredinol, gellir cydnabod tuedd o Gymreigeiddio trwy sawl elfen o'r ymchwil hon. Er enghraifft, mae Pennod 5 yn amlinellu sut mae enwi ac ailenwi ceisiadau yn arwain at fwy o enwau eiddo Cymraeg nag enwau eiddo Saesneg. Mae Pennod 10 yn dangos, pan fo newidiadau i enw eiddo yn golygu newid yn iaith enw'r eiddo, ei bod yn fwy cyffredin i'r newidiadau fod o enw eiddo Saesneg i enw eiddo Cymraeg. Ym Mhennod 7, dangoswyd lle roedd meddiannydd presennol eiddo preswyl wedi newid enw'r eiddo, bod 45 y cant o'r newidiadau hynny oherwydd awydd i ddefnyddio enw Cymraeg.

11.14 Gallai'r cynnydd yn amlygrwydd enwau lleoedd Cymraeg, fel rhan o duedd Cymreigeiddio, arwain at *gydymdreiddiad* pellach yr iaith a'r tir (paragraff 4.8; Jones, 1960). Canfu'r ymchwil hon dystiolaeth o *gydymdreiddiad*, er enghraifft lle pwysleisiwyd pwysigrwydd enwau tirweddol Cymraeg (Pennod 9), neu lle ystyriwyd enwau lleoedd yn ddilys oherwydd cysylltiadau ieithyddol, daearyddol a hanesyddol.

Enwau hanesyddol

11.15 Ceir diffiniadau eang a gwahanol o'r hyn a ystyrir yn enwau lleoedd hanesyddol. Gallai hyn fod oherwydd bod drysu rhwng enwau sy'n cael eu hystyried yn hanesyddol ac enwau sy'n cael eu hystyried yn arwyddocaol. Gallai'r diffiniadau hyn fethu ag adnabod ffactorau eraill sy'n cyfrannu at ganfyddiad o bwysigrwydd neu arwyddocâd enw lle e.e. cysylltiad lleol, cysylltiad â lle, cysylltiad â thirwedd, neu gysylltiad ag eiddo neu ddefnydd tir.

11.16 Mae'n bwysig ystyried y gellid colli enwau lleoedd a allai fod yn hanesyddol, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Dangosir hyn yn y data enwau eiddo (enwau blaenorol ac enwau a gymeradwywyd) sy'n dangos posibilrwydd o golli enwau lleoedd hanesyddol neu hirsefydlog, neu enwau sydd ag ystyr ynghlwm wrth le neu gyd-destun. Er enghraifft, gellid ystyried bod newid 'Angorfa' i 'Tŷ Teulu'[31] yn newid negyddol oherwydd colli enw sydd â nodweddion hanesyddol neu nodweddion eraill i enw sydd o bosibl â chysylltiadau personol yn unig.

11.17 Nododd yr OS fod datblygiadau mewn mapio digidol a gwaith rhanddeiliaid amrywiol a phrosiectau eraill yn golygu bod llai o golli enwau lleoedd hanesyddol yn digwydd yn gyffredinol. Hynny yw, mae llai o achosion lle nad oes cofnod o enw sydd wedi newid. Yn syml, mae hyn yn golygu y gallwn ystyried bod llai o enwau lleoedd yn cael eu 'colli' (fel y trafodwyd uchod). Fodd bynnag, nid yw cofnodi enw lle yn cyfateb i gynnal y defnydd o enw lle yn gartograffig, yn weledol, neu ar lafar. Mae rhanddeiliaid eraill hefyd yn casglu ac yn cofnodi enwau lleoedd hanesyddol, gan gynnwys CELIC a CBHC yn y Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru.

Datblygiad

11.18 Un pryder i’r ymchwil hon yw 'cymeriad ieithyddol' datblygiadau newydd (Llywodraeth Cymru, 2022b: 5). Gellir deall y pryder hwn fel bod yn ehangach na iaith enwau stryd swyddogol sy'n gysylltiedig â datblygiadau sy'n ddarostyngedig i bolisïau ERhS ALlau.

11.19 Mae enwi strydoedd yn ddarostyngedig i bolisïau ERhS ALlau, sy'n amlinellu sut y mae enwau strydoedd newydd yn cael eu cytuno a’u pennu. Gall polisïau o'r fath gynnig arweiniad ar yr hyn y mae ALlau yn ei ffafrio o ran enwau strydoedd a all bwysleisio arwyddocâd diwylliannol, ieithyddol a hanesyddol yr ardal a'r angen i warchod y dreftadaeth honno (gweler Cyngor Sir Caerfyrddin, 2023: 13). Gall polisïau ERhS ALlau hefyd gyfeirio at Restr Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru wrth bennu enwau strydoedd derbyniol (gweler Cyngor Sir Caerfyrddin, 2023: 13).

11.20 Fodd bynnag, yn ymarferol, fel y trafodwyd ym Mhennod 6, gall swyddogion ERhS deimlo dan bwysau ac, mewn rhai achosion, nodwyd heriau o ran datblygiad ac

[31] Dylai 'Ty Teulu' gynnwys acen grom '^' yn 'Tŷ'. Efallai nad oedd hyn wedi'i gynnwys yn y cyfeiriad gwreiddiol neu gallai adlewyrchu gwall teipograffig neu gyfyngiad wrth gofnodi neu ddychwelyd y data.

enwi strydoedd. Nodwyd hyn yn aml mewn cyd-destunau mwy trefol lle'r oedd datblygwyr tai yn fwy gweithgar wrth ddatblygu ystadau tai mwy.[32] Nodwyd bod achosion lle mabwysiadodd datblygwyr enw marchnata ar gyfer datblygiad nad oedd yn adlewyrchu cymeriad neu hanes ieithyddol yr ardal, ond yn hytrach yn cyfleu'r ddelfryd o berchen ar gartref, a bod hynny'n broblemus. Mewn achosion o'r fath, adroddwyd y byddai'r enw marchnata yn aml yn cael ei fabwysiadu mewn defnydd lleol, waeth beth yw enw ffurfiol y strydoedd neu'r datblygiad dan sylw. Mae hyn yn dangos sut y gall datblygiad effeithio ar gymeriad ieithyddol ardal mewn perthynas ag enwi lleoedd, lle mae enwau marchnata datblygiadau yn cael eu mabwysiadu'n lleol yn hytrach nag enwau strydoedd sy'n adlewyrchu polisïau ERhS ALlau.

Crynodeb o ganfyddiadau allweddol

11.21 Mae'r bennod hon yn amlinellu themâu eang sy'n deillio o'r astudiaeth hon. Mae'r themâu hyn yn pwysleisio cymhlethdod enwau lleoedd a newid enwau lleoedd. Daw'r cymhlethdod hwn i'r amlwg yn y tensiwn rhwng gwerthfawrogi enwau lleoedd ag iddynt arwyddocâd canfyddedig a 'cholli' yr enwau hyn trwy fabwysiadu enwau newydd y gellid eu hystyried hefyd yn arwyddocaol. Mae'r cymhlethdod a'r tensiwn hwn yn deillio o gyfuniad o ffactorau hanesyddol, ieithyddol, cymdeithasol ac eraill sy'n pennu canfyddiadau o arwyddocâd enwau lleoedd.

[32] Gallai datblygiadau o'r fath gynnwys enwi (gan ddatblygwyr) ardaloedd newydd eu datblygu (yn cynnwys nifer o strydoedd) a fyddai'n cael eu defnyddio i farchnata'r datblygiad ac a fyddai'n cael eu mabwysiadu wedyn fel enwau anffurfiol ar gyfer datblygiadau.

12. Casgliadau

12.1 Nod yr ymchwil hon oedd archwilio newidiadau ffurfiol neu anffurfiol i enwau lleoedd, yn ogystal â'r rhesymau y tu ôl iddynt, gyda'r bwriad o greu sylfaen dystiolaeth gadarn i lywio'r gwaith o ddatblygu opsiynau i ddiogelu enwau lleoedd os a lle y cânt eu nodi fel enwau sydd dan bwysau newid.

12.2 Roedd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar ddadansoddiad manwl o enwau eiddo, sef enwau preswyl ac enwau busnes. Er i'r ymchwil gyffwrdd â rhai enghreifftiau o newidiadau i enwau yn ymwneud ag enwau tirweddol, nid oedd yn archwilio'r defnydd o enwau tirweddol na'r newidiadau iddynt yn fanwl.

12.3 Yng ngweddill y bennod hon, crynhoir canfyddiadau'r ymchwil mewn perthynas â phob un o'r chwe amcan ymchwil.

Amcan 1: cynnal arolwg llenyddiaeth i ddeall y ffactorau sy'n gysylltiedig â newidiadau i enwau lleoedd cymunedol a deall y cyd-destun ehangach y mae'r ymchwil hon yn digwydd ynddo

12.4 Roedd yr adolygiad llenyddiaeth (Pennod 4) yn ystyried ymchwil academaidd ar enwau lleoedd yng Nghymru a chyd-destunau rhyngwladol sy'n archwilio'r cymhellion diwylliannol, economaidd, hanesyddol ac ieithyddol sy'n gysylltiedig â defnyddio a newid enwau lleoedd. Roedd canfyddiadau allweddol a lywiodd y dadansoddiad data fel a ganlyn:

- Mewn cyd-destunau iaith leiafrifol fel Cymru, mae trafodaethau ynghylch enwau lleoedd fel arfer yn ymwneud â chwestiynau sy'n gysylltiedig â grym, diwylliant, lleoliad a hunaniaeth.
- Mae'r defnydd o dechnoleg ddigidol yn cymhlethu yn hytrach nag erydu'r profiad o le mewn ffyrdd sydd yr un mor berthnasol i dirweddau gwledig ag i rai trefol.
- Mae pobl yn mynd ati i ddefnyddio cyfryngau digidol i ddod yn grewyr lleoedd ("placemakers"), gyda'r potensial i herio ffurfiau mwy traddodiadol o greu lleoedd. Gellir gweld hyn yn y prosiectau mapio cydweithredol, cymunedol fel Map Enwau Lleol Cyngor Gwynedd a ddisgrifir ym Mhennod 8.

Amcan 2: deall polisïau a chamau gweithredu ALlau ar gyfer mynd i'r afael â cheisiadau newid enwau eiddo ac ystyried effeithiolrwydd polisïau o'r fath

12.5 Mewn perthynas â pholisïau a gweithredoedd ERhS ALlau ac effeithiolrwydd polisïau o'r fath (Pennod 6), canfuwyd y canlynol:

- Mae polisïau a gweithredoedd ERhS ALlau yn wahanol a gallant fod yn amrywiol – yn enwedig mewn perthynas â'u darpariaethau ynghylch y Gymraeg ac enwau hanesyddol.
- Adlewyrchir gwahaniaethau mewn polisïau ERhS ALlau yn yr arferion cofnodi a chadw data ar gyfer ceisiadau enwi ac ailenwi eiddo a strydoedd. Mae'n ymddangos bod polisïau ERhS ALlau yn ddeinamig, gydag ALlau yn ymateb i fewnbwn swyddogion ERhS, datblygiadau mewn perthynas ag enwau lleoedd Cymraeg, enwau sy'n gysylltiedig â digwyddiadau hanesyddol (e.e. caethwasiaeth), neu enwau hanesyddol.
- Mae swyddogion ERhS yn ystyried, i ryw raddau, fod eu rolau yn cynnwys diogelu enwau lleoedd Cymru. Mae hyn yn cynnwys diogelu enwau lleoedd Cymraeg yn benodol, ond hefyd enwau a ystyrid yn gyffredinol fel bod o arwyddocâd diwylliannol neu leol. Mae swyddogion ERhS yn ymwybodol o ganfyddiad cynyddol o bwysigrwydd enwau lleoedd Cymraeg.
- Mae rolau swyddogion ERhS o fewn ALlau yn amrywio, gyda phatrwm cyffredinol yn dangos fod gan swyddogion ERhS gyfrifoldebau eraill fel rhan o'u gwaith. Mae hyn yn cyfrannu at y canfyddiad bod swyddogion ERhS dan bwysau, sy'n effeithio ar bolisïau a chamau gweithredu ERhS ALlau. Mae hyn yn effeithio'n negyddol ar allu swyddogion ERhS i gyflawni eu rôl ganfyddedig wrth ddiogelu enwau lleoedd.

Amcan 3: casglu a dadansoddi data gan ALlau Cymru ar enwi ac ailenwi strydoedd ac eiddo dros y pum mlynedd diwethaf er mwyn nodi tueddiadau posibl mewn newidiadau i enwau lleoedd

12.6 Roedd yr ymchwil hon yn tynnu ar gofnodion ALlau ar geisiadau i enwi neu ailenwi eiddo a strydoedd sy'n rhan o gyfeiriadau swyddogol (Pennod 5) yn ystod y cyfnod

rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2019 ac Ebrill 2022 a Mawrth 2023. Canfuwyd y canlynol:

- Derbyniodd ALlau dair gwaith yn fwy o geisiadau am enwau strydoedd Cymraeg (338 cais) nag am enwau strydoedd Saesneg (95 cais).33
- Cyn Ebrill 2020 i Mawrth 2021, roedd nifer tebyg o geisiadau enwi am enwau eiddo Cymraeg a Saesneg.
- O Ebrill 2020 i Mawrth 2021 ymlaen, bu mwy o geisiadau am enwau eiddo Cymraeg nag enwau Saesneg. Er bod data'r ALlau yn awgrymu bod cynnydd diweddar wedi bod yn y duedd i eiddo a enwir yn ffurfiol fod yn Gymraeg, nid yw'r data'n darparu esboniad am y cynnydd hwn.
- Cafodd nifer uwch o geisiadau enwi eiddo eu derbyn gan ALlau am enwi eiddo ag enwau Cymraeg (1,444) nag enwau Saesneg (1,125).
- Mae'n ymddangos bod ALlau sydd â chrynodiadau uwch o siaradwyr Cymraeg yn cyd-fynd â mwy o geisiadau i enwi eiddo ag enwau Cymraeg.
- Nid oedd y rhan fwyaf o geisiadau ailenwi eiddo yn arwain at newid iaith. Pan fo cais ailenwi eiddo wedi arwain at newid yn iaith enw'r eiddo, roedd bron i deirgwaith yn fwy tebygol y byddai cais ailenwi eiddo yn gofyn am newid enw o'r Saesneg i'r Gymraeg (329 achos) nag o'r Gymraeg i'r Saesneg (121 achos).
- Mae'r data newid enwau yn dangos bod newidiadau enwau o'r Saesneg i'r Gymraeg (235 achos) bron bedair gwaith yn fwy tebygol na newidiadau o'r Gymraeg i'r Saesneg (65 achos) ac mae'n awgrymu bod arallenwi yn arwain at duedd hyd yn oed yn fwy amlwg o newid enwau eiddo ffurfiol o enwau Saesneg i enwau Cymraeg.

12.7 Cafodd mewnwelediadau ar iaith enwau tai, arallenwau a'r cymhellion ar gyfer dewis a newid enwau tai eu casglu o'r arolwg enwau tai digidol (Pennod 7). Nid yw

[33] Cofnodwyd enwau strydoedd dwyieithog fel enw stryd Cymraeg ac enw stryd Saesneg ar wahân. Nid oedd yn bosibl o'r data a gynhyrchwyd i nodi nifer yr achosion o geisiadau am enwi strydoedd yn ddwyieithog.

data'r arolwg yn gwahaniaethu rhwng arallenwi ffurfiol ac arallenwi anffurfiol ar gyfer enwi ac ailenwi. Roedd canfyddiadau data'r arolwg fel a ganlyn:

- Ym mhob un o bedwar rhanbarth Cymru, mae llawer mwy o enwau tai yn cael eu newid o'r Saesneg i'r Gymraeg neu o'r Gymraeg i'r Gymraeg nag o'r Saesneg i'r Saesneg neu o'r Gymraeg i'r Saesneg.
- Mae cyfran y newidiadau i enwau o'r Gymraeg i'r Gymraeg ychydig yn uwch ar gyfer tai wedi'u harallenwi na thai wedi'u henwi ond heb rif (33 y cant a 25 y cant yn y drefn honno). Fodd bynnag, mae cyfran y newidiadau i enwau o'r Saesneg i'r Gymraeg ychydig yn is mewn eiddo wedi'u harallenwi nag eiddo wedi'u henwi'n unig (40% a 49% yn y drefn honno).
- Nid siaradwyr Cymraeg yn unig sy'n cadw enwau eiddo Cymraeg neu'n newid enwau eiddo i enwau Cymraeg. Mae rhai sydd wedi symud i Gymru hefyd yn gwerthfawrogi enwau lleoedd Cymraeg.
- Mae cael enw tŷ Cymraeg yn ennyn ymdeimlad o falchder, lle neu hiraeth i lawer o drigolion. Ychydig iawn sydd yn y data sy'n dweud yr un peth am enwau tai Saesneg.

12.8 Roedd yr ymatebwyr i'r arolwg wedi gwneud hynny o'u gwirfodd ac felly ni ellir o reidrwydd cymryd bod y canlyniadau'n adlewyrchu sefyllfa enwau tai ledled Cymru. Fodd bynnag, er bod rhai pryderon yng Nghymru ynghylch dileu enwau tai Cymraeg a'u disodli gan rai Saesneg, mae'n ymddangos mai patrwm i'r gwrthwyneb a welir.

Amcan 4: ymchwilio i enwau eiddo ac agweddau at enwau eiddo a newidiadau i enwau mewn ardaloedd penodol

12.9 Defnyddiodd yr astudiaeth hon sawl ffynhonnell ddata i ymchwilio i enwau eiddo ac agweddau at enwau eiddo a newidiadau i enwau mewn saith ardal: Y Fenni, Abersoch, Cei Connah, Llanberis, Llanidloes, Arberth a'r Eglwys Newydd. Roedd hyn yn cynnwys dogfennaeth fanwl o dirwedd ieithyddol bresennol pob ardal, yr enwau a roddwyd ar eiddo llety gwyliau ar Booking.com, a chanfod agweddau at enwau eiddo a newidiadau i enwau drwy gyfrwng cyfweliadau ar y stryd.

12.10 Mae'r prif ganfyddiadau mewn perthynas â data'r ardaloedd a ddewiswyd fel a ganlyn:

- Mae mwyafrif (76.6%) o'r 7,361 eiddo a arolygwyd yn y saith ardal yn eiddo wedi'u rhifo, gyda 14.6 y cant o eiddo wedi'u harallenwi, a dim ond 8.9 y cant yn eiddo a enwir. Roedd gan yr ardaloedd mwy trefol gyfran uwch o eiddo wedi'u rhifo o'u cymharu â'r ardaloedd eraill.
- Roedd cyfran yr eiddo ag enwau Cymraeg ac arallenwau yn amrywio ar draws yr ardaloedd, gyda dros 60 y cant o'r eiddo a enwir a arolygwyd yn Abersoch, Llanberis a Llanidloes ag enwau Cymraeg. Yn Abersoch a Llanidloes, roedd yr enwau Cymraeg hyn yn tueddu i fod ar gyfer eiddo heb arallenw (139 achos a 94 achos yn y drefn honno). Yn Llanberis, arallenwau oedd y rhan fwyaf o'r enwau Cymraeg (81 achos).
- Enw Saesneg sydd gan y mwyafrif (63.2%) o'r eiddo llety gwyliau a restrir ar Booking.com. Mae hyn yn uwch na'r 50.4 y cant o eiddo ag enwau Saesneg (arallenwau ac enwau nad ydynt yn arallenwau) a gofnodwyd yn yr arolwg tirwedd ieithyddol.
- Mae lletyau gwyliau yn fwy cyffredin yn Abersoch, Y Fenni ac Arberth o'i gymharu â'r ardaloedd eraill. Yn Y Fenni ac Arberth, mae gan gyfran uwch o'r lletyau gwyliau a restrir ar Booking.com enw Saesneg (78 ac 83 y cant yn y drefn honno) na'r eiddo ag enw Saesneg a nodwyd yn yr arolwg tirwedd ieithyddol (68.8 a 59.2 y cant yn y drefn honno). I'r gwrthwyneb, mae gan gyfran uwch o'r eiddo yn Abersoch a restrir ar Booking.com enwau Cymraeg (72.4 y cant). Mae hyn yn uwch na'r eiddo ag enwau Cymraeg (60.5%) a'r eiddo ag enwau Saesneg (34%) a gofnodwyd yn yr arolwg tirwedd ieithyddol. Mae gan lety gwyliau yn Abersoch bron i bedair gwaith yn fwy o enwau Cymraeg (42 eiddo) nag enwau Saesneg (11 eiddo). Mae'r data hwn yn dangos sut y gall twristiaeth gael effaith wahanol ar iaith enwau eiddo mewn gwahanol ardaloedd.
- Nid oedd gan y rhan fwyaf o'r rhai a holwyd yn y saith ardal farn na mewnwelediad cryf ar bwnc enwau eiddo a newidiadau i enwau, gan gyfrannu at ganfyddiad nad yw enwau strydoedd ac eiddo, yn gyffredinol, yn newid yn sylweddol.

- Yn debyg i ganfyddiadau arolwg enwau tai digidol Cadw (Pennod 7), datgelodd cyfweliadau yn y saith ardal bod cymhellion ar gyfer enwi neu ailenwi eiddo yn cynnwys cysylltiadau personol, awydd am enw Cymraeg, cysylltiadau daearyddol lleol, neu gysylltiadau hanesyddol.
- Roedd agweddau cadarnhaol cryf tuag at y Gymraeg, ac roedd yr agweddau hyn yn ymestyn at enwau strydoedd ac eiddo Cymraeg.
- Roedd y rhai a holwyd yn tueddu i gysylltu enwau strydoedd ac eiddo â phrosesau ehangach, megis canfyddiadau bod newidiadau i enwau eiddo i'r Saesneg yn cael eu hysgogi gan dwristiaeth. Mynegwyd pryder ynghylch defnydd ar-lein o enwau Saesneg ar gyfer lleoedd yn y dirwedd o amgylch Llanberis sy'n gysylltiedig â thwristiaeth a gweithgareddau awyr agored. Roedd canfyddiad hefyd bod enwau busnes yn Gymraeg neu yn Saesneg yn aml yn cael eu dewis i apelio at dwristiaid. Yn Llanberis, dywedodd un cwpl fod perchnogion busnes di-Gymraeg eraill, yn ogystal â nhw eu hunain, wedi mabwysiadu enwau busnes Cymraeg i 'berthyn' ac i greu naws o le Cymraeg unigryw i'r gymuned a thwristiaid.
- Yng Nghei Connah, roedd enwau eiddo Cymraeg yn tueddu i fod yn gysylltiedig ag ardaloedd mwy gwledig y tu allan i'r dref. Yn Yr Eglwys Newydd, roedd canfyddiad bod mewnfudiad siaradwyr Cymraeg i'r ardal yn arwain at roi enwau Cymraeg ar dai. Yn yr ardaloedd mwy trefol (Y Fenni, Cei Connah, Yr Eglwys Newydd) nododd y rhai a holwyd fod mwy a mwy o ddefnydd o enwau strydoedd ac arwyddion Cymraeg.
- Adlewyrchwyd agweddau cadarnhaol at y Gymraeg hefyd yn y canfyddiad bod busnesau'n mabwysiadu mwy o enwau Cymraeg, oherwydd bod "Cymraeg yn ffasiynol ar hyn o bryd" (cyfweliad). Fodd bynnag, mewn rhai ardaloedd, ystyriwyd bod busnesau'n ysgogi newidiadau i enwau o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg ill dau.

Amcan 5: cynnal asesiad ymchwil penodol yn seiliedig ar le o'r newidiadau ffurfiol i eiddo a busnesau dros y pum mlynedd diwethaf ac archwilio'r cymhellion ar gyfer newidiadau

12.11 Bu'r astudiaeth hon hefyd yn ystyried newidiadau i enwau eiddo dros amser yn y saith ardal tirwedd ieithyddol, deg ardal arall yng Ngwynedd, a saith ardal ychwanegol ar draws Cymru. Mae'r data hwn yn dangos y canlynol:

- Mae'r rhan fwyaf o newidiadau i enwau eiddo ar draws y pedair ardal ar hugain wedi digwydd rhwng 2009 a 2014, ac nad oedd newidiadau i enwau eiddo yn tueddu i olygu newid yn iaith enw'r eiddo.
- Pan fo newidiadau yn golygu newid yn iaith enw'r eiddo, roedd y newidiadau yn tueddu i newid o enw Saesneg i enw Cymraeg.
- Mae newidiadau i enwau eiddo preswyl yn tueddu i arwain at fwy o enwau Cymraeg na newidiadau i enwau eiddo busnes, a oedd yn tueddu i olygu newid enw Saesneg i enw Saesneg arall.
- Mae newidiadau i enwau eiddo yng Ngwynedd yn dangos eu bod yn fwy tebygol fyth o olygu newid enw Saesneg i enw Cymraeg o'i gymharu â'r ardaloedd eraill yr ymchwiliwyd iddynt.

12.12 Roedd yr astudiaeth achos a gyflwynwyd ym Mhennod 8 yn enghraifft o newid enw busnes yn y sector twristiaeth a lletygarwch. Roedd y dadansoddiad yn tynnu ar bostiadau cyfryngau cymdeithasol a rhyngweithiadau cysylltiedig ynghylch ailenwi tafarn yn ystod 2022. Er nad yw'n briodol cyffredinoli o un astudiaeth achos, mae'r enghraifft yn dangos ehangder y ffactorau a'r gwahanol gamau – ffurfiol ac anffurfiol – y gall proses ailenwi fynd trwyddynt.

12.13 Dangosodd yr astudiaeth achos hon hefyd sut y gall gwahanol enwau ar gyfer yr un lle gael eu defnyddio gan wahanol grwpiau o bobl, ac nad yw newidiadau i'r enw a gofnodir o reidrwydd yn arwain at newidiadau yn yr enw a ddefnyddir. Yn yr astudiaeth achos hon, dangoswyd bod pobl sydd â chysylltiad sylweddol â'r ardal neu'r dafarn wedi parhau i gyfeirio ati gan ddefnyddio amrywiadau o enw sy'n cynnwys 'castle'. Mewn sawl achos, roedd y cysylltiadau hyn yn cynnwys hanesion a chysylltiadau personol.

Amcan 6: deall y trothwy i fapiau'r Arolwg Ordnans a mapiau digidol newid enwau sy'n ymddangos ar fapiau swyddogol, a sut mae'r data'n cael ei gasglu i gyflawni hyn.

12.14 Mae Pennod Chwech yn adrodd ar ein hymchwiliad i sut mae'r OS yn cofnodi enwau lleoedd a sut mae'r rhain yn cael eu cynrychioli'n weledol ar eu cynhyrchion. I grynhoi, canfuwyd y canlynol:

- Ystyrir cynrychiolaeth weledol o enwau lleoedd ar fapiau yn fater cartograffig, nad yw'n cael sylw uniongyrchol ym Mholisi Enwau (2022) na Pholisi Enwau Cymraeg (2018) yr OS.
- Mae'r OS yn adrodd eu bod yn cael eu llywio'n bennaf gan ddefnydd ac arfer lleol. Mae'n gwneud ymholiadau ac yn ymgynghori ag awdurdodau priodol i sefydlu, gyda chymaint o awdurdod â phosibl, yr enw, y ffurf a'r sillafiad mwyaf addas ar gyfer pob man a ddangosir.
- Nid yw'n glir beth yw trothwy'r OS ar gyfer pennu bod enw lle mewn 'defnydd ac arfer lleol' (OS, 2022: 4) ac felly i'w gofnodi ar fap OS. Fodd bynnag, dywed yr OS eu bod yn gynyddol ddibynnol ar gofnodi enwau sydd wedi'u hysgrifennu ar arwyddion cyhoeddus ac arwyddion eraill, neu enwau sy'n cael eu cofnodi gan awdurdodau perthnasol.
- Mae'r defnydd cynyddol o gynhyrchion mapio digidol yn hytrach na mapiau copi caled yn golygu y gellir cynrychioli mwy o ddata yn weledol (yn yr achos hwn, enwau lleoedd). Mae hyn yn golygu bod llai o achosion pan wneir penderfyniad gan yr OS i ddefnyddio un enw lle yn hytrach nag un arall.
- Mae mapio digidol yn rhoi mwy o allu i'r OS ac eraill gofnodi a chynrychioli enwau lleoedd mewn sawl iaith yn weledol, gan gyfrannu ymhellach at gymhlethu'r profiad o le (Bronsvoot a Uitermark 2022)

Ystyriaethau thematig mewn perthynas ag enwi lleoedd a newidiadau i enwau lleoedd yng Nghymru

12.15 Mae'r themâu eang a nodwyd yn pwysleisio cymhlethdod enwau lleoedd a newid enwau lleoedd. Daw'r cymhlethdod hwn i'r amlwg yn y tensiwn rhwng gwerthfawrogi enwau lleoedd ag iddynt arwyddocâd canfyddedig a 'cholli' yr enwau hyn trwy fabwysiadu enwau newydd y gellid hefyd eu hystyried yn arwyddocaol. Mae'r cymhlethdod a'r tensiwn hwn yn deillio o gyfuniad o ffactorau hanesyddol,

ieithyddol, cymdeithasol ac eraill sy'n dylanwadu ar ganfyddiadau pobl o arwyddocâd enwau lleoedd.

Ystyriaethau ymchwil pellach

12.16 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno tystiolaeth o enwi ac ailenwi eiddo preswyl ffurfiol ynghyd â rhywfaint o fewnwelediad o'r cymhellion ar gyfer enwi a newid enwau eiddo preswyl a busnes. Dangosodd yr ymchwil hon fod newidiadau i enwau eiddo busnes yn tueddu i gynnwys mân newidiadau, neu fod newidiadau i enwau yn ymwneud â newidiadau rhwng gwahanol frandiau neu gadwyni'r stryd fawr. Fodd bynnag, gallai ymchwil pellach helpu i feithrin dealltwriaeth o hyd a lled, amlder ac iaith enwi ac ailenwi eiddo a busnesau'n anffurfiol. Gellid cynnal ymchwil pellach i newidiadau enw anffurfiol, yn enwedig mewn perthynas ag enwau busnes.

12.17 Gallai ymchwil sy'n canolbwyntio'n benodol ar y berthynas rhwng enwau lleoedd (yn enwedig enwau tirweddol) a fathwyd gan gymdeithasau a chwmnïau sy'n ymwneud â thwristiaeth a gweithgareddau awyr agored, a normaleiddio'r enwau hynny yn y gymuned leol ac ar-lein, helpu i fynd i'r afael â phryderon bod y defnydd o enwau tirweddol Cymraeg yn cael ei danseilio o ganlyniad i'r gweithgareddau hyn.

12.18 Ystyriodd yr ymchwil hon astudiaeth achos o newid enw eiddo a gafodd sylw sylweddol mewn cymuned (Pennod 9), ond nid oedd yr ymchwil yn ystyried digwyddiadau dadleuol neu enwog o enwi lleoedd neu newid enw yn benodol. Gallai ymchwilio i enghreifftiau o'r fath helpu i ddeall agweddau at enwau lleoedd a'r cymhellion a'r safbwyntiau sy'n ysgogi canfyddiadau o newidiadau i enwau lleoedd, yn ogystal â swyddogaeth enwau lleoedd fel elfennau o isadeileddau diwylliannol ac arwyddion o fywiogrwydd ethnoieithyddol.

Llyfryddiaeth

Azaryahu, M. (1996) 'The Power of Commemorative Street Names', *Environment and Planning D: Society and Space*, 14, 311-330.

Azaryahu, M. (2006) *Tel Aviv: Mythology of a city.* Syracuse, Efrog Newydd: Syracuse University Press.

Azaryahu, M. (2009) 'Naming the past: The significance of commemorative street names', yn L. Berg & J. Vuolteenaho, (eds.) *Critical toponymies: The contested politics of place naming*. Farnham: Ashgate, 53-70.

Azaryahu, M. & Kook, R. (2002) 'Mapping the nation: street names and Arab-Palestinian identity: three case studies'. Yn *Nations and Nationalism*. 8: 195-213.

Backhaus, P. (2006) 'Multilingualism in Tokyo: a look into the linguistic landscape', *International Journal of Multilingualism*, 3 (1), 52-66.

Bahrehdar, A.R., Adams, B. & Purves, R.S. (2020). 'Streets of London: Using Flickr and OpenStreetMap to build an interactive image of the city', *Computers, Environment and Urban Systems,* 84.

Balsom, D. (1985). 'The Three-Wales Model', yn Osmond, J. [ed.] *The National Question Again.* Llandysul: Gwasg Gomer.

Barriball, K. L., & While, A. (1994). 'Collecting data using a semi-structured interview: a discussion paper'. *Journal of Advanced Nursing*, 19(2), 328-335.

Berg, L. & Kearns, R. (1996). 'Naming as norming: "Race," gender, and the identity politics of naming places in Aotearoa/New Zealand', *Environment and Planning D: Society and Space*, 14 (1), 99-122.

Braun, V. a Clarke, V. (2006). Using thematic analysis in psychology. *Qualitative Research in Psychology*. 3(2): 77-101.

Briggs, R. (2022a) *Untitled*. Ar gael ar Facebook: (Cyrchwyd: Medi 2023).

Briggs, R. (2022b) *Untitled*. Ar gael ar Facebook: (Cyrchwyd: Medi 2023).

Bronsvoort, I. & Uitermark, J. (2022) 'Seeing the street through Instagram: digital platforms and the amplification of gentrification', *Urban Studies*, 59, 2857-2874.

Brooks, S. (2018) 'Jones, J. R.'. Ar gael yn: Jones, J. R. - WICI (porth.ac.uk) (Cyrchwyd: Ionawr 2024).Cadw (2023) Trosolwg | Cadw (llyw.cymru) (Cyrchwyd: Tachwedd 2023).

Cyngor Sir Caerfyrddin (2023) Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd: Lle a Chynaliadwyedd. (Cyrchwyd: Tachwedd 2023).

Carter, P. (1987) *The Road to Botany Bay*. Llundain: Faber and Faber.

Calvert, H. (2023) *The Art of Naming a Strava Segment*. Ar gael yn: The Art of Naming a Strava Segment (Cyrchwyd: Tachwedd 2023).

Cenoz, J. & Gorter, D. (2006) 'The Linguistic Landscape and Minority Languages', *International Journal of Multilingualism*, 3, 67-80.

Cyngor Sir Ceredigion (2015) *Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd.* Ar gael yn: polisi-enwi-a-rhifo-strydoedd.pdf (ceredigion.gov.uk) (Cyrchwyd Hydref 2023).

de Certeau, M. (1984) *The Practice of Everyday Life*. Berkeley: University of California Press.

Coupland, N. (2010) ‘Welsh Linguistic Landscapes ‘From Above’ and ‘From Below’’, yn Jaworski, A. & Thurlow, C. (eds.). *Semiotic landscapes: Language, image, space*. Llundain: Continuum International Publishing Group.

Cymdeithas yr Iaith (2023) *Diogelwn.* Ar gael yn: Diogelwn | Cymdeithas yr Iaith Gymraeg (Cyrchwyd: Tachwedd 2023).

Cyngor Sir Ddinbych (2021) *Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd.* Ar gael yn: Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd (denbighshire.gov.uk) (Cyrchwyd: Tachwedd 2023).

Dinas Castle Inn (2023) *Dinas Castle Inn*. Ar gael yn: Dinas Castle Inn – A country pub with various types of spacious and affordable accommodation. (Cyrchwyd: Medi 2023).

Edelman, L. (2014) ‘The presence of minority languages in linguistic landscapes in Amsterdam and Friesland (the Netherlands)’, *International Journal of the Sociology of Language*, 228, 7-28.

Evans, T. (2023) ‘Snowdonia Marathon ditches English name in favour of Marathon Eryri’, *Sky News*, 13 Mehefin 2023. Ar gael yn: Snowdonia Marathon ditches English name in favour of Marathon Eryri | UK News | Sky News (Cyrchwyd Hydref 2023).

GeoPlace (2016) *GeoPlace Data Entry Conventions and Best Practice for Addresses*. Ar gael yn: Data creation manuals | GeoPlace LLP (Cyrchwyd: Tachwedd 2023).

GeoPlace (2023a) *GeoPlace Street Naming and Numbering Code of Practice*. Ar gael yn: Home - Street Naming and Numbering (geoplace.co.uk) (Cyrchwyd Hydref 2023).

GeoPlace (2023b) *GeoPlace on the Knowledge Hub*. Ar gael yn: Knowledge Hub | GeoPlace LLP (Cyrchwyd: Medi 2023).

Giraut, F. & Houssay-Holzschuch, M. (2016). ‘Place naming as dispositif: Toward a theoretical framework’. Yn *Geopolitics*, 21(1), 1–21.

Glaser, B., a Strauss, A. (1967). *The discovery of grounded theory: Strategies for qualitative research*. Chicago: Aldine.

Grant, D., a Shaw, W. (2010). “Place Naming Legislation in New Zealand”. Yn *FIG Congress 2010 -International Federation of Surveyors*. Sydney.

Gregory, D., Johnston, R., Pratt, G., Watts, M., & Whatmore, S. (Eds.). (2011). *The dictionary of human geography*. Hoboken, New Jersey: John Wiley & Sons.

Griffith, G. (2020) ‘Coronavirus: Learning Welsh online in lockdown surprisingly popular’, *BBC News*, 2 Mehefin 2020. Ar gael yn: Coronavirus: Learning Welsh online in lockdown surprisingly popular - BBC News (Cyrchwyd Tachwedd 2023).

Gruffudd, P. (1994) ‘Back to the Land: Historiography, Rurality and the Nation in Interwar Wales’. Yn *Transactions of the Institute of British Geographers*, 19, 61-77.

Gruffudd, P. (1995) ‘Remaking Wales: Nation-Building and the Geographical Imagination’. Yn *Political Geography*, 14, 219-239.

Cyngor Gwynedd (2023) *Map Enwau Lleol Gwynedd.* Ar gael yn: Map Enwau Lleol Gwynedd (llyw.cymru) (Cyrchwyd: Tachwedd 2023).

Halegoua, G. (2020) *The Digital City: Media and the Social Production of Place*. Efrog Newydd: New York University Press.

Harley, J. B. (2001) *The New Nature of Maps*. Baltimore: John Hopkins University Press.

Herman, RDK. (1999) ‘The aloha state: Place-names and the anti-conquest of Hawai’i’, *Annals of the Association of American Geographers*, 89 (1), 76-102.

Cofrestrfa Tir EF (2024) *Mynegai Prisiau Tai y DU: adroddiad Cymru: Rhagfyr 2023.* Ar gael yn: Mynegai Prisiau Tai y DU: adroddiad Cymru: Rhagfyr 2023 - GOV.UK (Cyrchwyd: Hydref 2024).

inapub (2023) *The Dragons Back*. Ar gael yn: The Dragons Back - A pub in Brecon. (inapub.co.uk) (Cyrchwyd: Medi 2023).

Cyngor Sir Ynys Môn (2015) *Polisi ar Enwi a Rhifo Strydoedd a Thai.* Ar gael yn: Enwi strydoedd a rhifo eiddo (Cyrchwyd: Tachwedd 2023).

Jones, J. R. (1966) *Prydeindod*. Llandybïe: Llyfrau'r Dryw.

Jones, Rh. (2023) 'Welsh place names are being erased – and so are the stories they tell', *The Conversation*. Ar gael yn: Welsh place names are being erased – and so are the stories they tell (theconversation.com) (Cyrchwyd Hydref 2023).

Jones, Rh. & Lewis, H. (2019) *New Geographies of Language: Language, Culture and Politics in Wales*. Llundain: Palgrave Macmillan

Kearns, R. & Berg, L. (2003) 'Proclaiming place: Toward a geography of place name pronunciation', *Social & Cultural Geography*, 3 (3), 283-302.

Landry, R. & Bourhis, R. (1997) 'Linguistic Landscape and Ethnolinguistic Vitality', *Journal of Language and Social Psychology*, 16 (1), 23-49.

Light, D. & Young, C. (2015) 'Toponymy as commodity: Exploring the economic dimensions of urban place names'. Yn *International Journal of Urban and Regional Research*, 39(3), 435–450.

Mapio Cymru (2023) *OpenStreetMap Cymru*. Ar gael yn: OpenStreetMap Cymru (Cyrchwyd: Tachwedd 2023).

Masuda, J. & Bookman, S. (2018) ‘Neighbourhood branding and the right to the city’, *Progress in Human Geography*, 42 (2), 165-182.

Maurer, S. (2020) ‘Evolving Approaches to Place Tagging in Social Media’, *Journal of Urban Planning and Development*, 146.

Merriman, P. & Jones, Rh. (2009) ‘Hot, banal and everyday nationalism: Bilingual road signs in Wales’, *Political Geography*, 28, 164-173.

Myers, G. (1996) ‘Naming and placing the other: Power and the urban landscape in Zanzibar’, *Tijdschrift Voor Economische En Sociale Geografie*, 87 (3), 237-246.

Mytum, H. (1994) ‘Language as Symbol in Churchyard Monuments: The Use of Welsh in Nineteenth- and Twentieth-Century Pembrokshire’, *World Archaeology*, 26 (2), 252-267.

Nash, C. (1999) ‘Irish Placenames: Post-colonial Locations’. Yn *Transactions of the Institute of British Geographers*, 24, 457-480.

Nash, C. (2017) ‘Irish Place Names: Post-colonial Locations’. Yn *Critical Toponymies*. Vuolteenaho, J. a Berg, L., D. (eds.). 151-166. Routledge.

Nation Cymru (2022a) ‘Yr Wyddfa: Snowdon to be known by Welsh name from now on after national park vote’, *Nation Cymru*, 16 Tachwedd 2022. Ar gael yn: Yr Wyddfa: Snowdon to be known by Welsh name from now on after national park vote (Cyrchwyd: Hydref 2023).

Nation Cymru (2022b) ‘New interactive map lets users visualise Wales entirely in Cymraeg’, *Nation Cymru*, 14 Hydref 2022. Ar gael yn: New interactive map lets users visualise Wales entirely in Cymraeg (nation.cymru) (Cyrchwyd: Tachwedd 2023)

Nation Cymru (2023) ‘New map celebrates Welsh and Gaelic place names’, *Nation Cymru*, 15 Mehefin 2023. Ar gael yn: New map celebrates Welsh and Gaelic place names (nation.cymru) (Cyrchwyd: Tachwedd 2023).

Cyngor Castell-nedd Port Talbot (2022) *Enwi a Rhifo Strydoedd* Ar gael yn: Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd – Cyngor Castell-nedd Port Talbot (npt.gov.uk) (Cyrchwyd: Tachwedd 2023).

New Zealand Government (2012) *National Report of New Zealand Tenth United Nations Conference on the Standardization of Geographical Names*. Efrog Newydd.

Nilsson, L. (2011). *Place-names and the standard for location addresses in Sweden*. United Nations Group of Experts on Geographical Names.

Nyström, S., Nilsson, L. O. a Torensjö, A. C. (2019). *Good Place-Name Practice: The Swedish Place-Names Advisory Board's Guide to the Standardisation and Preservation of Place-Names*. Gävle: Lantmäteriet

OpenStreetMap (2023) *OpenStreetMap*. Ar gael yn: OpenStreetMap (Cyrchwyd: Medi 2023).

OS (2018) *Polisi enwau Cymraeg: Polisi ar gofnodi enwau Cymraeg yn nata yr Arolwg Ordnans.* Ar gael yn: Welsh names policy | Geographical names policy | OS (Cyrchwyd Tachwedd 2023).

OS (2022) *Names Policy*. Ar gael yn: OS names policy (ordnancesurvey.co.uk) (Cyrchwyd Tachwedd 2023).

OS (2023) *Gaelic Names Policy*. Ar gael yn: Gaelic names policy (ordnancesurvey.co.uk) (Cyrchwyd: Tachwedd 2023).

O'Reilly, C. (1998), "The Irish Language as Symbol: Visual Representations of Irish in Northern Ireland". Yn *Symbols of Northern Ireland*. Buckley, A.D. (ed.). 43–62.

O' Rourke, B. & Walsh, J. (2015) 'New speakers of Irish: shifting boundaries across time and space', *International Journal of the Sociology of Language*, 231, 63-83.

Owen, T. (2018) 'Fear 'history is lost when Welsh place names are changed", *BBC Wales*, 14 Mehefin 2018. Ar gael yn: Fear 'history is lost when Welsh place names are changed' - BBC News (Cyrchwyd: Hydref 2023).

Pred, A. (1990) *Lost Words and Lost Worlds*. Caergrawnt: Cambridge University Press.

Proctor, B. (2022) *Sut mae mapio yn y Gymraeg?* Ar gael yn: Sut mae mapio yn y Gymraeg? - Mapio Cymru (Cyrchwyd: Tachwedd 2023).

Purnell, R. (2020) *Your guide to the Dragons Back walk*. Ar gael yn: Your guide to the Dragons Back walk | OS GetOutside (ordnancesurvey.co.uk) (Cyrchwyd: Ionawr 2024).

Rose-Redwood, R., Alderman, D. & Azaryahu, M. (2010) 'Geographies of toponymic inscription: New directions in critical place-name studies', *Progress in Human Geography*, 34 (4), 453-470.

CBHC (2017) *Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru.* Ar gael yn: CBHC | Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru (Cyrchwyd: Tachwedd 2023).

CBHC (2022) *Adroddiad Pum Mlynedd – Rhestr Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru.* Ar gael yn: CBHC | Newyddion | Adroddiad Pum Mlynedd – Rhestr Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru (Cyrchwyd: Tachwedd 2023).

CBHC (2023) *Enw a Gofnodwyd: Castle Inn*. Ar gael yn: Castle Inn - Enw a Gofnodwyd - Enwau Hanesyddol Cymru (cbhc.llyw.cym) (Cyrchwyd: Medi 2023).

Shohamy, E., & Gorter, D. (Eds.). (2008). *Linguistic Landscape: Expanding the Scenery* (1st ed.). Routledge. https://doi.org/10.4324/9780203930960

Slow Ways (2023) *Slow Ways: About.* Ar gael yn: Slow Ways - a network of walking routes connecting Great Britain (Cyrchwyd: Tachwedd 2023).

Swart, M. (2008) 'Name changes as symbolic reparation after transition: The cases of Germany and South Africa', *German Law Journal*, 9 (2), 105-121.

The Slave Trade and the British Empire: Adroddiad gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen (2021) *Y Fasnach mewn Caethweision a'r Ymerodraeth Brydeinig: Archwiliad o Gofféu yng Nghymru.* Ar gael ar-lein: Y Fasnach mewn Caethweision a'r Ymerodraeth Brydeinig: archwiliad o Gofféu yng Nghymru | LLYW. CYMRU (Cyrchwyd: Tachwedd 2023)Tucker, B. & Rose-

Redwood, R. (2015) 'Decolonizing the map? Toponymic politics and the rescaling of the Salish Sea', *The Canadian Geographer*, 59 (2), 194-206.

Urban Good (2023) *Slow Ways – Cymraeg / Welsh*. Ar gael yn: Slow Ways – Cymraeg / Welsh – UrbanGood (Cyrchwyd: Tachwedd 2023).

Vuolteenaho, J. & Ainiala, T. (2009) 'Planning and revamping urban toponymy: Ideological alterations in the linguistic landscaping of Vuosaari suburb, eastern Helsinki'. Yn Berg, L. & Vuolteenaho, J. (Eds.), *Critical toponymies: The contested politics of place naming* (pp. 227–252). Farnham: Ashgate.

Vuolteenaho, J., & Berg, L. (2009) 'Towards critical toponymies'. Yn L. Berg & J. Vuolteenaho, (eds.) *Critical toponymies: The contested politics of place naming*. Farnham: Ashgate, 53-70.

Llywodraeth Cymru (2017) Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru: Llunio a Defnyddio Canllawiau Statudol ar sut y dylai Awdurdodau Lleol, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Cyfoeth Naturiol Cymru ddefnyddio Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol a Chyfrannu at eu Llunio, cyhoeddwyd gan Cadw.

Llywodraeth Cymru (2021a) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: yr hanfodion.

Llywodraeth Cymru (2021b) Cymraeg 2050: rhaglen waith 2021 i 2026 [HTML] | LLYW. CYMRU (Cyrchwyd Tachwedd 2023).

Llywodraeth Cymru (2021c) Y Cytundeb Cydweithio Cyrchwyd Tachwedd 2023).

Llywodraeth Cymru (2022a). Y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg.

Llywodraeth Cymru (2022b) *Specification for* – Cadw Historic Welsh Names Research.

Llywodraeth Cymru (2023) Polisi Seilwaith Ieithyddol y Gymraeg.

Comisiynydd y Gymraeg (2020) *Cod Ymarfer i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015.* Ar gael yn: Cod Ymarfer i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif. 1) 2015 (www.comisiynyddygymraeg.cymru) (Cyrchwyd: Tachwedd 2023).

Comisiynydd y Gymraeg (2023a) *Canllawiau safoni enwau lleoedd Cymru.* Ar gael yn: Safoni Enwau Lleoedd Cymru (Cyrchwyd: Tachwedd 2023).

Comisiynydd y Gymraeg (2023b) *Pam Safoni Enwau Lleoedd?* Ar gael yn: Pam safoni enwau lleoedd? (www.comisiynyddygymraeg.cymru) (Cyrchwyd: Tachwedd 2023).

Wideman, T. J. & Masuda, J. R. (2018) "Assembling "Japantown"? A critical toponymy of urban dispossession in Vancouver, Canada". Yn *Urban Geography*, 39:4, 493-518, DOI: 10.1080/02723638.2017.1360038.

Wyn, D. (2023) FixMyStreet are now using our map!. Ar gael yn: Adrodd strydoedd yn Gymraeg! - Mapio Cymru (Cyrchwyd: Tachwedd 2023).

Atodiadau

Atodiad A: Data ALlau ar enwi lleoedd a newidiadau i enwau a gasglwyd yn 2015 i lywio polisi mewn perthynas â Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016

Atodiad B: Rhestr o sefydliadau sy'n rhanddeiliaid a holwyd

Atodiad C: Y canllaw trafod a ddefnyddiwyd ar gyfer cynnal cyfweliadau ansoddol lled-strwythuredig gyda sefydliadau allweddol sy'n rhanddeiliaid

Atodiad D: Templed ar gyfer casglu data ceisiadau am enwi a newid enwau eiddo a strydoedd gan ALlau

Atodiad E: Canllaw trafod ar gyfer Swyddogion ERhS ALlau

Atodiad F: Rhestr o ALlau a holwyd

Atodiad G: Rhestrau o'r ALlau a ddarparodd ddata ar geisiadau enwi ac ailenwi eiddo a strydoedd

Atodiad H: Ymatebion ALlau i'r cais am ddata ar geisiadau enwi ac ailenwi eiddo a strydoedd a dderbyniwyd gan ALlau

Atodiad I: Data ALlau ar geisiadau i enwi eiddo

Atodiad J: Data ALlau ar geisiadau i ailenwi eiddo domestig

Atodiad K: Data ALlau ar geisiadau enwi strydoedd

Atodiad L: Data ALlau ar geisiadau i ailenwi eiddo arall

Atodiad M: Cwestiynau arolwg enwau tai digidol Cadw

Atodiad N: Canllawiau'r Arolwg Tirwedd Ieithyddol ar gyfer gwaith maes

Atodiad O: Data astudiaeth Tirwedd Ieithyddol

Atodiad P: Data AddressBase Premium

Atodiad A: Data enwi lleoedd a newidiadau i enwau gan ALlau (2015)

Authority	Enquiry Acknowledged/ Received	Period covered	Total requests	Annual average	English to Welsh	Welsh to English	No change to language	Cost to change house name (£)	Policy to encourage historic name retention	Number of case where retention encouraged	No. of cases where historic name retained
Blaenau Gwent	R	2010–14[1]	43	8	3	0	40	25.00[2]	No		
Bridgend	A							30.00			
Caerphilly											
Cardiff								100.00			
Carmarthenshire											
Ceredigion	R	2010–15[3]	141	24[4]	32	9	100	0.00	Yes[5]	6[6]	3
Conwy		2010–15	105[7]	18		~ 20		0.00			
Denbighshire											
Flintshire	A										
Gwynedd	R	2005—15	~ 605[8]	~ 55					Yes		50%
Isle of Anglesey	R	2014–15[9]	22[10]	22	6	3	14[11]	0.00	Yes[12]		
Merthyr Tydfil								50.00			
Monmouthshire	R	2012–14	90[13]	30		3[14]		25.00			
Neath Port Talbot	R	2015[15]	1				1[16]	25.00	No		
Newport	R	2008–15	23	3	6[17]	1	16[18]	41.60	No		
Pembrokeshire	R	5 years[19]		285[20]	10%	2%	88%	0.00	No		
Powys	R	2015[21]	18		2	2	14	35.00	No		
Rhondda Cynon Taff	R	2013—15	36	12	21	3	12[22]	0.00	No		
Swansea	R	2010–14	40	8	11	4	25	50.00	No[23]		
Torfaen	R	2010–15	16	3	1	3	12	25.00	No[24]		
Vale of Glamorgan	R	2012–15[25]	47	16	NA[26]	NA	NA	68.89	No[27]		
Wrexham											

1. Ionawr 2010 i Ragfyr 2014.
2. Cyflwynwyd y ffi ar 1 Medi 2015.
3. Ffigurau blynyddol a ddarparwyd gan Geredigion: 2010 (yn dechrau 11/10/2010) — 10; 2011 — 32; 2012 — 21; 2013 — 20; 2014 — 22; 2015 (i 29/10/2015) — 36
4. Cyfartaledd a gyfrifwyd o'r ffigurau ar gyfer y blynyddoedd llawn 2011-2014
5. Mabwysiadwyd y polisi gan Gyngor Sir Ceredigion ar 3 Mawrth 2015.
6. Penderfyniad i annog cadw ar sail gwybodaeth leol unig Swyddog Rheoli Cyfeiriadau yr awdurdod.
7. 2010 —15; 2011 — 17; 2012 — 21; 2013 — 17; 2014 — 19; 2015 — 16
8. Gallai Gwynedd ond darparu ffigyrau ar gyfer nifer y ceisiadau enwi blynyddol: 2005 — 67; 2006 — 44; 2007 — 125; 2008 — 95; 2009 — 126; 2010 — 116; 2011 — 141; 2012 — 136; 2013 — 119; 2014 — 120; 2015 (i 06/11) — 120. O'r cyfanswm hwn o 1209 o geisiadau, amcangyfrifodd swyddog y cyngor fod 50 y cant yn cynnwys newid enwau.
9. Tachwedd 2014 i Hydref 2015
10. Nifer amcangyfrifedig.
11. Pob achos o newidiadau o'r Gymraeg i'r Gymraeg.
12. Yn debygol o fod yn seiliedig ar wybodaeth leol y swyddog perthnasol er y gellid gwneud ymchwil manylach mewn achosion eithriadol.
13. 2012 — 36; 2013 — 25; 2014 — 29
14. 2012 — 3; 2013 — 0; 2014 — 0
15. Ni allai swyddog y cyngor gofio cais am ailenwi cyn hyn.
16. Rhoddwyd enw Saesneg newydd i dŷ a ailadeiladwyd ar ôl ei ddinistrio gan dân. Nid oedd gan yr enw gwreiddiol arwyddocâd hanesyddol.
17. Mae'r newidiadau'n cynnwys 1 newid o enw Thai ac 1 newid i enw Cymraeg/Saesneg cymysg (Pencoed Manor).
18. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys 4 achos o newidiadau o'r Saesneg i iaith arall, ac mae'n cynnwys newid o Llareggub i Longbourn
19. Nid yw'r cyfnod wedi'i nodi.
20. Dim ond cyfartaledd a ddarperir, ond dywedodd swyddog fod hyd yn oed 185 o geisiadau wedi'u derbyn yn eu blwyddyn dawelaf. Amcangyfrifodd fod 80 y cant o'r ceisiadau yn newidiadau gwirioneddol i enwau tai, tra bod y gweddill yn cynnwys enwi lleiniau unigol sefydledig, enwi ysgubor a droswyd (er yn aml gydag enwau blaenorol) ac un eiddo yn dod yn dŷ amlfeddiannaeth.

21. Mae'r ffigurau a ddarparwyd yn cwmpasu'r cyfnod rhwng Mai a Thachwedd 2015 yn unig: Y niferoedd misol yw: Mai — 1; Mehefin — 4; Gorffennaf — 5; Awst — 3; Medi — 0; Hydref — 3; Tachwedd — 2.
22. Cymraeg i Gymraeg — 7; Saesneg i Saesneg — 5.
23. Nododd swyddog yr awdurdod lleol a ymatebodd nad yw'n ymddangos bod yr un o'r ceisiadau 'yn ymwneud ag eiddo o unrhyw arwyddocâd hanesyddol, rhestredig neu arbennig'.
24. Polisi enwi a rhifo strydoedd yn cael ei ddatblygu.
25. 2012–13: 14; 2013–14: 18; 2014–15: 15.
26. Nid oedd swyddog y cyngor yn gallu rhoi manylion am newidiadau rhwng ieithoedd ond dywedodd ei bod 'o'r farn bod cymaint o newidiadau i enwau o'r Gymraeg i'r Saesneg ag sydd i'r gwrthwyneb'.
